



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

ASESIAD O DDIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2022



Torfaen
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd



Ffurflen Asesu Digonolrwydd Gofal Plant

Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Enw'r swyddog â chyfrifoldeb: Hannah Bedford, Arweinydd Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen

Dyddiad Cwblhau: Mawrth 2022

Prif Ddatganiad

Dan Ddeddf Gofal Plant 2006 mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau gofal plant sy'n ddigonol ar gyfer anghenion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio, yn eu hardal, hyd nes 1 Medi ar ôl i'r plentyn droi'n 14 oed, neu hyd nes ei fod yn cyrraedd 18 oed yn achos plant ag anabledd. Elfen graidd o'r ddyletswydd hon yng Nghymru yw cynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant bob pum mlynedd, sy'n asesu'r cyflenwad gofal plant, a'r galw amdano, yn yr awdurdod lleol, a chanfod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Felly, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyfrifol am lunio'r ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal leol, a chefnogi ei datblygiad, er mwyn sicrhau ei bod yn hyblyg, yn gynaliadwy ac yn ymateb i anghenion y gymuned.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cydnabod pwysigrwydd cynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn er mwyn sicrhau bod rhieni'n gallu cael hyd i ofal plant yn lleol, mewn ffordd sy'n bodloni eu hanghenion ac yn eu galluogi i wneud gwir ddewis o ran gweithio.

Mae'r adroddiad hwn (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022) yn rhan o bumed Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac mae'n seiliedig ar fodloni gofynion

- y ddogfen ganllaw statudol *Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016)* a
- Cylchlythyr WGC 003 2021/WG21-28 "*Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016): Sicrhau Gofal Plant Digonol ac Asesiadau Digonolrwydd Plant*" a gyhoeddwyd ar 15 Mawrth, 2021

Mae'r Canllawiau yn galw ar awdurdodau lleol i:

- Fapio'r ddarpariaeth gofal plant ar hyn o bryd, gan ystyried:
 - y math o gofrestrriad a'r gwasanaethau a ddarperir
 - yr ystod oedran y darperir ar ei gyfer
 - amserau
 - iaith y ddarpariaeth
 - y lleoliad
 - lefelau'r ffioedd

- y gallu i ddarparu darpariaeth sy'n gynhwysol
- unrhyw wasanaethau/cyfleusterau eraill a ddarperir
- Mapio patrymau presenoldeb presennol, ynghyd â lefel y lleoedd gwag neu'r plant sy'n aros am le ar unwaith
- Arolwg i rieni
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i gael hyd i wybodaeth am y galw yn awr ac yn y dyfodol
- Defnyddio dogfennau cynllunio strategol a data ynghylch y boblogaeth, heddiw ac yn y dyfodol; tueddiadau demograffig ac economaidd-gymdeithasol, i ganfod y galw tebygol yn y dyfodol
- Canfod lefel a math y galw sydd heb ei ddiwallu, yn awr ac yn y dyfodol, wedi'i gyfrifo drwy ddadansoddi'r bwlch rhwng y ddarpariaeth bresennol (math, capasiti, lleoliad) a'r galw presennol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol

Cynnwys

1. Cyflwyniad/Cyd-destun	7
2. Gwaith Partneriaeth ac Ymgynghoriad	9
3. Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad o'r Anghenion Llesiant Lleol	13
4. Poblogaeth	17
5. Effaith Covid	39
6. Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoliadau	52
7. Cyflenwad Gofal Plant	
7.1. Gwarchodwr Plant	63
7.2 Meithrinfa Ddydd Lawn	95
7.3 Gofal Dydd Sesiynol	134
7.4 Gofal Tu Allan i'r Ysgol	158
7.5 Gofal y Tu Allan i'r Ysgol Heb Ei Gofrestru	182
7.6 Darpariaeth Chwarae heb ei chofrestru	186
7.7 Nani	194
8. Cyflenwi Gofal Plant – Data'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (DEWIS)	195
9. Dadansoddiad Dechrau'n Deg	209
10. Dadansoddiad o Addysg Ran-amser y Blynyddoedd Cynnar (Cyfnod Sylfaen)	212
11. Y Ddarpariaeth Clybiau Brechwast Am Ddim	220
12. Dadgofrestriadau AGC 2021 – 2022	224
13. Ansawdd y ddarpariaeth, Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol, Gofal Plant di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru	226
14 Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr	229
14.1 Trosolwg	229
14.2 Y Defnydd ar hyn o bryd	237
14.3 Y Galw am Ofal Plant	294
14.3.1 Ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	309
14.4 Rhwystrau y mae grwpiau taregd penodol yn eu hwynebu	312
15. Cynaliadwyedd	313
16 Ymgynghoriad Trawsffiniol	321
17 Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant	322
18 Canlyniadau'r Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid	347
18.1 Ymgynghori ag Ysgolion	348

18.2 Ymgynghori â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)	356
18.3 Ymgynghori â Chyflogwyr	362
18.4 Ymgynghori â Thimau Cyflogadwyedd	370
18.5 Ymgynghori â Sefydliadau Ambarél	378
18.6 Ymgynghori â Darparwyr Gofal Plant	397
19. Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc	
19.1 Plant a Phobl Ifanc mewn Gwersylloedd Chwerthin, Dysgu a Bod yn Actif	416
19.2 Plant a Phobl Ifanc mewn Lleoliadau Gofal Plant	420

Atodiadau

422

Atodiad 1	Arolwg Rhieni / Gofalwyr
Atodiad 2	Holiadur Ymgynghori ag Ysgolion
Atodiad 3	Holiadur Ymgynghori â WESP
Atodiad 4	Holiadur Ymgynghori â Chyflogwyr
Atodiad 5	Holiadur Ymgynghori â Thimau Cyflogadwyedd
Atodiad 6	Holiadur Ymgynghori â Sefydliadau Ambarél
Atodiad 7	Holiadur Ymgynghori â Darparwr Gofal Plant

Y Diweddraf am yr Ymgynghoriad Mehefin 2022

424

1. Cyflwyniad/Cyd-destun

Disgrifia'r adran hon y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu a chymeradwyo'r rhain. Mae'n nodi'r prif heriau wrth gynnal yr Asesiad ac mae'n disgrifio'r dull y mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig ei ddefnyddio i symud y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu yn eu blaenau.

Defnyddia'r adroddiad hwn ystod o ddata a gasglwyd fel rhan o'r broses asesu er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y farchnad gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Torfaen.

Dan Adran 26 y Ddeddf Gofal Plant mae galw ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i baratoi asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant yn eu hardal, gweithio tuag at sicrhau darpariaeth ddigonol a sefydlu cynlluniau i roi sylw i unrhyw fylchau a welir. Mae gofyn i Awdurdodau Lleol gynnal asesiad llawn o'r ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal erbyn 30^{ain} o Fehefin 2022 a phob pum mlynedd wedi hynny. Cyflwynir Adroddiadau Cynnydd Blynyddol i Lywodraeth Cymru i adolygu'r cynnydd parhaus.

Seiliwyd y dull a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr asesiad hwn ar y ddogfen ganllaw statudol *Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016)* a'r cylchlythyr WGC 003 2021/WG21-28 Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016): Sicrhau Gofal Plant Digonol ac Asesiadau Digonolrwydd Plant a gyhoeddwyd ar 15 Mawrth, 2021

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn defnyddio tystiolaeth a geir o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn ogystal â chynlluniau a rhaglenni eraill yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys Dechrau'n Deg, Addysg y Blynyddoedd Cynnar, Teuluoedd yn Gyntaf, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Asesiad Anghenion Llesiant Lleol a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru.

Bydd dadansoddi lefel y galw ar hyn o bryd, ynghyd â'r cyflenwad a'r elfennau posib sy'n rhwystro teuluoedd rhag defnyddio gofal plant, yn cyfrannu at ddatblygiad y ddarpariaeth gofal plant yn Nhorfaen, a'i chynaliadwyedd, nawr ac yn y dyfodol. O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn, cynigiwyd Cynllun Gweithredu Gofal Plant manwl a fydd yn arwain gwaith Tîm Gofal Plant/Blynyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol wrth reoli'r farchnad gofal plant yn lleol mewn partneriaeth ag adrannau eraill o'r Awdurdod Lleol a mudiadau allanol sy'n bartneriaid, gan gynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol.

Cododd nifer o heriau wrth goladu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac wrth adrodd amdano, a chafodd hyn effaith ar y broses o gasglu'r dystiolaeth ystadegol a'i dilysrwydd.

Mae'r pandemig a'r pwysau a ddioddefwyd o fewn y tîm Gofal Plant yn ystod Covid-19 wedi effeithio ar gyflawniad yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Rhaid cydnabod bod yr Awdurdod Lleol hefyd wedi dioddef yn sgil y galw i gefnogi lleoliadau gofal plant a rhieni yn ystod y pandemig, sydd, ar adegau, wedi atal amser a'r gallu i ddarparu mewn mannau eraill. Mae absenoldebau staff a chyfyngiadau lleol oherwydd Covid 19 hefyd wedi effeithio ar gyflawni rhai ymgynghoriadau. Gallwch fod yn sicr bod yr Awdurdod Lleol wedi gwneud pob ymdrech i fodloni gofynion yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant tra hefyd yn cadw at ofynion y gwasanaeth.

Wrth fynd at i gynnal yr Arolwg Rhieni / Gofalwyr, roedd yna nifer o ymgynghoriadau ar waith gan Lywodraeth Cymru ac o fewn yr Awdurdod Lleol yn gofyn am farn teuluoedd yn Nhorfaen.

Er bod cyfradd y nifer a ymatebodd i'r arolwg Rhieni/Gofalwyr wedi cynyddu ers yr asesiad blaenorol, yn seiliedig ar y ffigurau poblogaeth presennol gellir pennu nad yw hyn yn ystadegol arwyddocaol.

Yn ogystal â hyn, roedd y dadansoddiad o'r cyflenwad gofal plant yn Nhorfaen yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru. Roedd y data'n anghyflawn ac felly nid yw'n ystyried yr holl leoliadau gofal plant yn Nhorfaen. Bydd dadansoddiad pellach gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ceisio dilysu unrhyw anghysondebau a nodwyd o ran gofal plant, gan gyfeirio at ddata a gedwir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar DEWIS Cymru. Nodwyd hefyd nad yw 1 lleoliad yn nata Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) yn perthyn i Dorfaen. Felly, mae hyn wedi'i amlygu yn y dadansoddiad.

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen a'r Tîm Gofal Plant sydd wedi cynnal a chyhoeddi'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mewn ymgais i gefnogi Awdurdodau Lleol gyda'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, dyrannwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021.

Place Group Consultancy gafodd y tendr i ddarparu cyfres o grwpiau ffocws i archwilio'r hyn oedd yn rhwystro teuluoedd rhag defnyddio gofal plant yn ystod mis Chwefror 2022. Adroddodd *Place-Group* ar ddadansoddiad o'r grwpiau ffocws, Dadansoddiad o Fylchau o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu Gofal Plant.

Darparwyd cymorth pellach gan yr Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus (UCGC) ar gyfer dadansoddiad demograffig, cyflenwad a dadansoddiad ychwanegol o ran rhieni/gofalwyr.

2. Gwaith Partneriaeth ac Ymgynghoriad

Ymgynghorodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen a'r Tîm Gofal Plant â nifer o randdeiliaid lle'r oedd hynny'n briodol yn unol ag atodlen 2 o'r Canllawiau Statudol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, Rheoliadau 6 a 7 yn nodi'r rheiny y gallai awdurdodau lleol ystyried ymgynghori â nhw a'r rheiny y mae'n rhaid iddynt ymgynghori â nhw wrth baratoi'r asesiad, gan gynnwys y rheiny sy'n cynrychioli pobl sydd â diddordeb mewn gofal plant.

Defnyddiwyd amrywiaeth eang o ddata i fwydo'r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant, gan gynnwys:

- **Proffil demograffig, economaidd-gymdeithasol Torfaen:** gallai amrywiaeth o ffactorau effeithio ar y galw am ofal plant a'r gallu i dalu amdano. Mae'r dadansoddiad hwn yn Adran 4 yn edrych ar y rhagamcan o ffigurau'r boblogaeth ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol a'r prif dueddiadau a ffactorau sy'n debygol o effeithio ar y ffigurau hynny. Gallai hyn ddarparu darlun cychwynnol o rai o'r bylchau posib mewn gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Torfaen. Cyflwynwyd data gan Uned Cefnogi'r Gwasanaethau Cyhoeddus a bu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yn dadansoddi'r data ac yn ei gyflwyno.
- **Proffil o ran cyflenwi gofal plant:** Dadansoddwyd y cyflenwad Gofal Plant yn ôl gwybodaeth a gyflwynwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Anfonwyd data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yn ystod Hydref 2021. Yn ystod mis Tachwedd, cyflwynwyd diweddariad i'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yn dilyn anghysondebau a nodwyd gan nifer o Awdurdodau Lleol eraill. Roedd y data yn yr adroddiad Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd gan ddarparwyr gofal plant yn ystod Haf 2016. Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer cwblhau yn llai na 90% a phrofodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen nifer o anawsterau wrth archwilio'r cyflenwad o ofal plant ar sail y data yn y Datganiad. Teimlwyd bod rhai darparwyr gofal plant wedi camdehongli'r cwestiynau a holwyd o fewn y Datganiad, ac felly mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn amrywio'n sylweddol i'r wybodaeth sydd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Ceisiodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gysylltu â lleoliadau nad oeddent yn cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a gofal plant anghofrestredig, fodd bynnag ychydig o ymatebion a dderbyniwyd. Felly, mae crynodeb o'r ddarpariaeth sydd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar DEWIS Cymru hefyd wedi'i ddarparu.

- **Arolwg o'r galw gan Rieni / Gofalwyr.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ac aelodau Aware ar holiadur ar-lein a gynhyrchwyd a chyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Hyrwyddwyd yr arolwg ar lefel genedlaethol a'i hyrwyddo trwy gyfres o ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, cafodd ei ddsbarthu trwy Ysgolion Torfaen ac i randdeiliaid eraill oedd yn berthnasol. Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau am y gofal plant maen nhw'n ei ddefnyddio, rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant, gwelliannau sydd eu hangen, costau gofal plant a chymorth ariannol (ymhlith cwestiynau eraill). Cafwyd cyfanswm o 501 o ymatebion. Oherwydd maint y sampl, ni allai'r dadansoddiad edrych ar wahaniaethau a oedd yn arwyddocaol yn ystadegol rhwng grwpiau gwahanol o rieni/gofalwyr o ran defnyddio gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Torfaen, a'u barn amdano. Bu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yn gwneud y gwaith maes ac fe'u cefnogwyd gan Lywodraeth Cymru ac Uned Cefnogi'r Gwasanaethau Cyhoeddus.
- **Grwpiau ffocws gyda rhieni/gofalwyr:** Cynhaliodd *Place Group Ltd* gyfanswm o # o grwpiau ffocws rhwng mis Chwefror 2022 a mis Mawrth 2022, yn cynnwys # o rieni/gofalwyr. Roedd y rhain yn targedu grwpiau penodol o rieni/gofalwyr ac yn casglu barn:
 - Rhieni sengl/rhieni sy'n ceisio gwaith a hyfforddiant
 - Manylion plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol/Anabledd
 - Teuluoedd ar un incwm
 - Teuluoedd sy'n ddi-waith
 - Teuluoedd Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill

Fe wnaeth *Place Group Consultancy Ltd* gynnal, dadansoddi ac adrodd ar y grwpiau ffocws hyn ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Bydd adroddiad ar wahân yn cael ei baratoi gan *Place Group*.

- **Ymgynghori â phlant a phobl ifanc:** ymgynghorwyd â chyfanswm o 478 o blant a phobl ifanc rhwng 5 a 12 oed yn rhan o Aseiad o Ddigonolrwydd Chwarae 2022. Gwasanaeth Chwarae Torfaen fu'n cynnal yr ymchwil hwn, a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen fu'n ei ddadansoddi.

Cynhaliwyd 2 ymgynghoriad arall gyda chyfanswm o 20 o blant rhwng 3 a 9 oed mewn darpariaethau gofal plant cofrestredig. Roedd y rhain yn archwilio defnyddio gofal plant, rhesymau dros ei ddefnyddio, beth oedden nhw'n yn ei hoffi am ofal plant,

awgrymiadau ar gyfer gwelliannau a'r gofal plant a ddefnyddir yn ystod gwyliau ysgol. Cyflwynwyd yr ymgynghoriadau hyn ac adroddwyd arnynt gan UCGC.

- **Ymgynghori â Chyflogwyr:** Cynhaliwyd arolwg gyda chyflogwyr ynghylch materion gofal plant, gan drafod materion yn ymwneud â recriwtio/cadw gweithwyr a chymorth ar eu cyfer, a hynny ymhlith cyflogwyr ym Mwrdeistref Sirol Torfaen. Ymatebodd 7 o gyflogwyr i'r arolwg. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen fu'n gwneud y gwaith ymchwil hwn ac yn adrodd amdano.
- **Ymgynghori â darparwyr gofal plant:** Dosbarthwyd holiadur ymhlith 87 o ddarparwyr gofal plant sy'n darparu 130 o wahanol ddarpariaethau gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Torfaen i ddarganfod beth oedd eu barn am y farchnad gofal plant yn lleol, gwelliannau y byddai modd eu gwneud i fodloni anghenion grwpiau penodol, cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r cymorth sydd ei angen. Ymatebodd 15 o ddarparwyr gofal plant. Y Tîm Gofal Plant fu'n gwneud y gwaith ymchwil hwn ac yn adrodd amdano.
- **Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol:** Ymgynghorwyd â nifer o gyrff ambarél ynghylch eu barn am y farchnad gofal plant yn lleol a gwelliannau posib y byddai modd eu gwneud i fodloni anghenion grwpiau penodol. Roedd y rheini a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn cynnwys Blynnyddoedd Cynnar Cymru, Pacey Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC), Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfydd Dydd (NDNA) a Mudiad Meithrin (MM).
- **Ymgynghori ag Ysgolion:** Dosbarthwyd arolwg i holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ystod mis Medi 2021. Fe wnaeth cyfanswm o 15 ysgol gwblhau'r arolwg.
- **Ymgynghori â Thimau Cyflogadwyedd a'r Ganolfan Byd Gwaith:** Anfonwyd cyfres o gwestiynau at y Ganolfan Byd Gwaith, yn gofyn am eu barn am ofal plant ac i nodi unrhyw fylchau rhwng grwpiau targed penodol fel yr amlinellwyd yn Atodlen 2 yng Nghlanllawiau Llywodraeth Cymru.
- **Ymgynghori â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP):** Anfonwyd cyfres o gwestiynau at **Aelodau WESP**, yn gofyn am eu barn am ofal plant ac i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Cafwyd ymateb gan 3 aelod.
- **Bwrdd Diogelu Plant:** Gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen bob ymdrech i ymgynghori â'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol, fodd bynnag ymatebodd y Bwrdd trwy ddweud na fyddai'n gallu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad oherwydd diffyg gwybodaeth leol ynghylch gofal plant yn Nhorfaen. Mae'r Bwrdd yn Cynnwys grwpiau amlasiantaeth rhanbarthol o uwch swyddogion sy'n gosod y cyfarwyddyd strategol o ran diogelu ar draws y rhanbarth ac ni fyddai gan yr Uned Fusnes unrhyw dystiolaeth i gefnogi

sylwadau am y maes gwaith hwn. Cysylltodd cynrychiolwyr lleol o Dorfaen â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a darparu nifer y plant sy'n cael eu hariannu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i fynychu gofal plant yn Nhorfaen.

Aeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen a'r Tîm Gofal Plant ati i ddadansoddi crynodeb lawn o'r ymgynghoriadau a amlinellir uchod, ac adrodd amdanynt.

3. Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad o'r Anghenion Llesiant Lleol

Hysbysodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yr Asesiad o Anghenion Llesiant Lleol wrth fynd ati i goladu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 ac adrodd amdano. Daw'r dyfyniad canlynol o Ddrafft o Asesiad Llesiant Gwent Rhagfyr 2021.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn Ebrill 2016 fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Mae'r darn hwn o ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cenedl a'r cymunedau sy'n rhan ohoni.

Mae'r Ddeddf yn nodi sut y mae angen i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, a, gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Cyfeirir at y rhain fel y pum ffordd o weithio. Drwy weithredu fel hyn rydym yn gweld newid llawer gwell o ran creu lle rydym i gyd eisiau byw ynddo, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'n ofynnol i'r BGC baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal cyn pen blwyddyn cyn iddo gyhoeddi ei Gynllun Llesiant Lleol. Darparodd yr asesiad hwn y dystiolaeth i nodi blaenoriaethau allweddol a chynllunio sut i wella llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dyma Asesiad Llesiant cyntaf BGC Gwent ac mae wedi'i adeiladu o ystod eang o ffynonellau gan gynnwys data cyfrifiad ac ystadegol, polisi ac ymchwil a thystiolaeth ansoddol sy'n casglu barn a chanfyddiadau pobl yn ogystal â rhoi cyd-destun i ddata meintiol ac ymchwil academaidd.

Torfaen yw'r mwyaf dwyreiniol o gymoedd trefol De Cymru. Yn ddaearyddol mae'n cwmpasu ardal o Flaenau'r Cymoedd yn y gogledd i goridor yr M4 yn y de gyda thri phrif anheddiad, Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwibrân. Sefydlwyd Pont-y-pŵl a Blaenafon yn wreiddiol i fanteisio ar yr adnoddau golosg, glo a haearn toreithiog anadnewyddadwy yn yr ardal. Wrth i'r diwydiannau trwm dan sylw ddirywio dros y 100 mlynedd diwethaf, felly hefyd y gwnaeth ffyniant yr ardaloedd hynny. Mae gan dref Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon boblogaeth o ryw 6,504, ac mae wedi ei lleoli ar y pwynt gogleddol pellaf yn y fwrdeistref. Mae'n enwog am Bwll Mawr, Amgueddfa Lofaol Cymru ac enghraifft o'r gwaith haearn orau sy'n deillio o'r 18fed ganrif. A hithau'n dref ddiwydiannol gynt, Pont-y-pŵl gyda'i marchnad draddodiadol dan do ac awyr agored, yw'r anheddiad mwyaf nesaf o ran maint, yng nghanol y fwrdeistref gyda phoblogaeth o ryw 37,705 o bobl. Yn ne'r fwrdeistref, mae Cwibrân yn unigryw gan mai dyma'r unig Dref Newydd yng Nghymru, wedi'i henwi ym 1949 a'i dylunio'n dref nodedig, flaengar a modern sy'n cynnig cyfleoedd newydd i'w thrigolion. Rhannau helaeth o Figur 6: (Chwith i'r dde) Pont Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yng Nghasnewydd, Parc Beechwood, Casnewydd, a'r Bont Gludo. DRAFFT o Asesiad Llesiant Gwent 9 o 15 1.4 Ynglŷn â'r Cymunedau...Bydd deall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol yn gallu ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd llesiant allweddol. Mae'r fwrdeistref sirol bellach wedi'i threfoli o

amgylch Cwmbrân, sydd â'r boblogaeth fwyaf o bob un o'r tair ardal anheddiad gyda thua 49,806. Mae Canolfan Siopa Cwmbrân yn denu niferoedd mawr o ymwelwyr i siopa o bob cwr o ardaloedd ehangach Gwent a choridor yr M4.

Prif dueddiadau a ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ffigurau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae'r data demograffig o Grynodedb Gweithredol DRAFFT Asesiad Llesiant Torfaen a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 yn datgan;

Mae rhagamcanion yn dangos rhwng 2019 – 2043 y bydd canran cyfanswm y boblogaeth yn Nhorfaen yn codi 5.2 % (4,865). Bydd nifer y bobl 16-64 oed yn cynyddu ychydig i 0% (19 o bobl). Bydd y rhai 65 oed a hŷn yn cynyddu 28% (5,389) a chynnydd o 69.9% yn y rhai 85 oed a hŷn. (Tud.9)

Tueddiadau a heriau'r dyfodol - Addysg

Mae gweithleoedd yn newid, ac mae pandemig Covid-19 wedi cyflymu'r symudiad tuag at ddefnyddio mwy o dechnoleg ac awtomeiddio, ac mae hon yn duedd y gallwn ddisgwyl iddi barhau. Mae'n debyg y bydd technoleg yn newid y rhan fwyaf o swyddi, gyda'r rhai sy'n llai medrus ac yn fater o drefn sylweddol yn dod yn fwyfwy awtomataidd. Mae perygl y gallai pobl ifanc gael eu hyfforddi yn y sgiliau anghywir, neu hen ffasiwn, sy'n effeithio ar eu rhagolygon yn y byd gwaith. (Tud.64)

Mae cyfleoedd gwaith i bobl yn aml yn fwy dibynnol ar y sgiliau sydd ganddynt, yn hytrach na lle maent yn byw, ac mae hyn wedi cynyddu yn ystod y pandemig pan ddaeth gweithio gartref yn fwy derbyniol. Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth fydd rhai o swyddi'r dyfodol, ond rydym yn gwybod bod rhai pethau bob dydd y bydd eu hangen bob amser ac felly bydd angen pobl fedrus sy'n gallu gweithio ynddynt, fel iechyd a gofal cymdeithasol, sectorau bwyd ac ynni. (Tud.64)

Amddifadedd Tai

Her allweddol yw sicrhau bod cyflenwad digonol o dai o ansawdd da wedi'u lleoli yn y man cywir, gan gynnwys tai fforddiadwy, i ddiwallu anghenion ein cymunedau. Gwyddom fod y boblogaeth yn heneiddio - rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed a hŷn sy'n byw yng Ngwent yn cynyddu 74% rhwng 2019 a 2043, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (69.5%). I Went, fe allai hyn olygu 10,615 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran hon. (Tud.70)

Gofal Plant

Mae Asesiad Llesiant Torfaen yn adrodd ar ofal plant ac effeithiau ymhlith yr awdurdodau lleol, mae'r dyfyniad isod wedi'i gymryd o'r Crynodeb Gweithredol DRAFFT (Tud. 30) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. Sylwch fod cyfeiriad at ofal plant wedi'i gymryd o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn 2017 (a Diweddariad Blynyddol ar gyfer Casnewydd 2021).

Gall rhieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio yng Nghymru (rhaid i bob rhiant yn y cartref fod yn gweithio ac ennill llai na chyfanswm o £100,000 y flwyddyn) gael 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu am ddim, bob wythnos am 48 wythnos y flwyddyn. Os bydd angen iddynt dalu am 20 awr ychwanegol i gymryd hyn i fyny i le llawn amser (50 awr yr wythnos i gynnwys amser teithio), y pris wythnosol ar gyfartaledd mewn meithrinfa fyddai £89.12 ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r 30 awr o ddarpariaeth gofal plant am ddim yn ymestyn i deuluoedd os yw rhiant mewn hyfforddiant, felly mae'n anodd i'r rhieni hynny roi hwb i'w cyfleoedd cyflogaeth trwy hyfforddiant heb fynediad at y gofal plant a ariennir.

Mae gan bob plentyn tair i bedair oed hawl i o leiaf 10 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu am ddim, p'un a yw'r rhiant neu'r rhieni'n gweithio ai peidio. Gall rhai plant dwy i dair oed yng Nghymru gael 12.5 awr yr wythnos neu ofal plant am ddim fel rhan o'r cynllun Dechrau'n Deg, a ddarperir mewn ardaloedd a dargedwyd lle mae amddifadedd yn uwch na'r cyfartaledd. Er gwaethaf y cymorth sydd ar gael i rieni ledled Gwent, mae'n dal i olygu y gall mynediad at ofal plant a'r gofal plant sydd ar gael am weddill yr wythnos waith, rhwystro llawer rhag gweithio. Nid gwasanaeth i rieni sy'n gweithio yn unig yw gofal plant; mae hefyd yn wasanaeth gwerthfawr i blant. Mae ymchwil yn dangos y gall gofal plant ddarparu manteision uniongyrchol a hirdymor i blant o'r cefndiroedd tlotaf os ydynt yn cael darpariaeth o ansawdd uchel yn eu blynyddoedd cynnar, gan wella rhagolygon cenedlaethau'r dyfodol.

Dan Ddeddf Gofal Plant 2006 mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau gofal plant sy'n ddigonol o ran anghenion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio, yn eu hardal, hyd nes 1 Medi ar ôl i'r plentyn droi'n 14 oed, neu hyd nes bod y plentyn yn cyrraedd 18 oed yn achos plant ag anabledd.

Mae asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer y 5 awdurdod lleol yng Ngwent yn 2017 yn dweud wrthym fod cyfanswm nifer y darparwyr gofal plant cofrestredig ac anghofrestredig a chyfanswm y lleoedd sydd ar gael ledled Gwent fel a ganlyn.

- Blaenau Gwent – 66 o ddarparwyr yn cynnig 1,329 o leoedd
- Caerffili – 346 o ddarparwyr yn cynnig 2,080 o leoedd
- Sir Fynwy – 115 o ddarparwyr yn cynnig 2,304 o leoedd
- Casnewydd - 151 o ddarparwyr yn cynnig 5,5324 (Mawrth 2021)

- *Torfaen – 151 o ddarparwyr yn cynnig 4,286 o leoedd*

Roedd yr Asesiadau hefyd yn dangos bod amrywiaeth o resymau gwahanol i rieni â phlant ddefnyddio gwasanaethau gofal plant. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros ddefnyddio gofal plant ar draws Gwent oedd am gyflogaeth neu chwilio am waith. Roedd y rhesymau cyffredin eraill yn cynnwys y manteision cymdeithasol neu addysgol i'r plentyn/plant, astudio mewn prifysgol neu goleg.

Fodd bynnag, drwy ymgysylltu â rhieni nodwyd bod costau gofal plant drud yn ffactor mawr ar gyfer peidio â defnyddio gofal plant, gan ei wneud yn anfforddiadwy i lawer o deuluoedd ledled Gwent, a hefyd amlygodd yr angen am amseroedd agor/trefniadau cofleidiol mwy hyblyg i gynorthwyo rhieni ar batrymau sifft afreolaidd. Mae rhieni sy'n gofalu am blant oherwydd bod costau gofal plant yn rhy ddrud neu'n methu â dod o hyd i gymorth ar adegau addas o'r dydd yn aml yn arwain at fwy o anweithgarwch economaidd.

Mae'r Asesiadau'n nodi bod ystod resymol o fathau o ddarpariaeth ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd cynllunio cymunedol. Fodd bynnag, mae gofal plant a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ag anghenion arbennig ac addysgol ac anableddau yn isel, yn gyffredinol ar draws Gwent. Bod yn rhiant sy'n aros gartref neu dderbyn cymorth gan deulu neu ffrindiau sy'n gofalu am blant oedd y rhesymau mwyaf cyffredin ymysg rhieni yng Ngwent dros beidio â defnyddio gofal plant

4. Poblogaeth

Cyflwynwyd Data Demograffig ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gan yr Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus a bu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yn ei ddadansoddi ac yn adrodd amdano.

At ddiben yr adroddiad hwn, defnyddir data o amcangyfrifon Poblogaeth Ganol 2020 ar gyfer Torfaen, a chyflwynir data ar sail y tair anheddiad pennaf yn Nhorfaen (Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwibrân).

Yn 2021, mae amcangyfrifon poblogaeth ganol flwyddyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn dangos bod cyfanswm y boblogaeth yn 94,832. O'r ffigwr hwn, mae 19,463 ohonynt yn blant 0-17 oed yn Nhorfaen. Mae hyn yn gynydd o 102 o blant ers yr asesiad llawn diwethaf yn 2017. Dengys Ffigur 1 isod gyfanswm y ffigurau poblogaeth yn ôl ardal ddaearyddol

Ffigur 1. Rhagamcanion Poblogaeth Canol-2020 Llywodraeth Cymru

Ardal	Cyfanswm y Boblogaeth	Nifer y plant 0 17 oed
Blaenafon	6,057	1,418
Pont-y-pŵl	37,897	7,851
Cwibrân	50,451	10,194
Cyfanswm	94,832	19,463

Mae'n glir o ffigurau'r boblogaeth fod mwyafrif y trigolion yn Nhorfaen yn byw yn ardal Cwibrân, ac mae nifer y plant 0-17 oed yn uwch yng Nghwibrân. Mae Ffigur 2 isod yn dangos ymhellach beth yw oed y plant fesul ardal ddaearyddol.

Ffigur 2. Ffigur 1. Rhagamcanion Poblogaeth Canol-2020 Llywodraeth Cymru

Anheddiad	12 mis ac iau	1 oed	2 oed	3 oed	4 oed	5 oed	6 oed	7 oed	8 oed	9 oed	10 oed	11 oed	12 oed	13 oed	14 oed	15 oed	16 oed	17 oed
Blaenafon	76	80	80	85	80	80	81	77	76	79	78	72	92	70	80	93	71	68
Pont-y-pŵl	388	438	381	439	455	419	443	449	479	496	485	467	418	446	442	457	363	386
Cwibrân	449	501	549	556	548	542	596	615	593	625	630	593	614	572	605	569	528	509
Torfaen	913	1019	1010	1080	1083	1041	1120	1141	1148	1200	1193	1132	1124	1088	1127	1119	962	963

O'r rhain, mae amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 yn awgrymu bod;

- 2942 yn 2 oed ac iau (gostyngiad o 267 o blant ers yr asesiad llawn, diwethaf);
- 2163 yn 3 a 4 oed (gostyngiad o 100 o blant ers yr asesiad llawn, diwethaf);
- 1041 yn 5 oed (gostyngiad o 66 o blant ers yr asesiad llawn, diwethaf);
- 2261 yn 6 a 7 oed (cynnydd o 110 o blant ers yr asesiad llawn, diwethaf);
- 3541 yn 8, 9 a 10 oed (cynnydd o 403 o blant ers yr asesiad llawn, diwethaf);
- 4471 yn 11, 12, 13 a 14 oed (cynnydd o 475 o blant ers yr asesiad llawn, diwethaf);
- 3044 yn 15, 16 ac 17 oed (gostyngiad o 483 o blant ers yr asesiad llawn, diwethaf).

Er bod Pont-y-pŵl a Chwibrân yn gweld gostyngiad yn nifer y plant 0-5 oed, mae cynnydd ym Mlaenafon, fodd bynnag ar gyfer plant hŷn na 5 oed mae'r tair ardal anheddiad yn cyd-fynd yn fras.

Rhagamcanion poblogaeth


Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn creu'r rhagamcan o newid yn y boblogaeth o blant a phobl ifanc gan ddefnyddio data genedigaethau byw. Yn Ffigur 3 gwelir y rhagamcan o'r boblogaeth o 2018 i 2043 i blant 0 – 17 oed. Sylwer nad yw hyn fesul ardal ddaearyddol.

Ffigur 1. Rhagamcanion Poblogaeth Canol-2018 Llywodraeth Cymru


	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	2026	2027	2028	2029	2030	2031	2032	2033	2034	2035	2036	2037	2038	2039	2040	2041	2042	2043
0 Oed	976	987	1004	995	983	975	971	967	963	960	957	955	955	957	960	965	971	977	983	991	999	1006	1011	1016	1018	1020
1 Oed	1042	995	1005	1022	1012	1001	992	989	985	980	977	975	973	973	975	979	983	989	995	1002	1010	1018	1025	1031	1035	1038
2 Oed	1061	1056	1010	1017	1034	1024	1013	1005	1001	998	993	990	988	986	987	989	992	997	1003	1009	1016	1024	1032	1040	1046	1050
3 Oed	1029	1072	1066	1020	1026	1042	1033	1022	1014	1010	1006	1002	999	997	996	996	998	1001	1006	1012	1018	1025	1033	1042	1050	1056
4 Oed	1099	1047	1088	1082	1036	1040	1056	1047	1036	1028	1024	1021	1017	1014	1012	1010	1011	1013	1016	1021	1027	1034	1041	1049	1057	1065
5 Oed	1131	1111	1059	1100	1093	1047	1051	1066	1057	1046	1038	1035	1031	1027	1024	1022	1021	1021	1023	1027	1032	1038	1044	1052	1060	1069
6 Oed	1126	1138	1118	1067	1108	1100	1054	1057	1072	1063	1052	1044	1041	1037	1033	1031	1028	1027	1028	1030	1033	1038	1045	1051	1058	1066
7 Oed	1162	1129	1141	1120	1070	1110	1102	1057	1058	1074	1064	1054	1046	1043	1039	1035	1033	1030	1029	1030	1032	1035	1040	1047	1053	1060
8 Oed	1166	1167	1135	1146	1125	1076	1116	1107	1062	1063	1078	1069	1058	1050	1047	1044	1040	1037	1035	1034	1034	1036	1040	1045	1051	1058
9 Oed	1131	1171	1172	1142	1152	1131	1083	1121	1112	1067	1067	1082	1073	1062	1055	1052	1048	1045	1042	1040	1039	1039	1041	1045	1050	1056
10 Oed	1103	1131	1171	1173	1143	1152	1131	1084	1122	1113	1068	1068	1082	1073	1063	1055	1052	1049	1045	1042	1040	1039	1040	1042	1045	1051
11 Oed	1081	1106	1134	1173	1175	1146	1155	1134	1088	1125	1115	1071	1070	1084	1075	1065	1057	1054	1051	1047	1045	1043	1041	1042	1044	1048
12 Oed	1125	1085	1110	1138	1176	1179	1151	1159	1138	1093	1130	1119	1075	1073	1088	1079	1068	1061	1058	1055	1051	1048	1046	1045	1046	1048
13 Oed	1110	1131	1092	1118	1144	1183	1186	1159	1166	1145	1100	1137	1126	1082	1079	1094	1085	1074	1067	1064	1061	1057	1055	1053	1051	1052
14 Oed	951	1110	1131	1093	1119	1145	1184	1187	1161	1167	1147	1102	1138	1127	1083	1080	1094	1086	1075	1068	1065	1062	1058	1056	1054	1053
15 Oed	957	952	1108	1130	1093	1119	1145	1183	1187	1162	1167	1147	1103	1138	1127	1084	1080	1094	1085	1075	1068	1065	1062	1058	1056	1054
16 Oed	983	962	958	1112	1134	1099	1126	1151	1188	1193	1168	1173	1153	1109	1145	1133	1090	1085	1099	1091	1080	1073	1070	1067	1064	1061
17 Oed	998	990	971	967	1119	1141	1107	1134	1159	1196	1201	1178	1182	1161	1119	1153	1141	1098	1093	1107	1098	1088	1081	1078	1075	1071
0-17 oed	19231	19340	19472	19613	19743	19712	19656	19629	19569	19482	19355	19221	19110	18997	18907	18864	18793	18738	18734	18743	18747	18768	18806	18857	18914	18977
0-4 oed	5207	5157	5173	5135	5091	5082	5066	5029	4998	4976	4959	4944	4933	4928	4930	4939	4955	4977	5004	5035	5070	5106	5143	5177	5206	5229

O'r Rhagamcanion o'r Boblogaeth gellir ystyried y bydd cyfanswm poblogaeth plant a phobl ifanc 0-17 oed yn cynyddu'n raddol tan 2022 ac yna'n gostwng dros nifer o flynyddoedd cyn cynyddu eto yn 2037. Rhagwelir y bydd y boblogaeth 0-4 oed yn gostwng yn raddol tan 2031 pan fydd yn cynyddu'n araf fel y dangosir yn y ffigurau isod.

Ffigur 4



Ffigur 5



Cyfraddau Genedigaethau Byw

Nid oedd Data Genedigaethau Byw ar gyfer 2021 ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn ac felly mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar dueddiadau o fewn y data ar enedigaethau byw gan yr UCGC o 2012-2020 ar gyfartaleddau treigl tair blynedd.


Mae data genedigaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn Ffigur 4 gwelir y gyfradd genedigaethau byw (fesul 1000 pob) yn ystod 2012-2020.

Ffigur 6 Cyfraddau Geni Mapiau Iechyd Cymru



	2012 14	2013 15	2014 16	2015 17	2016 18	2017 19	2018 20
Cymru	10.8	10.6	10.5	10.4	10.2	9.8	9.5
Torfaen	11.2	10.8	10.7	10.7	10.6	10.5	10.1

Mae Ffigur 6 yn dangos bod y gyfradd geni ym Mlaenafon wedi bod fymryn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Ffigur 6



Mae'r graffiau isod yn dangos y cyfraddau geni ym Mhont-y-pŵl a Chwibrân. Mae bron pob ardal ym Mhont-y-pŵl yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru gyfan, ac eithrio Dwyrain Pont-y-pŵl. Mae'r cyfraddau geni yng Nghwibrân yn agosach o lawer i'r cyfartaledd yng Nghymru, fodd bynnag mae'r Gogledd-orllewin ac ardal canol Cwibrân wedi bod yn uwch yn gyson.



Y nifer o blant ag anabledd

Mae'r data gan Adran Gofal Cymdeithasol a Thai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn dangos bod cyfanswm o 67 o blant ag anabledd yn Nhorfaen y mae ganddynt achos agored. Fodd bynnag, rhaid nodi ei bod yn debygol bod llawer mwy o blant ag anabledd nag y mae'r cyngor yn gwybod amdanynt oherwydd efallai eu bod yn cael gofal gan eu teuluoedd heb ymyrraeth gan y cyngor, neu efallai bod eu hachos wedi cau.

Mae Ffigur 7a yn dangos nifer y plant fesul grŵp oedran ac ardal ddaearyddol.

Ffigur 7a. Plant Anabl, Gofal Cymdeithasol CBST

	Oed																	Cyfanswm	
	0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16		17
Blaenafon	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Pont-y-pŵl	-	-	-	-	1	1	2	1	-	2	3	2	1	2	2	4	2	2	25
Cwmbrân	-	-	-	1	0	3	1	1	3	2	6	2	7	4	5	2	4	1	42
Cyfanswm	-	-	-	1	1	4	3	2	3	4	9	4	8	6	7	6	6	3	67

Mae'r data ar gyfer plant ag anabledd yn awgrymu, o'r rhain, fod;

- 2 blentyn yn 0-4 oed
- 25 o blant yn 5-10 oed
- 25 o blant yn 11-14 oed
- 15 o blant yn 15-17 oed

Sylwch fod newidiadau wedi bod i'r ffordd yr adroddir ynghylch y data hwn ers yr asesiad blaenorol felly nid yw'n bosibl cymharu â blynyddoedd blaenorol

Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig

Mae Ffigur 6b yn dangos nifer y plant ag Anghenion Addysgol Arbennig sy'n mynychu ysgolion yn Nhorfaen. Mae'r data'n seiliedig ar nifer y disgyblion AAA sy'n 3 oed a thros 16 oed a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Sylwer bod hyn yn cynnwys nifer y plant â cham AAA Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. O ran unrhyw ysgol â llai na phum disgybl ag AAA neu Ddatganiad nodir y ffigwr fel <5 i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion ac i barchu cyfrinachedd a diogelu data.

Ffigur 7b. Nifer y plant ag Anghenion Addysgol Arbennig - CBST

Blaenafon	Disgyblion AAA	Datganiadau	% AAA
Ysgol Gynradd W a R Treftadaeth Blaenafon	122	<5	25.5%
Pont y pŵl			
Disg. AAA	Datganiadau	% AAA	
Ysgol Uwchradd Abersychan	274	20	34.7%
Ysgol Gynradd Cwmffrwdroer	65	<5	25.5%
Ysgol Gynradd Garnteg	143	<5	31.3%
Ysgol Gynradd George Street	71	<5	16.1%
Ysgol Gynradd Griffithstown	48	<5	12.4%
Ysgol Gynradd New Inn	81	<5	13.1%
Ysgol Gynradd Gatholig Padre Pio	32	<5	14.7%
Ysgol Gynradd Gymunedol Pen y garn	89	<5	19.8%
Ysgol Uwchradd Gatholig Alban Sant	171	9	24.1%
Ysgol Gorllewin Mynwy	256	14	22.6%
YSGOL BRYN ONNEN	23	<5	10.8%
YSGOL GYFUN GWYNLLYW	168	7	22.5%
Ysgol Panteg	76	<5	18.0%
Cwmbrân			
Disgyblion AAA	Datganiadau	% AAA	
Ysgol Gynradd Gymunedol Blenheim Road	69	<5	22.8%
Ysgol Gynradd Coed Eva	54	<5	11.9%
Ysgol Gynradd Croesyceiliog	65	<5	14.8%
Ysgol Croesyceiliog	306	<5	24.9%
Ysgol Arbennig Crownbridge	114	39	100.0%
Ysgol Uwchradd Cwmbrân	304	45	28.8%
Ysgol Gatholig Iau a Babanod Cwmbrân	31	<5	13.8%
Ysgol Gynradd Greenmeadow	29	<5	14.6%

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Henllys	34	<5	19.4%
Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam	40	<5	11.2%
Ysgol Gynradd Llanyrafon	46	<5	11.1%
Ysgol Iau a Babanod Maendy	47	<5	18.7%
Ysgol Gynradd Nant Celyn	110	27	24.3%
YSGOL YR EGLWYS YNG NGHYMURU PONTIR	9	<5	8.7%
Ysgol Gynradd a Meithrin Pontnewydd	70	<5	17.0%
Ysgol Gatholig Dewi Sant, Cwmbrân	35	<5	16.8%
Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands	35	<5	9.6%
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmbrân	61	<5	17.6%

Roedd Ffigur 6.b yn dangos bod cyfanswm o 3078 o ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig, cynnydd o 9 ers yr asesiad diwethaf.

Mae Ffigur 7.c yn dangos lleoliad y disgyblion hyn yn Nhorfaen.

Ffigur 7c.

	Dosbarthiad disgyblion AAA (%)	
	2021	2017
Blaenafon	4.0	4.2
Pont y pŵl	48.6	47.3
Cwmbrân	47.4	48.5

Nifer yr aelwydydd â phlant dibynnol

Mae data a gyflwynwyd gan yr UCGC yn awgrymu bod cyfanswm o 12,902 o deuluoedd yn Nhorfaen, lle mae'r ddau riant yn gweithio. O'r rhain, mae 10,842 yn barau ble mae'r ddau riant yn gweithio a 2,060 yn rhieni sengl sydd yn gweithio. Nid yw teuluoedd dau riant lle mae un riant yn unig yn gweithio a theuluoedd un riant lle nad yw'r riant hwnnw'n gweithio wedi'u cynnwys gan eu bod yn llai tebyg o ddefnyddio gofal plant.

Yn ddaearyddol, mae yna gyfanswm o 766 o rieni sy'n gweithio o ardal Blaenafon, 5,202 o Bont-y-pŵl a 6,934 o Gwmbrân, gyda 16% o'r rhain yn rhieni sengl. Nodir y nifer uchaf o deuluoedd sy'n gweithio yn ardal Cwmbrân gyda chyfanswm o 5,752 o rieni yn un o bâr a'r ddau'n gweithio. Mae 17% (1182) pellach o'r rhain yn rhieni sengl ac ymhlith y lefel uchaf o rieni sengl sy'n gweithio yn Nhorfaen.

Nifer y teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifol ethnig

Daw 96.9% o gyfanswm y boblogaeth yn Nhorfaen o gefndiroedd ethnig Gwyn Cymru/Lloegr/yr Alban/Gogledd Iwerddon/Prydain sydd 4% yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru gyfan. Mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth yn datgelu nifer o gefndiroedd lleiafrif ethnig eraill, ac o'r rhain mae;

0.3% yn Wyn Gwyddelig

0.2% yn Wyn, Sipsiwn neu Wyddelig

0.6% yn Wyn - Arall

Mae 0.3% o grŵp ethnig cymysg/lluosog: Gwyn a Du Caribiaidd

Mae 0.1% o grŵp ethnig cymysg/lluosog: Gwyn a Du Affricanaidd

Mae 0.2% o grŵp ethnig cymysg/lluosog: Gwyn ac Asiaidd

Mae 0.1% o grŵp ethnig cymysg/lluosog: Cymysg Arall

Mae 0.2% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig: Indiaidd

Mae 0.1% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig: Pacistanaidd

Mae 0.1% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig: Bangladeshi

Mae 0.2% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig: Tsieineaidd

Mae 0.5% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig: Asiaidd Arall

Mae 0.1% yn Ddu/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig: Affricanaidd


Mae 0.1% yn Ddu/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig: Caribiaidd

Mae 0.1% o grŵp ethnig arall: Unrhyw grŵp ethnig arall:


Mae Ffigurau 8, 9 a 10 isod yn dangos cefndir ethnig poblogaeth Torfaen yn ddaearyddol rhwng Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân.

Cymharir y rhain gyda'r cyfartaledd yng Nghymru gyfan.


Ffigur 8. Tabl DC2101EW: Grŵp ethnig fesul rhyw ac oed, Cyfrifiad 2011



Ffigur 9. Tabl DC2101EW: Grŵp ethnig fesul rhyw ac oed, Cyfrifiad 2011



Ffigur 10. Tabl DC2101EW: Grŵp ethnig fesul rhyw ac oed, Cyfrifiad 2011



Plant dibynnol fesul grŵp ethnig Person Cyswllt y Cartref, yn ôl oedran

Mae data a ddarparwyd gan UCGC yn datgelu bod cyfanswm o 19,872 o blant fesul grŵp ethnig, ac o'r rhain bod 97% o gefndir ethnig gwyn.

Mae Ffigur 11, 12 a 13 isod yn dangos ystod oedran y plant fesul ethnigrwydd a dosbarthiad daearyddol.

Ffigur 11. Tabl DC2101EW: Grŵp ethnig fesul rhyw ac oed, Cyfrifiad 2011

Blaenafon	Holl drigolion arferol	Gwyn: Cyfanswm	Gwyn: Seisnig/Cymreig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig	Gwyn: Gwyddelig	Gwyn: Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig	Gwyn: Gwyn Arall	Ddim yn Wyn
0-4 oed	386	377	373	0	0	4	9
5-7 oed	245	242	238	0	0	4	3
8-9 oed	129	128	125	0	0	3	1
10-14 oed	353	347	345	0	0	2	6
15 Oed	85	81	81	0	0	0	4
16-17 oed	167	161	160	0	0	1	6
Cyfanswm 0-17 oed	1365	1336	1322	0	0	14	29

Ffigur 12. Tabl DC2101EW: Grŵp ethnig fesul rhyw ac oed, Cyfrifiad 2011

Pont y pŵl	Holl drigolion arferol	Gwyn: Cyfanswm	Gwyn: Seisnig/Cymreig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig	Gwyn: Gwyddelig	Gwyn: Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig	Gwyn: Gwyn Arall	Ddim yn Wyn
0-4 oed	2221	2180	2153	0	16	11	41
5-7 oed	1224	1213	1197	1	10	5	11
8-9 oed	769	762	750	0	6	6	7
10-14 oed	2144	2119	2094	0	19	6	25
15 Oed	469	453	446	1	4	2	16
16-17 oed	1036	1014	1010	0	2	2	22
Cyfanswm 0-17 oed	7863	7741	7650	2	57	32	122

Ffigur 13. Tabl DC2101EW: Grŵp ethnig fesul rhyw ac oed, Cyfrifiad 2011

Cwmbrân	Holl drigolion arferol	Gwyn: Cyfanswm	Gwyn: Seisnig/Cymreig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig	Gwyn: Gwyddelig	Gwyn: Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig	Gwyn: Gwyn Arall	Ddim yn Wyn
0-4 oed	2774	2671	2648	1	8	14	103
5-7 oed	1636	1588	1579	2	1	6	48
8-9 oed	1030	999	990	1	1	7	31
10-14 oed	3123	3013	2984	5	7	17	110
15 Oed	654	633	627	1	2	3	21
16-17 oed	1427	1368	1353	1	4	10	59
Cyfanswm 0-17 oed	10644	10272	10181	11	23	57	372

Nifer y siaradwyr Cymraeg a'r dysgwyr Cymraeg

Mae data a ddarparwyd gan UCGC a Swyddog y Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn datgelu bod cyfanswm o 222 o Ddysgwyr Cymraeg yn Nhorfaen yn y flwyddyn academaidd 2020/2021. Mae'r ffigur isod yn dangos nifer y dysgwyr sy'n dilyn dosbarthiadau o wahanol lefel neu ddulliau addysgu gwahanol. Sylwer bod dysgwyr sy'n cael eu cyflogi gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi eu cynnwys yn y ffigurau hyn gan eu bod yn mynychu dosbarthiadau cymunedol.

Ffigur 14 Siaradwyr Cymraeg a Dysgwyr Cymraeg CBST

Lefel / Dull Addysgu	16/17	21/22
Mynediad 1 (Mynediad Rhan 1)	36	40
Mynediad 2 (Mynediad Rhan 2)	8	16
Mynediad Wlpan (Mynediad Rhan 1 a 2)	34	5
Cymraeg o'r Crud	25	
Sylfaen 1 (Sylfaen Rhan 1)	16	16
Sylfaen 2 (Sylfaen Rhan 2)	35	8
Sylfaen Wlpan (Sylfaen Rhan 1 a 2)	21	9
Cwrs Carlam (Mynediad Rhan 1 a 2 a Sylfaen Rhan 1)	19	4
Canolradd 1 (Canolradd Rhan 1)	16	4
Canolradd 2 (Canolradd Rhan 2)	0	6
Canolradd 1/2 (Canolradd Rhan 1 a 2)	0	1
Canolradd - Carlam (Canolradd Rhan 1 a 2)	14	
Uwch - Pontio	0	
Uwch 1 (Uwch i Ran 1)	0	5
Uwch 2 (Uwch i Ran 2)	0	6
Uwch 3 (Uwch ii Rhan 1)	16	6
Uwch 4 (Uwch ii Rhan 2)	0	8
Uwch ½ (Uwch i Rhan 1 a 2)	0	1
Uwch 2/3 (Uwch iii Rhan 1)	0	2
Uwch ¾ (Uwch iii Rhan 2)	0	

Hyfedredd (Uwch)	0	6
Hyfforddiant Cymraeg	76	
Ysgol Ddydd Gymraeg	90	33
Penwythnos Cymraeg	83	41
Cwrs Byr Cymraeg	57	3
Tyst Col Cymraeg	21	
Cwrs Heb Achrediad	0	
Dysgu Anffurfiol	0	
Skype	27	2
Cyfanswm	594	222

Yn ychwanegol at hyn, mae yna gyfanswm of 8,641 o siaradwyr Cymraeg sy'n 3 oed neu'n hŷn yn byw yn Nhorfaen. Yn ddaearyddol, mae 581 (7%) yn byw ym Mlaenafon, 3,275 ym Mhont-y-pŵl (38%) a 4,785 yng Nghwmbrân. Mae'n ymddangos bod dros hanner y boblogaeth o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ardal Cwmbrân (55%).

Yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth adroddir bod 16.1% o'r rhai 3+ oed yn Nhorfaen yn gallu siarad Cymraeg. Eto, o'r rhai 3+ oed yn Nhorfaen mae 5.4% yn siarad Cymraeg bob dydd, 4.8% yn ei siarad yn wythnosol a 5.9% yn ei siarad 'yn llai aml'.

Datblygiadau Tai yn Nhorfaen

Mae Ffigur 15 yn dangos y safleoedd tai sydd â chaniatâd cynllunio/CDLI/CDLIN yn Nhorfaen a'u dyraniadau tai, dros y 5 mlynedd nesaf- bydd 392 o gartrefi'n cael eu cwblhau bob blwyddyn ar gyfartaledd. Gan nad yw'r safleoedd hyn wedi'u cwblhau ar hyn o bryd mae rhai yn croesi ffiniau AGEI ac ni allwn ddarparu dadansoddiad manylach oherwydd hyn.

Ffigur 15

Tabl 3.3: Amseriad a chyfnodau safleoedd tai gyda chaniatâd cynllunio / dyraniadau tai CDLI/CDLI yn Nhorfaen (2021-2026) o 1af Ebrill 2021					
Safle	21 22	22 23	23 24	24 25	25 26
Safleoedd Mawr a Ganiateir (yn seiliedig ar DPMv3 Tabl 20)					
De Sebastopol - Wrens Nest / Uplands / Maesgwyn (TW)	60	105	100	92	90
De Sebastopol - Craidd y Pentref (TW - fflatiau)	8	0	0	0	0
De Sebastopol - Craidd y Pentref (Barratts)	40	40	49	0	0
Ysgol Uwch. Llantarnam (Barratts)	19	0	0	0	0
Coleg yr Heddlu (Taylor Wimpey)	31	0	0	0	0
Canolfan Cymdogaeth Llantarnam (Bron Afon)	22	0	0	0	0
Malthouse Lane, Llantarnam (Cartrefi Enzo)	15	80	69	0	0
Neuadd y Sir (Pobl)	0	0	23	60	60
Caldicot Way, Cwmbrân (Bron Afon)	28	0	0	0	0
Foundry Cottages, Tref Gruffydd (Pobl)	1	30	0	0	0
Ruby's Bar & Grill, Bryn Eithin (Bron Afon)	19	0	0	0	0
Llantarnam Road, Llantarnam (Melin)	29	0	0	0	0
Manor Way, Abersychan	0	10	0	0	0
Lower Shepherds Hill Safle S a Th, Pont-y-pŵl (21)	0	10	0	0	0
Rifle Club Victoria St / Ventnor Rd, Cwmbrân (Bron Afon)	0	13	0	0	0
Penywain Lane, Pont-y-pŵl	0	0	33	0	0
Hen Ysbyty Pont-y-pŵl (34)	0	?	?	?	?
Safleoedd Mawr a Ganiateir CDLI (yn seiliedig ar DPMv3 Tabl 19)					
SAA2 - Canalside Cwmbrân (150)	0	0	0	0	0

SAA4 - Mamheilad (JEUK) (850) (cymeradwywyd yn amodol ar A106)	0	0	85	85	85
SAA4 - Mamheilad (PPE) (425)	0	0	0	?	?
SAA7 - Llanfrechfa Grange, Cwmbrân (300)	0	0	0	0	0
H1/1 - Pencadlys yr Heddlu (77)	0	?	?	?	?
H1/2 - Coleg yr Heddlu Cam 3 (Barratts) (100)	0	0	35	35	30
H1/4 - Fferm Tŷ'r-ywen, Fairwater (25)	0	?	?	?	?
H2/2 - Lloches Anifeiliaid a Thir Cyfagos, Waunfelin (70)	0	?	?	?	?
H2/3 - Coleg Pont-y-pŵl (100-140)	0	0	40	40	40
H2/4 - Iard Lo, Station Road, Panteg (15)	0	?	?	?	?
H3/1 - Garn-yr-Erw Terrace, Blaenafon (26)	0	0	0	0	0
H3/2 - Canolfan Iechyd Blaenafon (17)	0	?	?	?	?
H3/3 - Ysgol Sant Pedr, Blaenafon (18)	0	?	?	?	?
H3/2 - Giles Road, Blaenafon (20)	0	?	?	?	?
H3/6 - Yr Hen Co-op, High Street, Abersychan (24)	0	0	0	0	0
H7/1 - Safle S a Th Rose Cottage, Pont-y-pŵl (10)	0	10	0	0	0
Safleoedd Mawr a Ganiateir CDLIN (yn seiliedig ar DPMv3 Tabl 19)					
SAA Craig y Felin, Cwmbrân (300)	0	0	0	0	30
SAA Llanfrechfa, Cwmbrân (1200)	0	0	0	0	30
Cyfanswm y Safleoedd Mawr (A)	272	298	434	312	365
Lwfans Hap safleoedd Mawr o'r CDLIN (B)	0	0	50	50	50
Lwfans Hap safleoedd Bach o'r CDLIN (C)	26	26	26	26	26
	21 22	22 23	23 24	24 25	25 26
CYFANSWM A+B+C	298	324	510	388	441
Cyfartaledd cwblhau dros 5 mlynedd	392				

Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Gellir cyfeirio at fanylion Cynlluniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar <https://www.torfaen.gov.uk/en/EducationLearning/21st-Century-Learning/21st-Century-Learning.aspx>

Mae'n datgan bod;

“Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ymrwymiad Cymru’n Un ac yn gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynghorau. Mae’n rhaglen buddsoddi cyfalaf, fawr, hirdymor a strategol sydd â’r nod o greu cenhedlaeth o Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn creu ysgolion o’r math a’r maint iawn yn y lle iawn.

Bu buddsoddiad sylweddol eisoes yn Nhorfaen (gweler Prosiectau Diweddar). Mae Torfaen dal i fod yn wynebu problemau o ran lleoedd gwag mewn ysgolion ac adeiladau sy’n heneiddio. Yn 2011 gofynnodd Llywodraeth Cymru i gynghorau ledled Cymru ddatblygu cynigion i fynd i’r afael â’r problemau hyn. Ymateb Torfaen yw rhaglen fuddsoddi gwerth £280miliwn fydd yn:

- *lleihau nifer yr ysgolion cynradd*
- *defnyddio adnoddau i’r eithaf*
- *creu adeiladau hyblyg a manau y gellir eu haddasu i ddiwallu anghenion newidiol y cwricwlwm*
- *lleihau nifer y lleoedd gwag ar lefel cynradd ac uwchradd*
- *rhyddhau safleoedd er mwyn ail-fuddsoddi a’u haildefnyddio*
- *creu arbedion blynyddol ar gyfer ail-fuddsoddi a delio ag ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw*
- *lleihau nifer yr ysgolion llai*
- *diogelu dyfodol y ddarpariaeth Gymraeg sy’n ehangu”*

Mae nifer o brosiectau ar y gweill, yn rhan o Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, ac mae'r rhain yn cynnwys datblygiadau sydd ar y gorwel yn 2022-2027 yn;

- Ysgol Gynradd Maendy – 420 o leoedd + dosbarth meithrinfa +Canolfan Asesu ADY + Dechrau'n Deg + gofal plant. (AGEI Pontnewydd 3)
- Ysgol Crownbridge - estyniad â 50 o leoedd (AGEI De Croesyceiliog)
- Ysgol Bryn Onnen – ailwampio gyda'r capasiti/ddarpariaeth i aros yr un fath (AGEI Abersychan' 1)
- Ysgol Gymraeg Cwmbrân – ailwampio gyda'r capasiti/ddarpariaeth i aros yr un fath (AGEI Sain Derfel' 1)

Mae datblygiadau yn Ysgol Gyfun Gwynllyw i ymestyn yr ystod oedran o 11 - 19 i 3 - 19 (Darpariaeth gynradd newydd (210 o leoedd gydag opsiwn i ymestyn i 315+ dosb. Meithrin + gofal plant) ar y gweill ar gyfer Medi 2022 ac ariennir hyn yn rhan o darged Llywodraeth Cymru i gyflawni 1M o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Trefddyn 2).

Mae data o'r SASS yn datgelu y codir tâl o £40.00 yr wythnos ar gyfartaledd am ofal y tu allan i'r ysgol. Trwy gyfuno costau sesiynau gofal cyn ac ar ôl ysgol ar gyfartaledd ar gofnodion a gofnodir ar DEWIS byddai'r gost wythnosol ar gyfartaledd yn cyfateb i £43.75.

Bydd angen adolygu ac ymchwilio ymhellach i'r wybodaeth a gofnodir ar DEWIS hefyd i sicrhau bod y wybodaeth mor ddiweddar â phosibl.

Darpariaeth ADY/AAA - Y Tu Allan i'r Ysgol

Dengys Ffigur 172 nifer y plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd sy'n defnyddio lleoliadau Gofal y Tu Allan i'r Ysgol fel y darperir gan ddata'r SASS. Sylwer y gallai'r ffigur fod yn uwch nag y nodwyd. Mae'r data isod wedi'i ddsbarthu yn unol â'r tair prif ardal yn Nhorfaen i beidio â datgelu'r plant sy'n mynychu.

Ffigur 172 Nifer y plant ag ADY/AAA sy'n defnyddio lle gofal plant - y tu allan i'r ysgol - plant y nodwyd yn ffurfiol bod ganddynt anawsterau neu anableddau dysgu

Lleoliad Daearyddol		
	Cymraeg	Saesneg
Blaenafon	-	-
Cwmbrân	<5	-
Pont-y-pŵl	-	-
Cyfanswm	<5	-

Mae Ffigur 172 yn dangos bod yna lai na 5 o blant yn defnyddio lle gofal plant mewn lleoliad y tu allan i'r ysgol yn ardal Cwmbrân.

Ffigur 173 nifer y lleoliadau Gofal y Tu Allan i'r Ysgol sy'n medru darparu cymorth i blant ADY/AAA

Ffigur 173

Gofal Dydd Llawn ADY	Nifer y lleoliadau y Tu Allan i'r ysgol sydd â pherson dynodedig i wneud trefniadau ar gyfer plant ag ADY/AAA.	Nifer y lleoliadau y Tu Allan i'r ysgol sydd wedi cael hyfforddiant ychwanegol/arbenigol i gynorthwyo plant ag ADY/AAA	Nifer y lleoliadau y Tu Allan i'r ysgol sy'n ymwybodol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol	Nifer y lleoliadau y Tu Allan i'r ysgol sy'n gwneud atgyfeiriadau i a/neu yn cysylltu â'r ALI mewn perthynas â darpariaeth/cymorth i blant ag ADY/AAA?
Cyfansymiau	4	3	5	3

Mae Ffigur 173 yn dangos bod gan 80% o leoliadau Gofal y Tu Allan i'r Ysgol a ymatebodd i'r SASS yn Nhorfaen berson dynodedig i wneud trefniadau ar gyfer plant ag ADY/AAA.

Mae 60% o leoliadau y tu allan i'r ysgol hefyd wedi eu nodi yn rhai sy'n mynychu hyfforddiant ychwanegol/arbenigol i gynorthwyo plant ag ADY/AAA

Mae 100% o'r lleoliadau y tu allan i'r ysgol a ymatebodd i ddata'r SASS yn ymwybodol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae 60% wedi'u nodi fel rhai sy'n atgyfeirio i'r ALI a/neu'n cysylltu ag ef mewn perthynas â chymorth i blant ag ADY/AAA.

Mae Ffigur 174 yn dangos nifer y lleoliadau y tu allan i'r ysgol yn ddaearyddol sydd â pherson dynodedig i wneud trefniadau ar gyfer plant ag ADY/AAA.

Ffigur 174 lleoliad daearyddol y lleoliadau Tu Allan i'r Ysgol sydd â pherson dynodedig

Enw'r AGEI	Cyfanswm Nifer y lleoedd	Cyfanswm Nifer y lleoedd Saesneg	Cyfanswm Nifer y lleoedd Cymraeg
Coed Eva	32	32	
Llantarnam 2	24	24	
Gogledd Llanyrafon	64	64	
Sain Derfel 1	43		43
Cyfansymiau	163	120	43

Sylwer, er bod 80% o'r lleoliadau wedi'u nodi fel rhai sydd â pherson dynodedig sy'n gwneud trefniadau ar gyfer darpariaeth ADY/AAA i blant, nid yw cyfanswm y lleoedd sydd ar gael i blant ag ADY/AAA wedi'i restru yn y SASS. Felly ni ellir ond cyfeirio at gyfanswm nifer y lleoedd cofrestredig sydd ar gael.

Ffigur 175 Mathau o ADY/AAA y darperir ar eu cyfer/a gefnogir gan y gwasanaeth – Y Tu Allan i'r Ysgol

	Saesneg				Cymraeg			
	Gwybyddol a Dysgu	Ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol	Cyfathrebu a Rhyngweithio	Synhwyraidd a/neu gorfforol	Gwybyddol a Dysgu	Ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol	Cyfathrebu a Rhyngweithio	Synhwyraidd a/neu gorfforol
Llantarnam 2		1	1	1				
Sain Derfel 1								1

Oriau Agor - Adeg y Tymor - y tu allan i'r ysgol

Mae Ffigur 176 yn dangos amserau agor y lleoliadau Gofal y Tu Allan i'r Ysgol a ymatebodd i'r data SASS.

Ffigur 176


Torfaen Yn Ystod y Tymor	Nifer y lleoliadau Gofal Dydd Llawn ar agor	Amserau agor cynharaf	Amserau agor hwyraf	Amserau cau cynharaf	Amserau cau hwyraf	Nifer y lleoliadau ar agor cyn 8am	Nifer y lleoliadau ar agor ar ôl 6pm
Dydd Llun	5	7:30	15:30	17:00	18:00	1	0
Dydd Mawrth	5	7:30	15:30	17:30	18:00	1	0
Dydd Mercher	5	7:30	15:30	17:30	18:00	1	0
Dydd Iau	5	7:30	15:30	17:30	18:00	1	0
Dydd Gwener	5	7:30	15:30	17:30	18:00	1	0
Dydd Sadwrn	0	-	-	-	-	-	-
Dydd Sul	0	-	-	-	-	-	-

Mae data o'r SASS yn dangos mai un Lleoliad y Tu Allan i'r Ysgol yn unig sy'n agor o 7:30 dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor gyda'r lleill yn agor rhwng 15:00-15:30.


Yr amser cychwyn cynharaf yw 07:30am, a'r amser cau hwyraf yw 18:00pm. Nid oes unrhyw leoliadau gofal dydd y tu allan i'r ysgol ar agor ar ôl 6pm yn Nhorfaen. Nid oes unrhyw leoliadau cofrestredig y tu allan i'r ysgol a ymatebodd i'r SASS yn gweithio ar benwythnosau neu dros nos.

Mae Ffigurau 177 a 178 yn dangos yr amseroedd agor a chau ar gyfartaledd ar gyfer lleoliadau Gofal y Tu Allan i'r Ysgol

Ffigur 177




Ffigur 178



Mae Ffigur 179 yn dangos yr oriau ar gyfartaledd y mae pob lleoliad ar agor fesul Tref. Defnyddiwyd ardal drefol gan nad oes digon o ddata i ddefnyddio ardaloedd AGEI llai.

Ffigur 179

Amser ar gyfartaledd y mae pob lleoliad ar agor ar ddiwrnod o'r wythnos fesul Tref



Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn fenter gan Lywodraeth Cymru a bydd yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant i rieni cymwys sy'n gweithio, y mae ganddynt blant 3 i 4 oed.

Mae Ffigur 180 yn dangos bod 2 lleoliad y tu allan i'r ysgol sy'n darparu cyllid drwy'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ar gyfer plant 3-4 oed, ond ar hyn o bryd nid yw'r un ohonynt yn cael eu hariannu drwy'r Cynnig.

Ffigur 180

Y Cynnig Gofal Plant i Gymru	Nifer y lleoliadau y tu allan i'r ysgol
Darparu'r Cynnig Gofal Plant	2
Derbyn cyllid gan y Cynnig Gofal Plant	0

Dechrau'n Deg

Ffigur 181

Dechrau'n Deg	Nifer y lleoliadau y tu allan i'r ysgol
Derbyniwyd cyllid i ddarparu Lleoedd Dechrau'n Deg	0
Darparu lleoedd Dechrau'n Deg yn unig	0

Mae Ffigur 181 yn dangos nad oes unrhyw Leoliadau y Tu Allan i'r Ysgol wedi cofrestru i ddarparu lle Dechrau'n Deg. Mae Data Lleol a gedwir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn dangos nad oes unrhyw leoliadau y tu allan i'r ysgol yn cael eu hariannu i ddarparu cyllid y Cynnig Gofal Plant.

Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau Gofal Plant

Gallai Gofal plant di-dreth helpu teuluoedd cymwys sy'n gweithio, i arbed hyd at £500 bob tri mis (hyd at £2,000 y flwyddyn) ar gyfer pob un o'u plant. Mae hyn yn cynyddu hyd at £1,000 bob 3 mis os yw plentyn yn anabl (hyd at £4,000 y flwyddyn).

Gall teuluoedd cymwys hawlio Gofal Plant Di-dreth ar yr un pryd â'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y ddau. Fe wnaeth gofal plant di-dreth ddisodli Talebau Gofal Plant ar gyfer hawl wyr newydd yn ystod mis Hydref 2018.

Talebau Gofal Plant – pob teulu cymwys i gymryd hyd at £55 yr wythnos o'u cyflog, lle nad ydynt yn talu treth nac Yswiriant Gwladol arnynt. Os ydynt yn rhan o gwpl, gall y ddau riant wneud yr aberth cyflog hwn i dalu am ofal plant cofrestredig.

Mae Ffigur 182 yn dangos nifer y lleoliadau Gofal Dydd Llawn lle mae rhieni'n defnyddio Gofal Plant di-dreth neu Dalebau Gofal Plant. Sylwch nad yw nifer y plant sy'n defnyddio'r lleoedd hyn ar gael ac nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng Talebau Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau Gofal Plant yn unigol.

Ffigur 182 Lleoliadau y tu allan i'r ysgol lle mae'r rhieni'n defnyddio Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau Gofal Plant

Gyda rhieni'n defnyddio Gofal Plant Di dreth neu Dalebau Gofal Plant	
Oes	4
Nac Oes	1

7.5 Cyflenwi Gofal Plant - Gofal y Tu Allan i'r Ysgol - Heb gofrestru

Nid yw gofal plant heb ei gofrestru (gofal plant sy'n gweithredu llai nag 1 awr 59 munud) wedi'i gofrestru gydag AGC ac felly nid yw'n ofynnol yn gyfreithiol i rai lleoliadau gwblhau data SASS.

Cysylltodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen â darpariaethau gofal plant eithriedig (anghofrestredig) i ategu data o'r SASS ac i nodi gofal plant heb ei gofrestru. Sylwch nad atebodd pob lleoliad sydd heb ei gofrestru, felly mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd yn rhannol ac felly nid yw llawer ohonynt yn cynhyrchu trosolwg cywir o leoliadau anghofrestredig yn Nhorfaen.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen sydd wedi gwneud y dadansoddiad canlynol ac wedi adrodd amdano.

Amrediad y gwasanaethau a ddarperir

Mae data a gedwir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn Nhorfaen yn nodi 7 darpariaeth y tu allan i oriau ysgol nad ydynt wedi eu cofrestru (128 o leoedd heb gofrestru) sydd wedi'u cynnwys yn y cyflenwad gwybodaeth a gofnodir ar DEWIS yn adran 8.

Dengys Ffigur 183 nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer Clybiau Ar Ôl Ysgol heb eu cofrestru ar ddata rhannol a ddychwelwyd gan 4 allan o 7 clwb sydd heb eu cofrestru. Sylwch fod darpariaeth 1 yn Fairwater 3 yn parhau i fod ar gau oherwydd Covid-19.

Ffigur 183

Ardal AGEI	Clwb Ar Ôl Ysgol Anghofrestredig
Abersychan 1	16
Brynwern	16
Gogledd Croesyceiliog 1	20
Fairwater (Torfaen) 3	24
De Llanyrafon 2	16
Panteg 2	36 (dros dau leoliad)
Cyfansymiau	128

Mae Ffigur 184 yn dangos bod cyfanswm o 76 o leoedd gofal plant anghofrestredig mewn darpariaeth ar ôl ysgol yn Nhorfaen trwy gyfrwng y Saesneg a rhai elfennau dwyieithog. O'r rhain;

- Mae 36 o blant yn mynychu bob dydd ar gyfartaledd ar draws y 3 darpariaeth
- Mae 56 o blant yn mynychu bob wythnos ar gyfartaledd ar draws y 3 darpariaeth
- Nid oes plant yn aros am le ar unwaith
- Mae 71 o blant ar y gofrestr ar draws y 3 darpariaeth

Ffigur 184

AGEI	Ystod oedran y plant	Iaith (Cymraeg, Saesneg, Dwyieithog, Saesneg a rhai elfennau dwyieithog)	Uchafswm nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael ym mhob lleoliad	Nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliad bob dydd ar gyfartaledd	Nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliad yn wythnosol ar gyfartaledd	Nifer y plant ar rhestr aros	Cyfanswm y plant sydd wedi cofrestru yn y lleoliad	Amserau Agor a dyddiau'r wythnos
Brynwern	4-11	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	16	8	10		19	15:05-17:00
Croesyceiliog Gogledd1	4-11	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	24	20	32	0	32	15:20-17:15
Fairwater 3	4-11	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	24	Ar gau ar hyn o bryd ar gais y Pennaeth Parthed: Covid				
De Llanyrafon 2	4-11	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	16	8	14		20	15:35-17:30

Cyfansymiau		76	36	56	0	71	
-------------	--	----	----	----	---	----	--

Sylwch fod anghysondeb yng nghyfanswm nifer y lleoedd sydd ar gael yn ardal Gogledd Croesyceiliog 1 (+4 lle anghofrestredig) o gymharu â'r rhai a adroddwyd yn nata DEWIS. Bydd angen ymchwiliad pellach gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gadarnhau cyfanswm nifer y lleoedd anghofrestredig ar gyfer adnewyddiad blynyddol yr ADGP.

Nifer y plant sy'n mynychu

Mae Ffigur 185 yn dangos nifer y plant sy'n mynychu lleoliadau anghofrestredig ar ôl ysgol yn llawn amser, rhan amser ac Ad hoc

Ffigur 185

AGEI	Llawn amser	Rhan amser	Ad hoc
Brynwern	5	12	-
Gogledd Croesyceiliog 1	4	15	-
De Llanyrafon 2	6	10	-
Cyfansymiau	15	37	-

Mae'r mwyafrif mewn lleoliadau ar ôl ysgol heb eu cofrestru yn mynychu'n rhan amser.

Costau

Mae Ffigur 186 yn dangos mai'r gost ar gyfartaledd yr awr ar gyfer Clwb Ar Ôl Ysgol heb ei gofrestru yw £8.00. Cost sesiwn ar gyfartaledd yw £11.00

Ffigur 186

Clwb Ar Ôl Ysgol	Uchaf	Isaf	Cyfartaledd
Yr Awr	£8.00	£8.00	£8.00
Diwrnod	-	-	-
Hanner Diwrnod / Sesiwn	£12.00	£10.00	£11.00
Wythnosol	-	-	-

Amserau agor

Mae Ffigur 187 yn dangos yr amserau agor ar gyfartaledd.

Ffigur 187

Torfaen Yn Ystod y Tymor	Nifer y lleoliadau Gofal Dydd Llawn ar agor	Amserau agor cynharaf	Amserau agor hwyraf	Amserau cau cynharaf	Amserau cau hwyraf	Nifer y lleoliadau ar agor cyn 8am	Nifer y lleoliadau ar agor ar ôl 6pm
Dydd Llun	3	15:05	15:35	17:00	17:30	0	0
Dydd Mawrth	3	15:05	15:35	17:00	17:30	0	0
Dydd Mercher	3	15:05	15:35	17:00	17:30	0	0
Dydd Iau	3	15:05	15:35	17:00	17:30	0	0
Dydd Gwener	3	15:05	15:35	17:00	17:30	0	0
Dydd Sadwrn	0	-	-	-	-	-	-
Dydd Sul	0	-	-	-	-	-	-

Mae data a gyflwynwyd yn dangos bod darpariaeth ar ôl ysgol heb ei chofrestru ar agor am 55 munud y dydd ar gyfartaledd.

7.6 Cyflenwi Gofal Plant - Darpariaeth Chwarae Anghofrestredig

Ceisiodd Llywodraeth Cymru flaenoriaethu anghenion a hawliau plant a phobl ifanc drwy gydol ei hymateb i'r pandemig, a rhoddwyd cyllid i Awdurdodau Lleol i gefnogi plant drwy ddarparu lle ac amser ar gyfer chwarae yn ystod haf 2021. Fe wnaeth y cyllid alluogi Awdurdodau Lleol i:

- Cefnogi hwyl a chyfleoedd i blant fynegi eu hunain trwy chwarae;
- Mentrau cymunedol rhyngweithiol, creadigol ac yn seiliedig ar chwarae i bob oed;
- Darparu cyfleoedd i chwarae gyda ffrindiau a chyfoedion;
- Creu lle a chyfle i chwarae'n rhydd.

Cyflwynwyd nifer o gyfleoedd chwarae ledled y fwrdeistref fel rhan o'r "Haf o Hwyl", gan gynnwys nifer o wersylloedd wedi'u lleoli o fewn safleoedd ysgolion ac maent wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad isod. Darparwyd y data gan Chwarae Torfaen a dadansoddwyd y data gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Darparodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 300 o Wersylloedd Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif mewn 15 o safleoedd ysgol yn ystod haf 2021, ar gyfer plant 5-11 oed. Fe wnaeth 14 o safleoedd ddarparu trwy gyfrwng y Saesneg a rhai elfennau dwyieithog. 1 ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig a gyflwynwyd. Cafodd y rhain eu cydlynu a'u rhedeg gan Wasanaeth Chwarae Torfaen ac mewn partneriaeth weithiol gyda Chyngor Cymuned Cwmbrân. Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at nifer y plant a fynychodd y sesiynau hyn fesul categori iaith ac yn ôl ardal ddaearyddol yn ystod y cyfnod rhwng 26/7/21 – 19/8/21. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cynnwys nifer y gweithgareddau "Haf o Hwyl" a ddarparwyd.

Bydd y dadansoddiad hefyd yn cyfeirio at 36 o ddarpariaethau chwarae a ddarparwyd ar draws 9 safle ysgol yn ystod hanner tymor mis Hydref 2021 ac 14 o Glybiau Chwarae ar gyfer plant a gofalwyr ifanc (gan gynnwys gofal seibiant ar benwythnosau) yn ystod y tymor.

Mae Ffigur 188 yn dangos nifer y Gwersylloedd "Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif" a gynhaliwyd yn ystod yr haf ar gyfer plant 5-11 oed.

Ffigur 188. Nifer y Gwersylloedd Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif yn ôl dewis iaith ac AGEI. Data gan CBST

Gwersylloedd Dysgu. Chwerthin a Bod yn Actif	Ystod oedran	Iaith (Cymraeg, Saesneg, Dwyieithog, Saesneg a rhai elfennau dwyieithog)	Nifer y mynychwyr a gofrestrwyd	Presenoldeb dyddiol ar gyfartaledd	Cyfanswm	Niferoedd ar Rhestr Aros
Abersychan 2	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	120 60 carfan 1 60 carfan 2	42	120	0
Blaenafon 2	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	131 71 carfan 2 60 carfan 2	52	131	0
Brynwern	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	77 – 4 wythnos	62	77	0
Coed Eva	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	163 85 carfan 1 78 carfan 2	50	163	20
Coed Eva	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	141 71 carfan 1 70 carfan 2	51	141	95
Gogledd Croesyceiliog 2	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	179 89 - carfan 1 90 - carfan 2	65	179	30
Fairwater 2	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	87 – 4 wythnos	75	87	0
Fairwater 3	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	155 75 carfan 1 80 carfan 2	49	155	0
Fairwater 3	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	47 – 4 wythnos	30	47	0

Llantarnam 2	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	162 81 - carfan 1 81 - carfan 2	54	162	0
Y Dafarn Newydd 2	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	175 94 carfan 1 81 carfan 2	64	175	90
Panteg 4	5-11 oed	Cymraeg	131 67 carfan 1 64 carfan 2	42	131	15
Pontnewydd 2	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	25 – 4 wythnos	15	25-	0
Sant Cadog a Phen-y-garn	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	126 64 carfan 2 62 carfan 2	47	126	0
Cwmbrân Uchaf 3	5-11 oed	Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog	83 42 carfan 1 41 carfan 2	38	83	0

Roedd cyfanswm o 1,802 o leoedd gofal plant ar gael yn ystod Haf 2021 o fewn darpariaethau mynediad agored (gostyngiad sylweddol ers ADGP 2017). Roedd mwyafrif y lleoedd oedd ar gael wedi'u lleoli yn ne'r fwrdeistref (cyfanswm o 1,042) gyda'r nifer uchaf o leoedd ar gael wedi'u nodi yn ardal Coed Eva a Llantarnam 3. Mae Pontnewydd 2 yn dynodi'r nifer lleiaf o leoedd sydd ar gael ym mhob ardal.

Roedd 629 o leoedd ar gael wedi'u lleoli yng nghanol y fwrdeistref, a nodwyd y lefelau uchaf yn ardaloedd Y Dafarn Newydd2 a Phanteg 4. Roedd lleoedd is ar gael yn ardal Brynwern.

Roedd cyfanswm o 131 o leoedd ar gael wedi'u lleoli yn ardal AGEI Blaenafon 2.

1 ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig a gyflwynwyd yn ardal Panteg 4 (cyfanswm o 131 o leoedd ar gael).

Roedd 13 o'r darpariaethau yn gweithredu rhwng 10am – 3pm. Fodd bynnag, roedd nifer o leoedd cyfyngedig ar gael yn Fairwater 3 (10am – 1pm) a Phontnewydd 2 (2pm-4pm), a allai ddangos lefelau presenoldeb is oherwydd bod llai o sesiynau ar gael. Oherwydd y galw am leoedd a gofrestrwyd ar gyfer darpariaeth, nid oedd pob plentyn yn gallu mynychu bob dydd ar draws y 4 wythnos, a dyrannwyd sesiynau ar rota.

Gallai nifer y plant a nodir trwy restrau aros, awgrymu'r galw posibl am wasanaethau yn y dyfodol. Rhoddwyd cyfanswm o 250 o blant ar restrau aros i gael mynediad at y darpariaethau yn ystod cyfnod yr haf.

- Mae'r galw mwyaf yn cael ei nodi yn ardal Coed Eva a'r Dafarn Newydd (Coed Eva = 155 o leoedd dros ddwy ddarpariaeth, 90 o leoedd yn Y Dafarn Newydd)
- Angen 30 lle yn ardal Gogledd Croesyceiliog 2
- Mae angen 15 o leoedd trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Panteg 4.

Ar gyfartaledd roedd 736 o blant yn mynychu'n ddyddiol ar draws yr holl ddarpariaethau, gyda'r nifer uchaf o blant yn mynychu safleoedd yng Nghoed Eva, Fairwater 3, Y Dafarn Newydd 2 a Gogledd Croesyceiliog 2. Fodd bynnag, roedd gan rai o'r ardaloedd hyn blant yn mynychu llai nag uchafswm y ddarpariaeth er bod ganddynt restr aros. Felly, gallai plant a nodir trwy restrau aros ar gyfer galw posibl, a'r niferoedd presenoldeb ar gyfartaledd fod angen darpariaeth yn y dyfodol yn ardaloedd Coed Eva (wedi'i rhannu dros ddau safle) Y Dafarn Newydd 2 a Gogledd Croesyceiliog 2, ond byddai angen ail-werthuso hyn yn ôl nifer y plant ar gyfartaledd sy'n mynychu a galw yn y dyfodol gan rieni.

Yn ychwanegol at hyn, roedd 26 lle arall ar gyfer cymorth egwyl fer/seibiant arbenigol ar gael i blant ag anghenion cymhleth neu anabledd, 5-17 oed yn unig dros dair ardal ledled y fwrdeistref. Mae'r holl ddarpariaethau hyn trwy atgyfeiriad yn unig. Cyflwynwyd cyfanswm o 114 o sesiynau rhwng 26/07/21-19/8/21 gyda chyfanswm o 63 o blant wedi cofrestru i fynychu. Cyfyngwyd ar hyd y sesiwn i 2.5 awr.

Mae Ffigur 189 yn dangos nifer y lleoedd a oedd ar gael a'r ffigurau presenoldeb yn sesiynau seibiant yr haf.

Ffigur 189 Nifer y lleoedd fesul ardal ddaearyddol. Data gan CBST

Ardal AGEI	Lefel yr anghenion	Nifer y lleoedd y sesiwn	Nifer y sesiynau a gyflwynwyd	Cyfanswm y plant a gofrestrwyd	Presenoldeb dyddiol ar gyfartaledd
Trefddyn 2	Cymhleth	10	38	21	8
Pontnewydd 4	ADY/Cefnogaeth Uchel	8	38	13	11
Dôl Werdd 1	ADY/Cefnogaeth Cymedrol	8	38	29	20

Mae Ffigur 189 yn dangos bod

- Mwyafrif y plant wedi mynychu sesiynau yn ardal Cwmbrân (Dôl Werdd 1 a Phontnewydd 4)

- Yn gyson ag ADGP 2017 nid oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer plant ag anableddau cymhleth a dwys yn ardal Blaenafon, fodd bynnag byddai angen i ddadansoddiad trwy ymgynghoriadau eraill bennu'r galw am y gwasanaethau hyn.

Yn ystod Hanner Tymor Hydref yn 2021, darparwyd 36 o wersylloedd chwarae pellach dros 7 safle ysgol a 2 neuadd gymunedol yn ystod 10am – 3pm ar gyfer plant 5-11 oed.

Ffigur 190 Gwersylloedd hanner tymor Hydref, nifer y lleoedd ar gael yn ôl iaith ac ardal ddaearyddol. Data gan CBST

AGEI Ardal	Iaith (Cymraeg, Saesneg, Dwyieithog)	Uchafswm nifer y lleoedd ar gael ym mhob lleoliad	Nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliad bob dydd ar gyfartaledd	Nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliad yn wythnosol ar gyfartaledd	Nifer y plant ar rhestr aros	Cyfanswm y plant sydd wedi cofrestru yn y lleoliad
Sant Cadog a Phen-y-garn	Saesneg	55	34	34	0	41
Fairwater 2	Saesneg	55	35	35	12	31
Llantarnam 2	Saesneg	55	49	49	23	55
Coed Eva	Saesneg	55	40	40	15	47
Brynwern	Saesneg	55	31	31	10	40
Abersychan 2	Saesneg	55	28	28	0	36
Blaenafon 1	Saesneg	45	20	20	0	25
Pntnewydd 4 (neuadd gymunedol)	Saesneg	12	12	12	15	16
Dôl Werdd 3 (neuadd gymunedol)	Saesneg	14	15	15	10	20

Roedd cyfanswm o 401 o leoedd gofal plant ar gael yn ystod Hanner Tymor Mis Hydref 2021. Roedd pob safle yn cynnal 4 sesiwn yr wythnos.

- Yn bennaf roedd y rhan fwyaf o'r lleoedd hyn ar gael yn ardal Cwmbrân (Fairwater 2, Llantarnam 2, Coed, Pontnewydd 4 a Dôl Werdd 3).

- Nid oedd lleoedd Cymraeg ar gael
- Nid oes plant ar restrau aros yn ardaloedd Blaenafon, Sain Cadog a Phen-y-garn ac Abersychan
- Roedd y nifer uchaf o blant ar restrau aros yn ardaloedd Llantarnam 2 a Choed Eva

Clybiau Chwarae Mynediad Agored - Yn Ystod y Tymor

Yn ystod y tymor mae Gwasanaeth Chwarae Torfaen yn cyflwyno 2 glwb cyn ysgol, 5 clwb chwarae ar ôl ysgol, 5 sesiwn chwarae seibiant ar y penwythnos (3 sesiwn bore a 2 prynhawn) a 2 glwb chwarae penwythnos (1 sesiwn bore a sesiwn prynhawn).

Mae'r dadansoddiad canlynol yn grynodedb o wybodaeth a gyflwynwyd i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen. Sylwch fod pob clwb chwarae am ddim i'r plant sy'n mynychu.

Figure 191 Gwersylloedd Chwarae - yn ystod y tymor, nifer y lleoedd sydd ar gael yn ôl iaith ac ardal ddaearyddol.

Ardal AGEI	Ystod oedran y plant	Cyn ysgol	Ar ôl ysgol	Gofal seibiant ar Benwythnosau	Clwb Chwarae ar Benwythnos	Iaith (Cymraeg, Saesneg, Dwyieithog, Saesneg a rhai elfennau dwyieithog)	Uchafswm nifer y lleoedd ar gael ym mhob lleoliad	Nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliad bob dydd ar gyfartaledd	Nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliad yn wythnosol ar gyfartaledd	Nifer y plant ar restr aros	Cyfanswm y plant sydd wedi cofrestru yn y lleoliad
Dwy Loc 2	5-11 oed		4pm – 5:30pm			Saesneg	50	25	yn ddyddiol	amh	32
Fairwater (Torfaen) 2	5-11 oed		4pm – 5:30pm			Saesneg	50	24	yn ddyddiol	amh	39
Dwy Loc 1	5-11 oed		3:45pm - 5pm			Saesneg	50	29	yn ddyddiol	amh	41
Llantarnam 1	5-11 oed		4pm – 5:30pm			Saesneg	60	50	yn ddyddiol	amh	68
Coed Eva	5-11 oed	8:30am - 9am				Saesneg	140	125	yn ddyddiol	amh	amh
Fairwater (Torfaen) 3	5-11 oed	8am - 9am				Saesneg	60	42	yn ddyddiol	amh	amh

Pontnewydd 4	5-11 oed		5pm – 6:30pm			Saesneg	25	17	17	0	25
Pontnewydd 4	5-15 oed			Seibiant 9:30 - 11:30		Saesneg/elfennau dwyieithog	10	10	10	0	18
Pontnewydd 4	5-11 oed			Seibiant 12:00 - 2:00		Saesneg/elfennau dwyieithog	15	12	12	0	15
Sain Derfel 3	5-8 oed			Seibiant 9:30 - 11:15		Saesneg/elfennau dwyieithog	12	12	12	0	20
Dôl Werdd 3	5-15 oed			Seibiant 9:30 - 11:30		Saesneg	12	12	12	0	15
Dôl Werdd 3	5-11 oed			Seibiant 12:00 - 2:00		Saesneg	15	12	12	0	18
Dôl Werdd 3	5-11 oed				10:00-11:30	Saesneg	10	10	10	0	17
Dôl Werdd 3	5-11 oed				Clwb chwarae ar benwythnos 12:00 o 1:30	Saesneg	10	5	5	0	13

Mae Ffigur 191 yn dangos bod

- Cyfanswm o 200 o leoedd ar gael cyn ysgol i blant 5 - 11 oed yn ardal Fairwater 3 (60 o leoedd rhwng 8am – 9pm) ac ardal Coed Eva (140 o leoedd rhwng 8:30am – 9am)
- Mae cyfanswm o 235 o leoedd ar gael mewn darpariaethau ar ôl ysgol. Fodd bynnag, mae amseroedd a hyd sesiynau yn amrywio ar draws y fwrdeistref. Mae cyfanswm o 160 o leoedd ar gael ar ôl ysgol i blant 5 – 11 oed rhwng 4pm a 5:30pm yn ardaloedd Dwy Loc 2 (50 lle), Fairwater 2 (50 lle) a Llantarnam 1 (60 lle). Mae cyfanswm o 50 o leoedd pellach ar gael ar ôl ysgol i blant 5 – 11 oed rhwng 3:45pm-5pm yn ardaloedd Dwy Loc 1 a 25 o leoedd ar gael rhwng 5pm - 6:30pm yn ardal Pontnewydd 4.
- Mae cyfanswm o 24 o sesiynau seibiant boreol ar gael i blant ag anghenion cymhleth a/ne anabledd, 5-15 oed am 2 awr yn ardal Pontnewydd 4 a Dôl Werdd 3. Mae nifer y plant sydd wedi'u cofrestru yn y darpariaethau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, ond efallai na fydd unrhyw restr aros yn awgrymu bod digon o alw
- Mae 30 yn fwy o leoedd ar gael drwy sesiwn seibiant prynhawn i blant ag anghenion cymhleth a/neu anabledd, 5-11 oed am 2 awr yn ardal Pontnewydd 4 (15 lle) a Dôl Werdd 3 (15 lle).

- Mae 12 yn fwy o leoedd ar gael drwy sesiwn seibiant boreol i blant ag anghenion cymhleth a/neu anabledd, 5-8 oed am 1 awr 45 munud yn ardal Sain Derfel 3. Mae nifer y plant sydd wedi'u cofrestru yn y ddarpariaeth yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael. Felly, mae hyn o bosibl yn arwydd o alw am y gwasanaeth hwn.
- Mae 20 lle ar gyfer darpariaeth chwarae penwythnos sef sesiynau bore a phrynhawn (1 awr 30 munud) ar gael yn ardal Dôl Werdd 3

Cryfderau

- Er gwaethaf y pandemig parhaus, roedd darpariaeth chwarae ar gael i blant yn ystod 2021
- Mae data rhestrau aros yn awgrymu bod digon o leoedd mewn gwersylloedd chwarae ar gael yn ne'r fwrdeistref
- Mae dros 50% o leoedd sydd ar gael drwy sesiynau seibiant yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.
- Mae lefelau presenoldeb yn awgrymu bod digon o leoedd ar gael ar gyfer seibiannau ar benwythnosau.

Gwendidau

- Nid oes clybiau chwarae yn ystod y tymor yng nghanol a gogledd y fwrdeistref
- Nid oes sesiynau seibiant ar benwythnosau yng nghanol neu ogledd y fwrdeistref, Fodd bynnag, byddai angen nodi'r galw am wasanaethau trwy ddadansoddi ymgynghoriadau eraill gan fod rhestr aros yn awgrymu darpariaeth ddigonol
- Gostyngiad yn nifer y ddarpariaeth chwarae cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Fodd bynnag, byddai angen nodi'r galw am wasanaethau trwy ddadansoddi ymgynghoriadau eraill.
- Nifer cyfyngedig o leoedd gweryll haf a hanner tymor ar gael yng nghanol a gogledd y fwrdeistref
- Ni ddarperir clybiau chwarae yn ystod y tymor trwy gyfrwng y Saesneg gydag elfennau dwyieithog.

7.7 Cyflenwi Gofal Plant - Nani

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ceisio adrodd ar y dadansoddiad o ofal plant yn Nhorfaen ar sail data a gafwyd gan yr AGC yn ystod Awst 2021. Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant cofrestredig gwblhau Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS) ar ran AGC. Mae Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi cadw at ofynion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag roedd y gyfradd ymateb o blith darparwyr gofal plant yn llai na 90% ac felly ni ellir dweud bod y dadansoddiad canlynol yn wir adlewyrchiad o ofal plant yn Nhorfaen. Ceir cyfeiriadau (lle bo hynny'n berthnasol) i ddangos unrhyw annormaledd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn derbyn diweddariadau wythnosol ar leoliadau cofrestredig gan AGC a rhestr o Nanis o'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Datgelodd gwybodaeth a dynnwyd o ddata AGC yn ystod mis Rhagfyr 2021 fod 2 gofalwr plant cymeradwy yn y cartref (nani) wedi'u lleoli yn ardaloedd Coed Eva a Dôl Werdd. (Cynnydd o 2 o 2017)

Cysylltwyd â nanis trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ystod mis Medi 2021 ac nid oes unrhyw leoedd gwag ar hyn o bryd. Bydd angen ymchwilio ymhellach i weld os oes galw am Nanis yn ardal Torfaen.

8. Cyflenwi Gofal Plant – Data'r Gwasanaeth Gywbodaeth i Deuluoedd (DEWIS)

Sylwch fod y crynodeb canlynol o ddarpariaeth gofal plant yn Nhorfaen wedi'i ddarparu gan ddata a gofnodir ar DEWIS Cymru ar gyfer Gwasanaeth Gywbodaeth i Deuluoedd. Cyflwynir data ar gyfer Torfaen yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol (ACEHI), math o ofal plant a dewis iaith.

Mae nifer o leoliadau gofal plant yn darparu mwy na un math o wasanaeth gofal plant. Er enghraifft, gall meithrinfa ddydd breifat hefyd gynnig gofal plant y tu allan i'r ysgol drwy gyfuniad o glwb gwyliau, Clwb Cyn Ysgol a chlwb ar ôl ysgol. Sylwer, nad oes cyfleusterau creche yn Nhorfaen.

Mae 87 o leoliadau darparwr gofal plant yn Nhorfaen yn cynnig 130 o ddarpariaethau gofal plant gwahanol sy'n cynnwys y canlynol:

- 35 o warchodwyr plant (gan gynnwys 2 nad ydynt yn gwarchod plant ar hyn o bryd ac 1 ar waharddiad gwirfoddol)
- 17 meithrinfa ddydd
- 24 o gylchoedd chwarae a 4 Cylch Meithrin, gyda 23 ohonynt hefyd yn darparu gofal cofleidiol (mae 5 yn cael eu darparu gan feithrinfeydd dydd, gallai meithrinfa ddydd arall ddarparu gofal cofleidiol ond nid ydyw ar hyn o bryd oherwydd Covid);
- 26 o glybiau ar ôl ysgol sy'n cynnwys 7 heb eu cofrestru (a ddarperir hefyd gan 8 meithrinfa ddydd a 4 Grŵp Chwarae)
- 12 Clwb Cyn Ysgol (a ddarperir hefyd gan 6 meithrinfa ddydd, 4 Cylch chwarae, 1 Cylch Meithrin
- 12 clwb gwyliau (a ddarperir hefyd gan 8 meithrinfa ddydd a 3 Grŵp Chwarae)

Yn ogystal â hyn mae:

- 25 o glybiau brechwast yn darparu menter brechwast am ddim
- 20 o feithrinfeydd/dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir

Sylwer bod Gwasanaeth Chwarae Torfaen yn cynnig sesiynau seibiant yn ychwanegol at glybiau ar ôl ysgol, ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, yn ystod y ystod y tymor a gwyliau ysgol. Mae dau glwb chwarae ar ôl ysgol arall sydd heb eu cofrestru (yng Nghoed Eva a De Croesyceiliog) hefyd yn cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan y Gwasanaeth Chwarae (gan gynnwys 1 ar gyfer plant ag ADY/anabledd) trwy atgyfeiriad yn unig ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad. Ceir dadansoddiad llawn o'r Ddarpariaeth Chwarae yn Adran 7.6.

Mae Ffigur 192 yn dangos nifer darpariaethau gofal plant fesul ardaloedd daearyddol. Ciplun Dewis Cymru Rhagfyr 2021

Ffigur 192

AGEI Cyngor Torfaen	Gwarchodwr Plant	Meithrinfa Ddydd	Grŵp Chwarae	Cylch Meithrin	Clwb Ar Ôl Ysgol	Clwb Cyn ysgol	Clwb Gwyliau	Clwb Brecwast Am ddim	Meithrin a Gynhelir	Cyfansymiau
Abersychan 1					1			1	1	3
Abersychan 2	1		1					1	1	4
Abersychan 3	2									2
Abersychan 4										0
Abersychan 5			1	1		1				3
Blaenafon 1			1		1	1				3
Blaenafon 2								1	1	2
Blaenafon 3		1	1		1	1	1			5
Blaenafon 4										0
Brynwern	2		1		2			2	1	8
Coed Eva			1		1			2	2	6
Gogledd Croesyceiliog 1	1	1			1			1		4
Gogledd Croesyceiliog 2									1	1
De Croesyceiliog	1	1	1			1		1		5
Cwm-ynys-cou										0
Fairwater (Torfaen) 1										0

Fairwater (Torfaen) 2		1	1					1	1	4
Fairwater (Torfaen) 3	2			1	1*			2		5
Fairwater (Torfaen) 4										0
Dôl Werdd 1										0
Dôl Werdd 2	2									2
Dôl Werdd 3										0
Llantarnam 1		1			1*		1			2
Llantarnam 2	1		1		1			1	1	5
Llantarnam 3	1	1						1	1	4
Gogledd Llanyrafon	1		1		1		1			4
De Llanyrafon 1	1							1		2
De Llanyrafon 2	1	1			2	1	1	1		7
Y Dafarn Newydd 1	1									1
Y Dafarn Newydd 2	1		1		2	1		1	1	7
Y Dafarn Newydd 3										0
Y Dafarn Newydd 4	1	2			1	1	1			6
Panteg 1			1							1
Panteg 2		2	2		4	1	2	1	1	13
Panteg 3										0
Panteg 4	2							1	1	4
Panteg 5	1									1
Pontnewydd 1	1									1
Pontnewydd 2	1		1		1		1	1	1	6
Pontnewydd 3		1	2					1	1	5
Pontnewydd 4									1	1
Pontnewydd									1	1
Pont-y-pŵl	1	2	2	1	2	2	2	1		13
Coed Llwyd										0
Sant Cadog a Phen-y-garn			1		1*			1	1	3
Sain Derfel 1				1	1	1			1	4
Sain Derfel 2	1	1								2

Sain Derfel 3										0
Trefddyn 1	1									1
Trefddyn 2			1							1
Dwy Loc 1	1									1
Dwy Loc 2	4	1	1		1	1	1			9
Dwy Loc 3										0
Dwy Loc 4										0
Cwmbrân Uchaf 1	1		1				1			3
Cwmbrân Uchaf 2										0
Cwmbrân Uchaf 3	1	1	1					1	1	5
Cwmbrân Uchaf 4								1		1
Waunfelin 1	1									1
Waunfelin 2										0
Cyfansymiau	35	17	24	4	26	12	12	25	20	

Nifer y Lleoedd

Mae Ffigur 193 yn dangos nifer y lleoedd gofal plant yn Nhorfaen, sydd wedi cofrestru gydag AGC ac sydd heb gofrestru, yn ôl AGEI. Mae hyn yn cynnwys data sydd cael ei gadw gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen ac efallai nad yw'n cynnwys pob darpariaeth sydd heb ei gofrestru. Nid oes rheidrwydd ar ofal plant nad yw wedi'i gofrestru gydag AGC, am resymau fel gweithredu llai na dwy awr y dydd neu ar gyfer plant/pobl ifanc dros wyth oed, i rannu manylion eu darpariaeth gyda GGiD Torfaen, er bod y gwasanaeth yn casglu'r wybodaeth hon lle bynnag y bo modd.

Sylwer, er bod darpariaeth cofleidiol yn cael ei chynnig gan 15 o gylchoedd chwarae, 2 gylch meithrin a 5 meithrinfa ddydd yn Nhorfaen, ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng y lleoedd gofal plant a gynigir sy'n rhai cofleidiol a'r rhai a gynigir fel rhan o'u prif ddarpariaeth ac felly yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm y lleoedd a gynigir gan y lleoliadau hyn.

Mae cyfanswm o 12,055 o leoedd gofal plant yn Nhorfaen gan gynnwys lleoedd addysg feithrin a chlybiau brecwast o dan y Fenter Brecwast am Ddim. O'r rhain, mae 3,223 wedi cofrestru gydag AGC a 8,832 heb gofrestru. Mae Ffigur 193 yn dangos bod

- 286 o leoedd cofrestredig mewn lleoliadau Gwarchodwyr Plant; (sylwer nad yw cyfanswm o 25 o leoedd cofrestredig ar gael oherwydd bod 1 Gwarchodwr Plant wedi'i wahardd yn wirfoddol ac nid yw 2 Warchodwr Plant yn gweithio ar hyn o bryd)

- Mae 980 o leoedd cofrestredig mewn Meithrinfeydd Dydd
- Mae 691 o leoedd cofrestredig mewn Cylchoedd chwarae (o'r rhain mae 658 o leoedd cofrestredig yn darparu gofal cofleidiol) Mae 42 o leoedd yn Llantarnam 2 hefyd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd oherwydd Covid felly gellid eu hystyried yn adnewyddiad blynyddol 2023
- Mae 68 o leoedd cofrestredig mewn Cylchoedd meithrin (o'r rhain mae 33 o leoedd cofrestredig yn darparu gofal cofleidiol)
- Mae 358 o leoedd cofrestredig mewn clybiau gwyliau
- Mae 536 o leoedd cofrestredig mewn Clybiau Ar Ôl Ysgol
- Mae 128 o leoedd anghofrestredig mewn Clybiau Ar Ôl Ysgol (sylwer bod 24 o leoedd anghofrestredig ddim ar gael oherwydd Covid;
- Mae 284 o leoedd cofrestredig mewn Clybiau Cyn Ysgol
 - Mae Ffigur 193 hefyd yn dangos rhai o'r lleoedd anghofrestredig nad ydynt yn bennaf ar gyfer gofal plant ond a ddefnyddir weithiau gan rieni/gofalwyr at y diben hwn:
- Mae 1027 o leoedd addysg feithrin Awdurdod Lleol rhan amser ar gael
- Mae 7697 o leoedd anghofrestredig mewn clybiau brecwast

Ffigur 193

AGEI Cyngor Torfaen	Gwarchodwr Plant	Meithrinfa Ddydd	Grŵp Chwarae	Cylch Meithrin	Clwb Ar Ôl Ysgol	Clwb Ar Ôl Ysgol Anghofrestredig	Clwb Cyn ysgol	Clwb Gwyliau	Clwb Brecwast	Meithrinfa a Gynheir	Cyfanswm Nifer y lleoedd sydd ar gael	Nifer y plant 0 - 14 oed	Nifer y plant fesul lle gofal plant ar gyfartaledd
Abersychan 1						16			210	30	256	292	1.1
Abersychan 2	10		20						420	60	510	420	0.8
Abersychan 3	15										15	280	18.7
Abersychan 4											0	304	-
Abersychan 5			48	20			24				92	271	2.9
Blaenafon 1											0	304	-
Blaenafon 2			30		30		30		450	64	604	401	0.7
Blaenafon 3		65	24		16		24	24			153	307	2.0
Blaenafon 4											0	267	-
Brynwern	20		24		24	16			630	60	774	380	0.5
Coed Eva			30		25				840	120	1015	442	0.4

Gogledd Croesyceiliog 1	6	60				20					86	290	3.4
Gogledd Croesyceiliog 2									420	60	480	265	0.6
De Croesyceiliog	6	46	19				19		101		191	253	1.3
Cwm-ynys-cou											0	253	-
Fairwater (Torfaen) 1											0	314	-
Fairwater (Torfaen) 2		50	20						315	45	430	256	0.6
Fairwater (Torfaen) 3	18			16		24*			468		526	213	0.4
Fairwater (Torfaen) 4											0	187	-
Dôl Werdd 1											0	314	-
Dôl Werdd 2	12										12	204	17.0
Dôl Werdd 3											0	358	-
Llantarnam 1		42			18			15			75	482	6.4
Llantarnam 2	10		36		20				315	45	426	450	1.1
Llantarnam 3	10	31							210	30	281	254	0.9
Gogledd Llanyrafon	8		26		64				407		505	379	0.8
De Llanyrafon 1								64			64	169	2.6
De Llanyrafon 2	16	95			24	16	24	24	118		317	177	0.6
Y Dafarn Newydd 1	10										10	287	28.7
Y Dafarn Newydd 2	9		19		54		46		46	75	249	273	1.1
Y Dafarn Newydd 3											0	115	-
Y Dafarn Newydd 4	10	116			16		12	12			166	232	1.4
Panteg 1			19								19	151	7.9
Panteg 2		116	91		89	36	14	116	420	60	942	223	0.2
Panteg 3											0	258	-
Panteg 4	11								420	60	491	518	1.1
Panteg 5	10										10	203	20.3
Pontnewydd 1	6										6	276	46.0

Pontnewydd 2	4		19		19			19	210	30	301	447	1.5
Pontnewydd 3		86	116						231	33	466	252	0.5
Pontnewydd 4										55	55	239	4.3
Pontnewydd									315	45	360	262	0.7
Pont-y-pŵl	10	101	48	19	48		48	48			322	310	1.0
Coed Llwyd											0	376	-
Sant Cadog a Phen-y-garn			24		16				446	63	549	380	0.7
Sain Derfel 1				13	43		13			47	116	334	2.9
Sain Derfel 2	10	72									82	183	2.2
Sain Derfel 3											0	355	-
Trefddyn 1	9										9	568	63.1
Trefddyn 2			20								20	334	16.7
Dwy Loc 1	6		24								30	388	12.9
Dwy Loc 2	30	74			30		30	20			184	225	1.2
Dwy Loc 3											0	268	-
Dwy Loc 4											0	156	-
Cwmbrân Uchaf 1	10		16					16			42	288	6.9
Cwmbrân Uchaf 2											0	155	-
Cwmbrân Uchaf 3	10	26	18						319	45	418	286	0.7
Cwmbrân Uchaf 4									386		386	298	0.8
Waunfelin 1	10										10	211	21.1
Waunfelin 2											0	201	-
Cyfansymiau	286	980	691	68	536	128	284	358	7697	1027	12,055	17538	1.5

Ardaloedd AGEI sydd â'r nifer uchaf o gyfanswm o leoedd yw;

- Coed Eva (Cwmbrân) gyda 1015 o leoedd (55 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Panteg 2 (Pont-y-pŵl) gyda 942 o leoedd (426 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Brynwern (Pont-y-pŵl) gyda 774 o leoedd (68 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Blaenafon 2 (Blaenafon) gyda 604 o leoedd (90 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Sant Cadog a Phen-y-garn (Pont-y-pŵl) gyda 549 o leoedd (40 wedi'u cofrestru gydag AGC);

Nid oes unrhyw leoedd ar gael yn yr ardaloedd AGEI a ganlyn;

Blaenafon

- Blaenafon 1 / Blaenafon 4

Cwmbrân

- Fairwater 1, Fairwater 4, Dôl Werdd 1, Dôl Werdd 3, Dwy Loc 2, Dwy Loc 4, Cwmbrân Uchaf 4, Sain Derfel 3,

Pont-y-pŵl

- Abersychan 4, Cwm-ynys-cou, Y Dafarn Newydd 3, Panteg 3, Coed Llwyd, Waunfelin 2,

Ardaloedd AGEI sydd â'r nifer uchaf o gyfanswm o leoedd gofal plant cofrestredig gyda AGC yw;

- Panteg 2 (Pont-y-pŵl) gyda 426 o leoedd gofal plant cofrestredig
- Pont-y-pŵl gyda 322 o leoedd gofal plant cofrestredig
- Pontnewydd 3 (Cwmbrân) gyda 202 o leoedd cofrestredig
- Dwy Loc 2 (Cwmbrân) gyda 184 o leoedd cofrestredig
- De Llanyrafon (Cwmbrân) gyda 183 o leoedd cofrestredig
- Y Dafarn Newydd (Pont-y-pŵl) gyda 166 o leoedd cofrestredig

Ardaloedd AGEI sydd â'r nifer isaf o leoedd gofal plant wedi cofrestru gydag AGC yw;

- Pontnewydd 1 (Cwmbrân) gyda 6 o leoedd cofrestredig
- Trefddyn 1 (Pont-y-pŵl) gyda 9 o leoedd cofrestredig
- Y Dafarn Newydd 1, Panteg 5, Waunfelin 1 (Pont-y-pŵl) gyda 10 o leoedd cofrestredig
- Panteg 4 (Pont-y-pŵl) gydag 11 o leoedd cofrestredig
- Trefddyn 2 (Pont-y-pŵl) gydag 20 o leoedd cofrestredig

Cyfanswm Nifer y lleoedd sydd ar gael yn ystod y flwyddyn

Mae cyfanswm nifer y lleoedd ym mhob AGEI yn newid rhwng y tymor ac yn ystod gwyliau ysgol. Mae Ffigur 194 yn dangos nifer y lleoedd gofal plant ym mhob ward, yn ôl argaeledd yn ystod y tymor a gwyliau ysgol. Mae 'Pob Lle' yn cynnwys darpariaeth feithrin a gynhelir a chlybiau brechwast y mae nifer o rieni/gofalwyr yn eu defnyddio ar gyfer gofal plant.

Ffigur 194

AGEI Cyngor Torfaen	Pob lle		Lleoedd cofrestredig	
	Yn ystod y tymor	Yn ystod gwyliau ysgol	Yn ystod y tymor	Yn ystod gwyliau ysgol
Abersychan 1	256	0	0	0
Abersychan 2	510	10	30	10
Abersychan 3	15	15	15	15
Abersychan 4	0	0	0	0
Abersychan 5	92	0	92	0
Blaenafon 1	0	0	0	0
Blaenafon 2	604	0	90	0
Blaenafon 3	129	89	129	89
Blaenafon 4	0	0	0	0
Brynwern	774	20	68	20
Coed Eva	1015	0	55	0
Gogledd Croesyceiliog 1	86	66	86	66
Gogledd Croesyceiliog 2	480	0	0	0
De Croesyceiliog	191	52	90	52
Cwm-ynys-cou	0	0	0	0
Fairwater (Torfaen) 1	0	0	0	0
Fairwater (Torfaen) 2	430	50	70	50
Fairwater (Torfaen) 3	502	18	34	18
Fairwater (Torfaen) 4	0	0	0	0
Dôl Werdd 1	0	0	0	0
Dôl Werdd 2	12	12	12	12
Dôl Werdd 3	0	0	0	0
Llantarnam 1	60	57	60	57
Llantarnam 2	426	10	66	10
Llantarnam 3	281	41	41	41
Gogledd Llanyrafon	505	8	98	8

De Llanyrafon 1	0	64	0	64
De Llanyrafon 2	293	135	159	135
Y Dafarn Newydd 1	10	10	10	10
Y Dafarn Newydd 2	249	9	128	9
Y Dafarn Newydd 3	0	0	0	0
Y Dafarn Newydd 4	154	138	154	138
Panteg 1	19	0	19	0
Panteg 2	826	232	310	232
Panteg 3	0	0	0	0
Panteg 4	491	11	11	11
Panteg 5	10	10	10	10
Pontnewydd 1	6	6	6	6
Pontnewydd 2	282	23	42	23
Pontnewydd 3	466	86	202	86
Pontnewydd 4	55	0	0	0
Pontnewynydd	360	0	0	0
Pont-y-pŵl	274	159	274	159
Coed Llwyd	0	0	0	0
Sant Cadog a Phen-y-garn	549	0	40	0
Sain Derfel 1	116	0	69	0
Sain Derfel 2	82	82	82	82
Sain Derfel 3	0	0	0	0
Trefddyn 1	9	9	9	9
Trefddyn 2	20	0	20	0
Dwy Loc 1	30	6	30	6
Dwy Loc 2	164	124	164	124
Dwy Loc 3	0	0	0	0
Dwy Loc 4	0	0	0	0
Cwibrân Uchaf 1	26	26	26	26
Cwibrân Uchaf 2	0	0	0	0
Cwibrân Uchaf 3	418	36	54	36

Cwmbrân Uchaf 4	386	0	0	0
Waunfelin 1	10	10	10	10
Waunfelin 2	0	0	0	0
Cyfansymiau	11673	1624	2865	1624

Mae Ffigur 194 yn dangos, er bod 11,673 (2,865 wedi'u cofrestru gydag AGC) o leoedd gofal plant yn Nhorfaen yn ystod y tymor, mae hyn yn gostwng i 1,624 o leoedd (1,624 o leoedd cofrestredig) yn ystod gwyliau ysgol. Ni all pob grŵp oedran o blant gael mynediad i bob un o'r lleoedd gofal plant hyn. Mae'r gofal plant sydd ar gael yn ystod y tymor/gwyliau ysgol fesul grŵp oedran yn cael ei archwilio mewn penodau diweddarach.

AGEI gyda'r nifer uchaf o'r holl leoedd sydd ar gael yn ystod y tymor yw:

- Coed Eva (Cwmbrân) gyda 1,015 o leoedd (55 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Panteg 2 (Pont-y-pŵl) gyda 826 o leoedd (310 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Blaenafon 2 (Blaenafon) gyda 604 o leoedd (90 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Sant Cadog a Phen-y-garn (Pont-y-pŵl) gyda 549 o leoedd (40 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Fairwater 3 (Cwmbrân) gyda 526 o leoedd (24 wedi'u cofrestru gydag AGC);

AGEI gyda'r nifer isaf o'r holl leoedd sydd ar gael yn ystod y tymor yw:

- Pontnewydd 1 (Cwmbrân) gyda 6 o leoedd (6 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Trefddyn 1 (Pont-y-pŵl) gyda 9 o leoedd (9 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Y Dafarn Newydd 1, Panteg 5, Waunfelin 1 (Pont-y-pŵl) gyda 10 o leoedd (y 30 o leoedd i gyd wedi'u cofrestru gydag AGC)
- Dôl Werdd 2 (Cwmbrân) gyda 12 o leoedd (12 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Abersychan 3 (Pont-y-pŵl) gyda 15 o leoedd (15 wedi'u cofrestru gydag AGC);

AGEI gyda'r nifer uchaf o'r holl leoedd sydd ar gael yn ystod gwyliau ysgol yw:

- Panteg 2 (Pont-y-pŵl) gyda 232 o leoedd (232 o leoedd cofrestredig)
- Pont-y-pŵl gyda 159 o leoedd (159 o leoedd cofrestredig)
- Y Dafarn Newydd 4 (Pont-y-pŵl) gyda 138 o leoedd (138 o leoedd cofrestredig)
- De Llanyrafon (Cwmbrân) gyda 135 o leoedd (135 o leoedd cofrestredig)
- Dwy Loc 2 (Cwmbrân) gyda 124 o leoedd (124 o leoedd cofrestredig)

AGEI gyda'r nifer isaf o'r holl leoedd sydd ar gael yn ystod gwyliau ysgol yw:

- Pontnewydd 1, Dwy Loc 1 (Cwmbrân) gyda 6 lle (y 12 lle wedi'u cofrestru gydag AGC)
- Trefddyn 1 a'r Dafarn Newydd 2 (Pont-y-pŵl) gyda 9 o leoedd (y 18 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGC)
- Abersychan 2, Y Dafarn Newydd 1, Panteg 5 a Waunfelin 2 (Pont-y-pŵl) a Llantarnam 2 (Cwmbrân) gyda 10 o leoedd (y cyfan o'r 50 wedi cofrestru gydag AGC)
- Panteg 4 (Pont-y-pŵl) gydag 11 o leoedd (yr 11 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Dôl Werdd 2 (Cwmbrân) gyda 12 o leoedd (y 12 wedi'u cofrestru gydag AGC);
- Abersychan 3 (Pont-y-pŵl) gyda 15 o leoedd (y 15 wedi'u cofrestru gydag AGC);

9. Dadansoddiad o Ddarpariaeth Dechrau'n Deg

Ceir y data ynghylch y nifer sy'n defnyddio lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg, a'r lleoedd sydd ar gael ar gyfer plant dwy flwydd oed, gan Dîm Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ymyrryd ym mywydau'r plant mwyaf difreintiedig er mwyn gwella'u cyfleoedd mewn bywyd. Darpara'r rhaglen wasanaethau ymwelwyr iechyd estynedig, magu plant a datblygiad iaith gynnar a gofal plant.

Yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn ddwy flwydd oed, mae gan blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yr hawl i ofal plant rhan-amser a ariennir gan Lywodraeth Cymru am 12.5 awr yr wythnos, sy'n golygu 2.5 awr y dydd, Llun-Gwener am 39 wythnos o'r flwyddyn. Mae dalgylchoedd Dechrau'n Deg yn Nhorfaen yn cynnwys:

- Blaenafon
- Pen-y-garn
- Woodlands
- De-orllewin Cwmbrân
- Pentre' Uchaf
- Garndiffaith
- Cwm-ynys-cou

Mae dalgylchoedd Dechrau'n Deg yn seiliedig ar godau post, a phlant sy'n byw yn un o'r codau post cymwys hynny'n unig sydd â hawl i ofal plant Dechrau'n Deg

At ddiben yr adroddiad hwn, caiff ardaloedd eu gwahaniaethu fel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (AGEI) a'u crynhoi yn ôl 3 ardal setliad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân).

Mae 15 o leoliadau gofal plant yn Nhorfaen a gymeradwywyd i ddarparu Dechrau'n Deg (gostyngiad o 5 ers 2017), a darperir y rhain gan 4 Lleoliad Gofal Dydd Llawn, 10 Lleoliad Gofal Dydd Sesiynol ac 1 Gwarchodwr Plant. Mae 2 o'r Lleoliadau Gofal Dydd Sesiynol yn darparu gofal plant Dechrau'n Deg yn arbennig i blant 2-3 oed sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg, ac mae'r lleoliadau eraill yn darparu'r ddau.

Mae Ffigur 195 yn dangos y capasiti mwyaf a'r nifer sy'n manteisio ar Ddechrau'n Deg yn ddaearyddol. Uchafswm nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer Dechrau'n Deg yn Nhorfaen yw 345, ar sail ffigurau a gyflwynwyd yn Hydref 2021. Mae nifer y lleoedd yn cynnwys cyfanswm nifer y plant sy'n cael lle Dechrau'n Deg yn ystod Hydref 2020, Gwanwyn 2021 a Haf 2021.

Ffigur 195 Uchafswm nifer y lleoedd yn ddaearyddol - Data CBST

Ardal	Dalgylch	Uchafswm capasiti (bore)	Uchafswm capasiti (prynhawn)	Cyfanswm y Capasiti	AU20	SP21	SU21	Presenoldeb ar gyfartaledd	Presenoldeb - canran
Gogledd	Blaenafon 3	16	16	32	18	18	13	16	51.0%
Gogledd	Blaenafon 2	16	0	16	17	13	12	14	87.5%
Gogledd	Abersychan 2	16	16	32	21	23	27	24	74.0%
Canol	Abersychan 5	10	5	15	16	11	8	12	77.8%
Canol	Trefddyn 2	16	0	16	14	14	9	12	77.1%
Canol	Pen-y-garn / Trefddyn	24	24	48	32	27	30	30	61.8%
Canol	Sant Cadog a Phen-y-garn	12	12	24	14	14	19	16	65.3%
De	Cwmbrân Uchaf 3	10	10	20	9	6	6	7	35.0%
De	Fairwater 2	20	20	40	33	28	28	30	74.2%
De	Dwy Loc 1	10	10	20	17	20	21	19	96.7%
De	Cwmbrân Uchaf 1	0	16	16	14	16	15	15	93.8%
De	Pontnewydd 3	16	10	26	16	17	16	16	62.8%
De	Pontnewydd 3	10	10	20	11	8	7	9	43.3%
De	Cwmbrân Uchaf 1	20	0	20	15	13	20	16	80.0%
		196	149	345	247	228	231	235	68.2%

Mae data a gasglwyd rhwng Hydref 2020 a Haf 2021 yn dangos bod 68% ar gyfartaledd yn manteisio ar leoedd Dechrau'n Deg, gyda'r lefel uchaf o leoedd yn ardaloedd Dau Loc 1, Cwibrân Uchaf 1 (dros ddau leoliad) a Blaenafon 2. Nid oes neb yn manteisio ar leoedd gyda Gwarchodwr Plant Dechrau'n Deg yn ardal Llantarnam 3.

Mae'r nifer isaf ar gyfartaledd sy'n manteisio ar leoedd, yn ardaloedd Cwibrân Uchaf 3 a Phontnewydd 3 (Pob un dros un lleoliad). Yn ystod y pandemig roedd nifer o leoliadau Dechrau'n Deg ar gael i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol. Yn ystod hydref 2020 roedd holl ddarpariaethau Dechrau'n Deg yn weithredol ac yn agored i bob plentyn. Gellir ystyried y gallai effaith Covid-19 fod wedi effeithio ar lefelau presenoldeb ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod hwn oherwydd dewis rhieni.

Nododd canlyniadau'r Arolwg Rhieni / Gofalwyr bod 102 o deuluoedd yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg, gyda mwyafrif y rhain yn byw yn ardal Cwibrân (60 Cwibrân, 30 Pont-y-pŵl, 12 Blaenafon). Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod 17% o ymatebwyr yn ardal Cwibrân yn cael gofal plant am ddim drwy Dechrau'n Deg, mae 37% o ymatebwyr Pont-y-pŵl yn cael gofal plant am ddim a 42% o ymatebwyr ym Mlaenafon yn cael mynediad i ofal plant am ddim drwy Dechrau'n Deg.

10. Dadansoddiad o Addysg Ran-amser y Blynyddoedd Cynnar (Cyfnod Sylfaen)

Mae data ynghylch y nifer sy'n manteisio ar leuedd addysg feithrin a nifer y lleuedd sydd ar gael a ariennir ar gyfer plant 3 - 4 oed yn cael ei gyflenwi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ystod mis Chwefror 2022. Ar hyn o bryd ni chesglir gwybodaeth broffilio, fel ethnigrwydd ac anabledd, ar gyfer plant sy'n ceisio am addysg feithrin wedi'i hariannu. Mae plant sy'n derbyn addysg feithrin wedi'i hariannu yn Nhorfaen yn dair neu'n bedair oed ar ddechrau'r tymor y maen nhw'n dechrau eu haddysg feithrin. At ddiben yr asesiad hwn, mae'r holl ffigurau'n cyfeirio at leuedd sydd ar gael ac yn cael eu defnyddio yn ystod Hydref 2021 a Gwanwyn 2022.

Gall plant tair a phedair oed yn Nhorfaen wneud cais am leuedd addysg feithrin rhan-amser ar gyfer y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed (codi'n dair oed) naill ai mewn dosbarth/ysgol feithrin a gynhelir neu mewn lleoliad gofal plant yn y sector preifat neu wirfoddol fel Grŵp Chwarae, meithrinfa ddydd neu gylch meithrin, cyhyd â bod y lleoliad wedi'i gofrestru ac wedi cael cymeradwyaeth i ddarparu lleuedd addysg feithrin. Caiff yr holl leoliadau eu rheoleiddio ac maen nhw'n ddarostyngedig i arolwg Estyn.

Mae Ffigur 196 yn dangos bod 35 o leoliadau yn Nhorfaen wedi'u cymeradwyo i ddarparu lleuedd addysg feithrin rhan-amser, rhad ac am ddim, ar gyfer plant 3-4 oed (gostyngiad o 1 ers yr asesiad diwethaf). O'r rhain;

- Mae 20 yn ysgolion meithrin neu'n ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir
- 11 yn Ofal Dydd Llawn / Meithrinfa
- 4 yn Ofal Dydd Sesiynol (3 Grŵp Chwarae ac 1 Cylch Meithrin)

Mae Ffigur yn dangos 196 nifer y darparwyr a gynhelir a darparwyr y sector preifat/gwirfoddol sy'n darparu lleuedd addysg feithrin, fesul ardal.

Ffigur 196 Darparwyr addysg feithrin a gynhelir a phreifat/gwirfoddol fesul ardal AGEI

Fe wnaeth cyfanswm o 10 o leoliadau nas ariennir (2 Meithrinfa Ddydd, 2 Gylch Meithrin, 5 Grŵp Chwarae ac 1 Clwb Ar Ôl Ysgol) gymryd rhan mewn hyfforddiant ADY yn ystod Tymor y Gwanwyn 2021, Tymor yr Hydref 2021. Mae hyfforddiant pellach wedi ei drefnu ar gyfer Gwanwyn 2022.

Hyfforddiant Graddfeydd Amgylcheddol - ITERS

Mewn ymateb i geisiadau gan ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg a gymerodd rhan mewn hyfforddiant ADY yn 2021, cafodd yr hyfforddiant canlynol ei dreialu ymhob lleoliad yn ystod tymor yr hydref 2021. Cyflwynwyd sesiynau deirgwaith y dydd - sesiwn bore, sesiwn prynhawn a sesiwn gyda'r nos fel bod darparwyr yn cael cyfle i gymryd rhan. Mae Ffigur 293 yn dangos crynodeb o'r data am ddarparwyr gofal plant a gymerodd rhan yn yr hyfforddiant.

Ffigur 293 Darparwyr gofal plant a gymerodd rhan yn hyfforddiant ITERS 2021/2022

Cwblhawyd yr Hyfforddiant	Gwarchodwr Plant	Meithrinfa Ddydd	Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin	Cyfanswm y staff a gymerodd rhan
Cyflwyniad i ITERS 3	1	6	4	30
ITERS eitem 1-Gofod Dan Do	1	6	4	24
ITERS eitem 2-Dodrefn	1	4	6	30
ITERS eitem 3-trefnu ystafell	1	4	7	23
ITERS eitem 4- arddangosfa i blant	1	6	6	13
ITERS eitem 5- prydau a byrbrydau	1	4	4	21
ITERS eitem 6- newid cewynnau a defnyddio'r tŷ bach	1	4	4	22
ITERS eitem 7-Arferion iechyd ITERS eitem 7-Arferion diogelwch	1	5	3	21
Proffiliau Cyfnod Sylfaen	3	8	7	29
ITERS eitem 9- Siarad â phlant	-	6	8	44
ITERS eitem 10-annof datblygu geirfa	-	4	6	26
ITERS eitem 11- ymateb i gyfathrebiad plant	1	6	7	39
Sesiwn 1 Dtablygiad Plant	3	5	3	24
ITERS eitem 12-annog plant i gyfathrebu	Wedi ei drefnu ym mis Chwefror 2022			
ITERS eitem 13-staff yn defnyddio llyfrau gyda phlant				

Hyfforddiant nad yw'n orfodol

Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 cynigiwyd amrywiaeth o sesiynau hyfforddi i ddarparwyr gofal plant trwy Ddatblygu'r Gweithlu. Cynigiwyd hyfforddiant trwy gyfuniad o hyfforddiant ar-lein, gweminarau ac wyneb yn wyneb.

Mae Ffigur 294 yn dangos nifer y sesiynau hyfforddi a ddarparwyd a chyfanswm y staff a gymerodd rhan fesul lleoliad gofal plant.

Ffigur 294

Cwrs Hyfforddi	Gofal Dydd Llawn	Gofal Dydd Sesiynol	Gwarchodwr Plant
Hyfforddiant Hawliau Plant	8	2	0
Hyfforddiant Diogelu Person Dynodedig	3	3	0
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) y Blynyddoedd Cynnar Rhan 1	25	5	0
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod y Blynyddoedd Cynnar Rhan 2	22	4	0
Hyfforddiant Dull Solihull	8	4	0
ELKLAN	20	12	0
PREVENT Hyfforddiant Asesu Risg ar Ddyletswydd	6	4	0
Hyfforddiant Tendro	25	8	0
Sesiwn Lesiant	14	7	1
Datblygiad Plant	4	1	0
Hyfforddiant ERIC	7	3	0
Hyfforddiant WellComm	10	2	0
Hyfforddiant Cysylltiadau Teuluol y Blynyddoedd Cynnar	8	3	0
Hyfforddiant Ymlyniad	3	4	1
Cyfansymiau	163	62	2

Fe wnaeth cyfanswm o 163 o staff gofal plant mewn lleoliadau Gofal Dydd Llawn, 62 mewn lleoliadau gofal plant sesiynol a 2 Warchodwr Plant gymryd rhan yn yr hyfforddiant.

Mae Ffigur 295 hefyd yn dangos nifer y staff sydd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant RRRS isod.

Ffigur 295

Cwrs Hyfforddi	Lleoliad Cyfan	Aelod o Staff Unigol:
Hyfforddiant Ymlyniad, Plant yng Nghymru	0	26
Hyfforddiant Arweinwyr, Ysgolion Coedwig	0	12
Sesiynau Goginio Gyda'n Gilydd	15	0
Hyfforddiant Llythrennedd Corfforol/Sesiwn Datblygu Chwaraeon	14	0
Hyfforddiant Ar-lein ABC Does	7	0
Seminar Llesiant Jenny Mosley	14	0
Hyfforddiant Asesu a Chynllunio Kathy Brodie	0	24
Little Magic Train	15	0

18. Canlyniadau Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid (fel yr amlinellir yn adran 2)

Ymgynghorodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen a'r Tîm Gofal Plant â nifer o randdeiliaid lle'r oedd hynny'n briodol yn unol ag atodlen 2 o'r Canllawiau Statudol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Aseidiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, Rheoliadau 6 a 7 yn nodi'r rheiny y gallai awdurdodau lleol ystyried ymgynghori â nhw a'r rheiny y mae'n rhaid iddynt ymgynghori â nhw wrth baratoi'r asesiad, gan gynnwys y rheiny sy'n cynrychioli pobl sydd â diddordeb mewn gofal plant.

Yn y dadansoddiad canlynol, cyflwynir y darganfyddiadau y daethpwyd o hyd iddynt gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen a'r Tîm Gofal Plant.

18.1 Ymgynghori ag Ysgolion

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymgynghori ag ysgolion i dynnu sylw at unrhyw bryderon a bylchau o fewn gofal plant a allai effeithio ar eu hysgol mewn ffordd bositif neu negyddol. Yn fwy penodol, ymgynghorodd Bwrdeistref Sirol Torfaen ag ysgolion i gael mwy o wybodaeth leol ynghylch gofal plant ac i ymchwilio i'r potensial o ddatblygu darpariaethau gofal plant newydd.

Methodoleg

Anfonwyd holiadur electronig a ddatblygwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen (Atodiad 2) at gyfanswm o 34 o ysgolion yn ystod mis Medi 2021. Anfonwyd e-bost arall i'w hatgoffa cyn y dyddiad cau.

Fe wnaeth cyfanswm o 15 o ysgolion gymryd rhan (cynnydd o 67% ers ADGP 2017), dychwelwyd yr holl holiaduron trwy e-bost. Rhoddwyd cyfeirnod i bob arolwg, a chafodd ymatebion meintiol eu bwydo i mewn i daenlen i greu tablau (Atodiad). Dadansoddwyd ymatebion ansoddol a'u cofnodi (Atodiad). Mae Ffigur 296 yn dangos lleoliad daearyddol ymatebion yr ysgolion

Gwahanwyd yr ymatebwyr a chawsant eu categoreiddio fel;

- 10 Ysgol Gynradd (Ystod oedran 3/4 – 11 oed)
- 2 Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg (Ystod oedran 3/4 – 11 oed)
- 2 Ysgol Uwchradd (Ystod oedran 11-16 oed)

Mae Ffigur 296 yn dangos lleoliad daearyddol ymatebion yr ysgolion

Ardal AGEI	Cynradd	Uwchradd	Cynradd Cyfrwng Cymraeg	Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
Abersychan 1	-	-	1	-
Brynwern	1	-	-	-
Coed Eva	1	-	-	-
Gogledd Croesyceiliog	1	-	-	-
De Croesyceiliog	-	1	-	-
Fairwater 1	-	1	-	-
Fairwater 2	1	-	-	-
Fairwater 3	1	-	-	-
Llantarnam 3	1	-	-	-

Panteg 4	-	-	1	-
Pontnewydd 2	1	-	-	-
Pontnewydd 3	1	-	-	-
Pontnewynydd	1	-	-	-
Sant Cadog a Phen-y-garn	1	-	-	-
Trefddyn 2	-	-	-	1
Cyfansymiau	10	2	2	1

Mae gan bob pob ysgol gynradd a ymatebodd 1 neu fwy o ddarpariaethau gofal plant yn gweithredu o fewn eu safle ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn fentrau brecwast am ddim (73%) ac yn feithrinfeydd gofal cofleidiol 47%

Mae Coed Eva wedi'i nodi fel yr ardal gyda'r nifer fwyaf o ddarpariaeth gofal plant ar y safle, tra bod Llantarnam 3 a Phontnewynydd wedi'u nodi fel y rhai isaf. Nid oes unrhyw ddarpariaethau gofal plant ar safleoedd yr ysgolion cyfun a ymatebodd i'r arolwg. Fodd bynnag, bydd datblygiadau yn y dyfodol yn 2022 yn golygu y bydd gofal plant cyn ysgol a gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn cael ei leoli yn Nhrefddyn 2. Bydd datblygiadau parhaus hefyd yn gweld cynnydd yn y ddarpariaeth gofal plant a leolir ym Mhanteg 4. Adroddir ynghylch y rhain yn niweddariad blynyddol ADGP 2023.

Mae gan draean o'r ysgolion sydd â gofal plant ar y safle gytundebau rhentu, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol. Bydd gan y rhai nad ydynt yn cynnig llety heb rhent, gytundebau lefel gwasanaeth yn fuan.

Mae 73% o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg yn credu ei bod yn fuddiol cael gofal plant wedi'i leoli ar eu safle ysgol, gan awgrymu cyfleoedd i'r ysgol gynyddu niferoedd disgyblion a helpu rhieni sy'n gweithio.

Roedd y rhesymau dros beidio â bod angen gofal plant ar y safle yn ymwneud ag ystod oedran y disgyblion a diffyg galw.

Nodwyd awgrymiadau ar gyfer ehangu gofal plant o bosibl yn Fairwater 1 a diddordeb mewn cynnig darpariaeth ar ôl ysgol yn Fairwater 3.

Mae Llantarnam 3 yn adrodd am alw am ddarpariaeth ar ôl ysgol yn y gorffennol, ond mae cynaliadwyedd wedi effeithio ar hirhoedledd y clwb.

Nid oes gan Abersychan 1 a Fairwater 2 unrhyw le ar gael i gynnig unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer gofal plant.

Mae 80% o'r ysgolion a ymatebodd yn ymwybodol o ddarpariaeth gofal plant yn lleol yn eu hardal, ac yn adnabod Gwarchodwyr Plant fel y ddarpariaeth gofal plant a gydnabyddir fwyaf fel un sy'n cael ei defnyddio tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag roedd un ysgol yn cydnabod nad oeddent yn gwybod am unrhyw ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal. Gellid ystyried mai'r rheswm am hyn yw'r gwasanaethau gofal plant presennol sydd ar waith ac sy'n bodloni gofynion rhieni yn yr ardal (Pontnewydd 2). Adroddodd ysgolion uwchradd nad oedd unrhyw ddarparwyr gofal plant yn casglu o'u hysgolion.

21% yn unig o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg sy'n credu bod digon o ofal plant ar gael yn lleol i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n mynychu eu hysgol (Coed Eva, De Croesyceiliog, a Phontnewydd 2) tra dywedodd 43% o ysgolion eu bod yn ansicr a oes digon o ofal plant ar gael.

Cred 36% o ysgolion nad oes digon o ofal plant ar gael yn lleol i ddarparu ar gyfer anghenion y teuluoedd sy'n mynychu eu hysgolion, ac fe wnaethant sôn am faterion fel;

- Diffyg Gwarchodwyr Plant cyfrwng Cymraeg (Abersychan 1)
- Diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn ystod y gwyliau (Abersychan 1)
- Un feithrinfa yn unig sy'n cynnig darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol gyda sesiynau gollwng a chasglu. Dyma pam yr oeddem am ddechrau darpariaeth ar ôl ysgol ar safle ein hysgol (Fairwater 3).

Ers yr asesiad diwethaf mae rhieni wedi cysylltu â 73% o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg ynglŷn â gofal plant (cynnydd o 38% ers 2017). Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani ar gyfer Clybiau Ar Ôl Ysgol a darpariaethau cofleidiol yn bennaf.

27% yn unig o rhai a ymatebodd ddatgelodd nad yw teuluoedd yn cysylltu â nhw ynglŷn â gofal plant.

Mae Ffigur 297 yn dangos y lle sydd ar gael i greu darpariaeth gofal plant newydd ar dir yr ysgol

Ffigur 297 Y ddarpariaeth gofal plant fyddai ar gael ar y safle yn y dyfodol

Ardal AGEI	le	Na	Ddim yn gwybod
Abersychan 1		1	
Brynwern		1	
Coed Eva		1	
Gogledd Croesyceiliog		1	
De Croesyceiliog		1	
Fairwater 1			1
Fairwater 2		1	
Fairwater 3	1		
Llantarnam 3	1		
Panteg 4	1		
Pontnewydd 2	1		
Pontnewydd 3	1		
Pontnewynydd	1		
Sant Cadog a Phen-y-garn		1	
Trefddyn 2			1
Cyfansymiau	6	7	2

Dywedodd 40% o ysgolion a ymatebodd fod ganddynt ddigon o le o bosib i greu darpariaeth gofal plant newydd, gan awgrymu y gellir defnyddio'r lle sydd ar gael ar gyfer Clybiau Ar Ôl Ysgol.

Nododd un ysgol ofod allanol ar y safle y gellir ei rentu ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol (Llantarnam 3)

Dyweddodd un ysgol nad oes lleoliad echrau'n Deg yn cael ei ddefnyddio ar ôl ysgol. Nodwyd 'Hwb Cymunedol' hefyd yn ystod oriau ysgol (sydd dan gyfyngiad ar hyn o bryd oherwydd canllawiau COVID) y gellir ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol (Pontnewydd 3).

Nid oes gan 47% o'r ysgolion a ymatebodd le ar gael i greu darpariaeth gofal plant newydd, ond dywedodd un ysgol pe na bai lle yn gyfyngedig, y byddent yn croesawu'r cyfle (Aberyschan1)

Pe bai lle ar gael, byddai 47% o'r ysgolion a ymatebodd yn ystyried rhoi lle i ddarparwr gofal plant a chynigiwyd y gallai hyn fod o fudd i'r ysgol (Llantarnam 3 a Fairwater 3).

Ymgynghorwyd ag ysgolion ynghylch fforddiadwyedd gofal plant a'r tebygolrwydd i deuluoedd ddefnyddio'r gofal plant petai'n cael ei gynnig. Crynhowyd yr ymatebion fel a ganlyn;

- Mae llawer o rieni yn gofyn am ddarpariaeth / mwy o ddarpariaeth. Mae'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn fforddiadwy (Abersychan 1)
- [Mae yna gyfuniad] Llawer o deuluoedd sy'n gweithio sy'n gallu fforddio gofal plant. Mae rhai teuluoedd y gallai eu plant elwa ar ddefnyddio gofal plant ond na allant ei fforddio (Coed Eva)
- Mae 400 o blant yma a bydd gan bob un ohonynt drefniadau gofal plant. [Rydym yn ansicr o ffioedd Gwarchodwr Plant o ran casglu plant yn ein hysgol, mae llawer o neiniau a theidiau yn darparu gofal plant am ddim] (Gogledd Croesyceiliog)
- Mae mwyafrif ein disgyblion yn cerdded adref ar eu pen eu hunain neu gyda brodyr a chwiorydd. Ddim yn siŵr bod angen unrhyw fath o ofal plant (De Croesyceiliog)
- Oes, teuluoedd sy'n gweithio (Fairwater 2)
- Roedd galw blaenorol yn dynodi angen. Rwy'n meddwl y byddai rhieni yn [ein hysgol] yn croesawu darpariaeth gofal plant ar ôl ysgol ar y safle. (Fairwater 3)
- Mae darpariaeth ar ôl ysgol wastad wedi bod yn boblogaidd iawn gyda rhieni'r ysgol (ddim ar y safle ar hyn o bryd) (Llantarnam 3)

- Mae nifer o deuluoedd incwm isel yn yr ysgol. Byddai'n syniad da pe bai ffioedd gofal plant yn destun 'prawf modd'. (Panteg 4)
- Rydym wedi cael ceisiadau am Leoliadau Dechrau'n Deg – nid ydym mewn ardal Dechrau'n Deg ond byddem yn croesawu'r cyfle. (Pontnewydd 2)
- Mae rhieni sy'n gweithio yn debygol o fanteisio ar y cynnig, ond gan fod yr ardal yn un ddifreintiedig mae llawer o deuluoedd yn debygol o wneud eu trefniadau eu hunain. (Pontnewydd 3)
- Mae'n bosibl na fyddai'r ddarpariaeth yn cael ei defnyddio (Pen-y-garn a Sant Cadog)

Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion yn awgrymu bod lle i gynnig gofal plant ar rai safleoedd ysgol, gyda'r galw'n dynodi darpariaeth ar ôl ysgol. Byddai modd pennu'r galw am wasanaethau trwy ddadansoddi'r Arolwg Rhieni/Gofalwyr a byddai angen ystyriaeth bellach gan y tîm gofal plant i ganfod a allai gofal plant cynaliadwy fod yn ddichonadwy.

Y Cynnig Gofal Plant i Gymru a Covid-19

Ers yr asesiad diwethaf, cyflwynwyd y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn Nhorfaen yn ystod 2018. Mae llawer o ysgolion sydd â gofal plant ar y safle, gan gynnwys darparwyr sy'n darparu gofal cofleidiol oddi ar y safle, yn cyflwyno'r Cynnig i rieni cymwys.

Mae 80% o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg yn ymwybodol o'r Cynnig, ond roedd yr ymatebion yn amrywio, dywedodd rhai ysgolion eu bod yn mynd ati i hyrwyddo'r Cynnig, a sut mae'n helpu rhieni cymwys sy'n gweithio gyda chostau gofal plant. Dywedodd lleiafrif o ysgolion y gallai'r Cynnig fod wedi effeithio ar niferoedd y meithrin (Gogledd Croesyceiliog, Llantarnam 3 a Phontnewynydd) a gallai hyn fod oherwydd nad ydynt yn gallu darparu gwasanaeth cofleidiol ar y safle. Un awgrym gwella gan un ysgol oedd ymestyn y Cynnig i feithrinfeydd y wladwriaeth.

Mae 40% o ysgolion yn credu bod y Cynnig o fudd i rieni sy'n gweithio sy'n mynychu eu hysgol, tra bod 20% yn ansicr.

Yn ystod y pandemig, caeodd nifer o leoliadau gofal plant eu darpariaeth ar safleoedd ysgol oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth Cymru a gofynnwyd i ysgolion a oedd Covid-19 yn effeithio ar y gallu i gael gofal plant ar agor ar eu safleoedd ysgol. Dywedodd 53% o'r ysgolion a ymatebodd fod y pandemig wedi effeithio ar y gallu i gael gofal plant ar safle eu hysgol. Ymhlith y sylwadau cafwyd;

- Cyfyngu ar y gweithredu – effaith debyg i weithgaredd ysgol. Hefyd, rhai problemau staffio oherwydd hunan-ynysu / haint ac ati. (Brynwern)

- Pan oeddem yn gweithredu grwpiau cyswllt llym, nid oedd unrhyw ddarpariaeth - mae hyn wedi ailgydio ynghyd â phopeth arall (Gogledd Croesyceiliog)
- Roedd Clwb Brechwast a Gweithgareddau Allgyrsiol wedi dod i ben. Ond, maen nhw'n mynd rhagddynt unwaith eto. (Panteg 4)
- Mae niferoedd y Clwb Brechwast wedi gostwng i uchafswm o 30. Capiwyd niferoedd yn y 'Clwb Gofal' ar 8 - oherwydd staffio'r Clwb nid oedd modd rhannu'n ddwy swigen. (Aberyschan 1)
- Roeddem yn y broses o sefydlu gwasanaeth gofal plant ar ôl ysgol ar y safle pan ddigwyddodd Covid-19 a chaeodd yr ysgol (Mawrth 2020). Nid yw dal wedi cael ei sefydlu. Hefyd mae ein Clwb Brechwast rhad ac am ddim wedi rhedeg drwy gydol y pandemig (pan agorodd yr ysgol yn llawn ym mis Medi 2020) fodd bynnag mae ein sesiwn adar cynnar ond yn ail-agor ar ôl hanner tymor (Tachwedd 2021) (Fairwater 3).
- Effaith ar ofal plant ar ôl ysgol – nad yw bellach yn cael ei ddarparu mewn darpariaeth Dechrau'n Deg. (Pontnewydd 3)
- Yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn unig (Pontnewydd 2)

Er gwaethaf y sylwadau'n awgrymu bod y pandemig wedi effeithio ar allu gofal plant i weithredu, 27% yn unig o ysgolion sy'n rhagweld y bydd hyn yn parhau i fod yn broblem. Ymhlith y sylwadau cafwyd;

- Mae'n anhysbys. Efallai y bydd llai o angen oherwydd bod mwy o rieni yn gweithio gartref. Fodd bynnag, gall fod yn fwy 'ysbeidiol' oherwydd bod pobl yn gweithio system hybrid o gartref ac yn y swyddfa.
- Mae niferoedd eisoes yn dychwelyd yn agos at y niferoedd cyn y pandemig
- Hoffem i'r Clwb Ar Ôl Ysgol ar y safle ddechrau rhedeg ond mae angen i ni gysylltu â'r darparwr
- Effaith ar ofal plant ar ôl ysgol – nad yw bellach yn cael ei ddarparu mewn darpariaeth Dechrau'n Deg.

Cryfderau ar ôl ymgynghori ag ysgolion

- Mae 73% o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg yn credu ei bod yn fuddiol cael gofal plant wedi'i leoli ar eu safle ysgol, gan awgrymu cyfleoedd i'r ysgol gynyddu niferoedd disgyblion a helpu rhieni sy'n gweithio.
- Mae 80% o'r ysgolion a ymatebodd yn ymwybodol o ofal plant lleol
- Dengys data fod digon o ofal plant yn ardaloedd Coed Eva a Phontnewydd 2 ar gyfer plant oed ysgol
- Gallai darpariaeth ar ôl-ysgol o bosib fod yn ymarferol yn Fairwater 3 a Llantarnam 3 os nodir y galw am wasanaethau trwy ymgynghoriadau eraill.
- Mae cau gofal plant oherwydd Covid-19 yn gwella

- Mae mwyafrif yr ysgolion a ymatebodd yn ymwybodol o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ac yn credu ei fod o fudd i rieni sy'n gweithio
- Byddai modd defnyddio gofod Dechrau'n Deg nas defnyddir ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol os profir bod yna alw (Pontnewydd 3)

Gwendidau ar ôl ymgynghori ag ysgolion

- Amhariad tymor byr i rieni sy'n manteisio ar ofal plant ar safleoedd ysgol oherwydd Covid-19
- Diffyg Gwarchodwyr Plant cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd y fwrdeistref
- Diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gwyliau yng Ngogledd y fwrdeistref
- Diffyg lle ar safleoedd ysgol yn atal cyfleoedd gofal plant ar y safle
- Mae'r data yn dangos bod teuluoedd ar incwm isel yn llai tebygol o ddefnyddio gofal plant oherwydd costau.

18.2 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymgynghori ag aelodau Cynllun y Gymraeg mewn Addysg (WESP) i weld beth yw'r pryderon a'r bylchau o fewn gofal plant. Yn fwy penodol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen hefyd am ystyried barn aelodau ar y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg, ansawdd a hygyrchedd gofal plant cyfrwng Cymraeg, a fforddiadwyedd gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Methodoleg

Anfonwyd copïau o holiadur ar-lein (Atodiad 3) at aelodau WESP yn ystod mis Medi 2021. Fe wnaeth cyfanswm o 3 aelod gymryd rhan. Ymatebodd bob un trwy lenwi'r holiadur eu hunain a'i dychwelyd trwy e-bost.

Rhodddwyd cyfeirnod i bob arolwg, a chafodd ymatebion meintiol eu bwydo i mewn i daenlen i greu tablau. Dadansoddwyd yr ymatebion ansoddol a chawsant eu cofnodi. Dychwelwyd pob holiadur drwy e-bost.

Crynodeb o'r canlyniadau cyfunol

Ffigur 298

Ydych chi n meddwl bod digon o Ofal Plant Cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen i ddiwallu anghenion;			
Rhieni sy'n Gweithio	Ydw	Nac Ydw	Ydw
Rhieni sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant	Ydw	Nac Ydw	Nac Ydw
Aelwydydd di-waith	Ydw	Nac Ydw	Nac Ydw
Teuluoedd ar incwm isel	Ydw	Nac Ydw	Nac Ydw
Rhieni sengl	Ydw	Nac oes	Nac Ydw
Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrif ethnig	Ydw	Nac Ydw	Ansicr
Teuluoedd â phlant sydd ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd	Ydw	Nac Ydw	Nac Ydw
Teuluoedd sy'n siarad Cymraeg	Ydw	Nac Ydw	Ydw

Sylwadau

Rhieni sy'n Gweithio

Mae nifer o Gylchoedd Meithrin a Ti a Fi ar draws y Fwrdeistref. Mae rhai grwpiau yn cynnig gofal llawn amser gan gynnwys clwb brechwast a chlwb cinio

Mae Torfaen wrthi'n datblygu lleoliad gofal plant yn Ysgol Panteg ac un arall ar safle Ysgol Gyfun Gwynllyw. Mae'r mwyafrif o'r Cylchoedd Meithrin wedi'u cofrestru i dderbyn cyllid o'r cynllun sylfaen (cyllid addysg 10 awr yr wythnos) ar gyfer plant 3 a 4 oed.

Mae pob Cylch Meithrin a Ti a Fi yn agored i bob teulu sydd â diddordeb mewn addysg Gymraeg.

Gall pob lleoliad nas cynhelir hefyd gofrestru ar gyfer y cynllun 30 awr yr wythnos am ddim a gynnigir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl i blant o deuluoedd â dau riant sy'n gweithio fynychu am 30 awr yr wythnos am ddim.

Mae angen i Gyngor Torfaen a Llywodraeth Cymru sicrhau bod POB teulu, beth bynnag yw eu cefndir/sefyllfa, yn derbyn addysg blynyddoedd cynnar nes iddynt ddechrau yn y dosbarth derbyn.

Mae angen mwy o leoedd ar draws y wlad

Rhieni sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant

Gall POB riant fanteisio ar y cyllid o'r cynllun sylfaen (cyllid am 10 awr yr wythnos) ar gyfer pob plentyn 3 a 4 oed.

Nid nifer y Grwpiau / Lleoliadau sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yw'r broblem ond yn hytrach y rheolau ariannu.

Ar hyn o bryd, yn anffodus, ni all rhieni sy'n fyfyrwyr elwa ar gynllun 30 awr yr wythnos Llywodraeth Cymru. A yw'n bosibl edrych ar hyn?

Aelwydydd di-waith

Mae'r mwyafrif o'r Cylchoedd Meithrin wedi'u cofrestru i dderbyn cyllid o'r cynllun sylfaen (cyllid addysg 10 awr yr wythnos) ar gyfer plant 3 a 4 oed.

Gall pob lleoliad nas cynhelir hefyd gofrestru ar gyfer y cynllun 30 awr yr wythnos am ddim a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl i blant o deuluoedd â dau riant sy'n gweithio, fynychu am 30 awr yr wythnos am ddim.

Nid nifer y Grwpiau / Lleoliadau sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yw'r broblem ond yn hytrach y rheolau ariannu sy'n gysylltiedig â'r cynllun gofal plant 30 awr.

Ar hyn o bryd, ni all rhieni nad ydynt yn gweithio, fanteisio ar y cynllun gofal plant 30 awr.
MAE ANGEN NEWID HYN AR FRYS

Teuluoedd ar incwm isel

Gall POB rhiant fanteisio ar y cyllid o'r cynllun sylfaen (cyllid am 10 awr yr wythnos) ar gyfer pob plentyn 3 a 4 oed.

Nid y raddfa gyflog sy'n penderfynu a all rhieni fanteisio ar y cynllun 30 awr yr wythnos sydd gan y Llywodraeth OND nifer yr oriau y maent yn gweithio bob wythnos.

Nid nifer y Grwpiau / Lleoliadau sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yw'r broblem ond yn hytrach y rheolau ariannu.

Hoffwn weld mwy o ddarparwyr Dechrau'n Deg ledled y wlad. Hoffwn weld lleoliad Cymraeg ym mhob ardal lle mae lleoliad Saesneg.

Rhieni sengl

Gall POB rhiant fanteisio ar y cyllid o'r cynllun sylfaen (cyllid am 10 awr yr wythnos) ar gyfer pob plentyn 3 a 4 oed.

Nid y raddfa gyflog sy'n penderfynu a all rhieni fanteisio ar y cynllun 30 awr yr wythnos sydd gan y Llywodraeth OND nifer yr oriau y maent yn gweithio bob wythnos.

Nid nifer y Grwpiau / Lleoliadau sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yw'r broblem ond yn hytrach y rheolau ariannu.

Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig

Mae gan grwpiau cyfrwng Cymraeg bolisi drws agored i groesawu plant o BOB cefndir. Yn ddiweddar, lanswyd ymgyrch farchnata i estyn allan at deuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i'w haddysgu am fanteision addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn y gymuned.

Teuluoedd â phlant sydd ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd

Mae gennym bolisi drws agored ac rydym yn awyddus i groesawu unrhyw blentyn. Mae gan bob Cylch Meithrin, bolisiau cynhwysfawr sy'n eu helpu i groesawu plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau i'r grwpiau os ydynt am fanteisio ar addysg cyn ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir hyfforddiant hefyd i aelodau staff.

Teuluoedd sy'n siarad Cymraeg

Dyma gryfder y Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi. Maent yn croesawu POB teulu sy'n dangos diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg OND maent yn hynod o falch o gael cefnogaeth teuluoedd lle mae un neu'r ddau riant yn siarad Cymraeg. Erbyn hyn, mae cyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg ardal Torfaen yn dechrau magu eu teuluoedd eu hunain ac yn dewis mynychu grwpiau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn profi bod y system yn gweithio. Heb y Cylchoedd Meithrin ni fyddai gan Dorfaen 3 ysgol gynradd Gymraeg lwyddiannus.

Mae Mudiad Meithrin yn wynebu heriau o ran cyflogi staff sy'n siarad Cymraeg. Mae angen cydweithio gydag Ysgol Gyfun Gwynllyw i sicrhau bod disgyblion ar gyrsiau gofal plant yn ymwybodol ei bod yn bosibl cael gyrfa yn y sector nas cynhelir ac nid yn y sector statudol yn unig.

Gofynnwyd i aelodau WESP adrodd ar awgrymiadau i wella gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen. Ymhlith yr awgrymiadau cafwyd gofal plant hyblyg a fforddiadwy a gofal plant sydd ar gael ar wahanol amseroedd ee cyn 7am, rhwng 7am – 8am a 4pm–6pm, a gofal plant yn agosach at y cartref ac yn nes at ysgol y plentyn. Cylch Meithrin oedd yr unig awgrym o ran gwella mynediad i wahanol fathau o ofal plant. Ni nodwyd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella gofal plant cyfrwng Cymraeg sy'n diwallu anghenion dysgu ychwanegol neu anabled plentyn.

Sylwadau - Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw beth o'i le ar yr ystod eang o ofal plant sydd ar gael i deuluoedd yn Nhorfaen. Mae Cylchoedd Meithrin YN hyblyg o ran oriau agor, maent wedi eu lleoli yn y Gymuned yn aml yn agos at gludiant cyhoeddus, maent yn cynnig gofal plant cyn ysgol o safon ac maent yn gweithio'n agos iawn gyda theuluoedd.

Mae gan aelodau WESP rai pryderon ynghylch y farchnad gofal plant nawr ac yn y dyfodol. Mynegwyd pryderon ynghylch gofal plant lleol, yn benodol mewn perthynas â chael mynediad i leoliadau Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg. Dywedwyd y byddai angen i rai teuluoedd deithio i fynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg, er bod lleoliad Saesneg yn lleol iddynt. Roedd pryderon eraill yn nodi'r angen i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â lleoliadau nas cynhelir wrth ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ac ehangu lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd mewn ysgolion.

Nodwyd ymhellach bod mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg yn bryder a godwyd gan deuluoedd tra'n defnyddio lleoliad Dechrau'n Deg. Yn ogystal â hyn, adroddodd aelodau WESP ymhellach fod teuluoedd wedi codi pryderon ynghylch dod o hyd i wybodaeth am leoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir, a'r diffyg mynediad i'r wybodaeth hon ar yr un pryd â lleoliadau statudol wrth gysylltu â'r cyngor, sy'n dangos bod diffyg tegwch rhwng dewis addysg cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Ystyrir hefyd nad yw gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn hawdd i'w defnyddio, er bod tudalen bwrpasol ar gyfer y Gymraeg ar y

brif wefan. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd yn darparu enw pob lleoliad cyfrwng Cymraeg nas cynhelir pan fydd teulu'n gofyn am wybodaeth am bob lleoliad addysg.

Effaith Covid – Mae'n galonogol bod aelodau WESP wedi adrodd nad yw Covid-19 wedi codi pryderon gan deuluoedd wrth ddefnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg. Ystyriwyd bod teuluoedd yn werthfawrogol iawn pan rhoddwyd caniatâd i leoliadau ail-agor a'u bod yn hapus gyda'r holl addasiadau y bu'n rhaid i'r lleoliad eu gwneud i gadw pawb yn ddiogel. Dywedwyd bod y gefnogaeth gan deuluoedd wedi bod yn anhygoel.

Y Cynnig Gofal Plant i Gymru – Mae holl aelodau WESP a ymatebodd i'r arolwg yn gwybod am y Cynnig Gofal Plant i Gymru, gyda dros 60% yn cytuno bod y Cynnig wedi galluogi teuluoedd sy'n gweithio i gael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg. Dywedodd yr aelodau hefyd fod rhai Cylchoedd Meithrin yn cynnig Gofal Dydd Llawn fel bod rhieni'n gallu cael mynediad at gyllid am 30 awr gyfan mewn un lleoliad, felly dylid eu hysbysu am bob lleoliad cyfrwng Cymraeg nas cynhelir er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau.

Cryfderau

- Gall fod digon o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Dim effaith negyddol gan Covid-19 ar leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg

Gwendidau

- Diffyg darpariaeth Dechrau'n Deg lleol trwy gyfrwng y Gymraeg
- Ystyrir bod mynediad at yr holl wybodaeth cyfrwng Cymraeg yn annigonol
- Nid yw lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael eu hyrwyddo'n gyfartal ar draws yr Awdurdod Lleol

18.3 Ymgynghori â Chyflogwyr

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymgynghori â chyflogwyr i weld beth yw'r pryderon a'r bylchau o fewn gofal plant a allai effeithio ar eu mudiad mewn ffordd bositif neu negyddol. Yn fwy penodol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen am ystyried barn cyflogwyr ar y galw am ofal plant, ansawdd a hygyrchedd gofal plant, a fforddiadwyedd gofal plant.

Ceisiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen hefyd adnabod buddion i weithwyr, fel trefniadau gweithio hyblyg a'r defnydd o fuddion sy'n gysylltiedig â gofal plant fel Talebau Gofal Plant a Chredydau Treth Gwaith. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen sydd wedi coladu'r dadansoddiadau isod ac wedi adrodd amdanynt.

Methodoleg

Ymgynghorwyd â Tîm Economi, Menter ac Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen trwy e-bost i gysylltu â chyflogwyr yn Nhorfaen trwy eu rhwydwaith busnes. Cysylltwyd hefyd â darparwyr gofal plant lleol trwy e-bost a chynhaliwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar ddechrau mis Tachwedd 2021.

Crëwyd arolwg ar-lein gan Uned Cefnogi'r Gwasanaethau Cyhoeddus (UCGC) a'i ddsbarthu drwy'r Tîm Economi, Mentergarwch ac Amgylchedd. Anfonwyd holiaduron ychwanegol hefyd at aelodau Tîm Cyflogadwyedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Busnes Cymru (Atodiad 4).

Hyrwyddwyd yr holiadur i gyflogwyr yn ddwyieithog ar-lein ar

<https://www.southwalesbusiness.co.uk/en/Welcome-Zone/News/2021/October/Are-you-an-employer-in-Torfaen-Please-complete-the-20212022-Childcare-Sufficiency-Assessment.aspx>

<https://www.southwalesbusiness.co.uk/cy/Welcome-Zone/News/2021/October/Are-you-an-employer-in-Torfaen-Please-complete-the-20212022-Childcare-Sufficiency-Assessment.aspx>

Ar y cyfan, cafwyd ymateb gan 7 mudiad. Ymatebodd bob un trwy lenwi'r holiadur eu hunain ar lein.

Gwahanwyd yr ymatebion yn ôl categorïau maint. Nodwyd maint y sefydliadau yn ôl nifer y gweithwyr yn y busnes. Roedd y rhain yn cynnwys;

Sefydliadau bach (yn cyflogi 20 neu lai o weithwyr)

Sefydliadau canolig (yn cyflogi 21 - 50 o weithwyr)

Sefydliadau mawr (yn cyflogi 50+ o weithwyr)

Cyfeiriwyd pob arolwg a chafodd yr ymatebion meintiol eu bwydo i daenlen a chrëwyd tablau yn ôl maint a lleoliad Daearyddol. Dadansoddwyd yr ymatebion ansoddol a chawsant eu cofnodi.

Cofnodwyd a dadansoddwyd yr ymatebion ymhellach i dynnu sylw at gyflogwyr yn y Sector Preifat, y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector.

Roedd 7 o'r cyflogwyr a gymerodd rhan yn yr arolwg o'r Sector Preifat (2 sefydliad bach, 1 canolig ac 1 mawr), 3 o'r Trydydd Sector (2 sefydliad bach ac 1 mawr). Ni chafwyd ymateb gan y Sector Cyhoeddus.

Lleoliad Daearyddol

Datgelodd dosbarthiad daearyddol ymhlith yr ymgynghoriad â chyflogwyr fod yr holl fusnesau bach (4) wedi'u lleoli'n gyfartal o fewn ardal Cwmbrân (Llantarnam 3 a Chwmbrân Uchaf 1) ac ardal Pont-y-pŵl (Pont-y-pŵl ac Abersychan). Roedd y busnes mwyaf a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd wedi ei leoli yn ardal Cwmbrân (Pontnewydd 1). Roedd 1 busnes canolig a gymerodd ran yn yr arolwg yn ardal Blaenafon (Blaenafon 3).

Mae Ffigur 299 yn dangos nifer y cyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg yn ôl ardaloedd daearyddol AGEI.

Ffigur 299

Maint y Sefydliad	AGEI	Math o Sefydliad
mawr	Pontnewydd 1	Preifat
bach	Llantarnam 3	Preifat
canolig	Blaenafon 3	Trydydd Sector
canolig	Y Dafarn Newydd 4	Preifat
bach	Cwmbrân Uchaf 1	Preifat
bach	Pont-y-pŵl	Trydydd Sector
bach	Abersychan 5	Trydydd Sector

Mae'r holl gyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg yn adrodd bod dros 50% o'r staff y maent yn eu cyflogi yn byw yn Nhorfaen.

Mae canrannau uwch o weithwyr sy'n byw yn Nhorfaen (rhwng 81-100%) yn gweithio yn Y Dafarn Newydd 4 (cyflogwyr canolig, preifat), Blaenafon 3 (trydydd sector, cyflogwr canolig), Pont-y-pŵl (sector bach, trydydd sector), Cwmbrân Uchaf 1 (bach, preifat) ac Abersychan 5 (bach, trydydd sector).

Mae pob cyflogwr a ymatebodd i'r arolwg yn cynnig nifer o drefniadau gweithio hyblyg i weithwyr.

Cynigir y prif drefniadau gweithio hyblyg gan bob cyflogwr;

- Oriau rhan amser (100%)
- Oriau yn ystod y tymor/ysgol (57%)
- Oriau gostyngedig dros dro (43%)
- Dychwelyd i'r gwaith yn raddol (29%)
- Rhannu swydd (29%)

Mae Ffigur 300 yn dangos nifer y trefniadau gweithio hyblyg fesul sector, maint sefydliad ac ardal AGEI

Maint y Sefydliad	AGEI	C7: Ydych chi'n cynnig unrhyw rhai o'r trefniadau gweithio hyblyg canlynol?
Mawr	Pontnewydd 1	"Rhan-amser", "Dychwelyd i'r gwaith yn raddol", "Llai o oriau dros dro"
Bach	Llantarnam 3	"Rhan-amser", "Amser hyblyg", "Llai o oriau dros dro"
Canolig	Blaenafon 3	"Rhan-amser", "Gweithio oriau blynyddol" "Gweithio oriau cywasgedig" "Rhannu swydd" "Oriau yn ystod y tymor/ysgol"
Canolig	Y Dafarn Newydd 4	"Rhan amser" , Rhannu swydd"
Bach	Cwibrân Uchaf 1	"Rhan-amser", "Oriau yn ystod y tymor/ysgol"
Bach	Pont-y-pŵl	"Rhan-amser", "Dychwelyd i'r gwaith yn raddol", "Arall" ,"Gweithio llai o amser yn wirfoddol",

		"Oriaiau yn ystod y tymor/ysgol" "Seibiant gyrfa", "Llai o oriau dros dro"
Bach	Abersychan 5	"Rhan-amser", "Oriaiau yn ystod y tymor/ysgol"

Effaith Covid

Dywedodd 86% o gyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg nad ydynt wedi gweld newid yn y ffordd y mae gweithwyr yn defnyddio trefniadau gweithio hyblyg.

Dywedodd un cyflogwr bach ei fod wedi gweld newid yn y ffordd y mae gweithwyr yn defnyddio trefniadau gweithio hyblyg. Roedd hyn oherwydd bod y busnes wedi ailagor yn ystod mis Mehefin 2020 ond ar lai o oriau. Fe wnaeth y staff ostwng eu hwythnos waith a gostyngwyd y cyflog i 80%. Ailddechreuodd yr oriau arferol ar ddiwedd mis Hydref 2020 a chynyddodd cyflogau staff yn ôl i 100%.

Yn ystod y pandemig cyflwynodd y Llywodraeth Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafirws (CJRS). Roedd y cynllun yn caniatáu i weithwyr gael 80% o'u cyflog presennol am oriau na weithiwyd, hyd at uchafswm o £2,500. Cafodd y cynllun ei ymestyn o Hydref 2020 i Fawrth 2021.

Fe wnaeth pob cyflogwr a ymatebodd i'r arolwg ddefnyddio'r cynllun ffyrlo ar gyfer eu gweithwyr. Roedd nifer y gweithwyr a fanteisiodd ar y cynllun Ffyrlo yn uwch yn ardal Blaenafon 3 (trydydd sector canolig) a Llantarnam 3 (sector preifat bach). 21-40% o weithwyr gyda chyflogwr preifat mawr ym Mhontnewydd 1 yn unig a fanteisiodd ar y cynllun.

Recriwtio a chadw staff

Mae 71% o'r cyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg wedi cael anhawster i gadw gweithwyr neu ddenu gweithwyr newydd. Roedd y rhain yn bennaf mewn busnesau Mawr (sector preifat ym Mhontnewydd1), Canolig (sector preifat yn Y Dafarn Newydd 4) a Busnesau Bach (trydydd sector ym Mlaenafon a'r sector preifat yn Llantarnam 3).

Mae 43% o gyflogwyr yn cytuno bod gofal plant yn gyffredinol wedi bod yn ffactor mawr o ran atal gweithwyr rhag cymryd gwaith neu barhau i weithio yn y sefydliad (Sector preifat canolig yn Y Dafarn Newydd 4, trydydd sector bach ym Mlaenafon a sector preifat bach

yn Llantarnam 3). Yn ogystal â hyn, mae 71% yn cytuno bod gofal plant wedi bod yn ffactor mawr yn eu busnesau yn ystod y pandemig.

Nid yw gofal plant wedi bod yn broblem i gyflogwyr sy'n gweithio yn ardal Abersychan 5 (preifat bach).

Adroddodd pob cyflogwr am eu profiadau gyda gofal plant a sut mae'n effeithio ar gadw neu gyflogi staff. Crynhowyd yr ymatebion isod;

- Roedd yn rhaid i rai aelodau o staff gan gynnwys fi weithio o gartref pan nad oedd y plant yn cael mynediad at yr ysgol/gofal plant
- Caeodd llawer o Feithrinfeydd oherwydd y Pandemig y llynedd a gadawodd llawer o staff y sector
- Mae cost gofal plant, hyd yn oed gyda gostyngiadau staff, yn afrealistig i rai pobl weithio, yn enwedig os oes brodyr a chwiorydd. Yn aml mae staff eisiau oriau ysgol yn unig ac ni allwn ddarparu ar gyfer pawb
- Mae staff yn ei chael yn eithriadol o anodd i gyflenwi dros y 13 wythnos o wyliau ac mae ein sector yn ddiwrnod 10-awr felly yn aml ni allant ddefnyddio darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol. Mae teulu estynedig yn fwy amharod i gael cymorth oherwydd y risgiau y mae'r pandemig wedi'u cyflwyno i'w hiechyd.
- Mae staff yn cyrraedd y gwaith o fewn drwch blewyn gan fod yn rhaid iddynt fynd â'u plant eu hunain i'r ysgol
- Rydym yn hynod ffodus i gyflogi 4 aelod o staff sy'n gweithio hyd at 27 awr yr wythnos. Mae pob un yn aelod o staff sy'n gwasanaethu ers amser maith ac nid oes ganddynt gyfrifoldebau gofal plant, maent i gyd yn iach ac yn ddibynadwy ac ar hyn o bryd nid oes gan yr un ohonynt unrhyw fwriad i adael. Mae gennym 2 aelod o staff cyflenwi a all ddod i mewn os oes angen. Mae'n bosibl y bydd angen i ni ddechrau cynllunio i hysbysebu am a recriwtio staff newydd gan y gallai'r Arweinydd ymddeol o fewn y 10 mlynedd nesaf.

Mae 57% o'r cyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg yn credu bod digon o ddarpariaethau gofal plant yn Nhorfaen i fodloni gofynion eu gweithwyr. Fodd bynnag, mae bron i draean o gyflogwyr yn credu nad oes digon o ofal plant yn Nhorfaen i ddiwallu anghenion eu gweithwyr.

Mae'r prif awgrymiadau ar gyfer gwella gofal plant i wella recriwtio a chadw staff o blith y cyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg yn cynnwys;

- Gofal plant mwy fforddiadwy (86%)
- Gofal plant ar gael ar amserau gwahanol (43%)
- Gofal plant sy'n diwallu anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd fy mhlentyn yn well (43%)
- Cael hyd i wahanol fathau o ofal plant (14%)

Ni nodwyd unrhyw awgrymiadau i greu gwelliannau i ofal plant mewn ardal wahanol, darpariaeth o ansawdd gwell, a mwy o ofal plant Cymraeg / dwyieithog.

Mae gofal plant sydd ei angen ar adegau gwahanol yn cynnwys;

- Rhwng 7 a 8am (67%)
- Cyn 7am (33%)
- Rhwng 4 a 6am (33%)
- Ar ôl 6pm (33%)

Mae cael hyd i wahanol fathau o ofal plant hefyd wedi nodi'r angen i ddefnyddio clybiau Cyn ac Ar Ôl Ysgol. Ni ddewiswyd unrhyw fath o ofal plant arall.

Nid yw awgrymiadau gwella wedi'u crynhoi o ran lleoliad gan na ellir cymryd bod yr angen am ofal plant o fewn lleoliad y busnes. Er bod cyflogwyr yn adrodd bod mwyafrif eu gweithwyr yn byw yn Nhorfaen, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y galw wedi'i leoli yn y man lle maent yn gweithio.

Mae 43% o gyflogwyr wedi cael rhai problemau gyda gweithwyr nad ydynt yn parhau yn eu swyddi yn dilyn cyfnod mamolaeth / tadolaeth. Dosbarthwyd y rhain ar draws pob sector a maint ar draws ardal gyfan Torfaen (Blaenafon 3, Y Dafarn Newydd 4 a Llantarnam 3). Nid yw dros hanner y cyflogwyr sy'n weddill, erioed wedi dod ar draws problemau, neu brin iawn yr oeddent wedi gwneud.

Pryderon o ran y dyfodol

Gofynnwyd i bob cyflogwr, a oedd ganddynt unrhyw bryderon am y farchnad gofal plant yn awr neu yn y dyfodol, mae'r ymatebion wedi'u crynhoi isod;

- Os na fydd taliad y Cynnig Gofal Plant i Gymru i Feithrinfeydd yn cael ei gynyddu yn unol â'r cynnydd yn yr isafswm cyflog, bydd llawer o feithrinfeydd yn rhoi'r gorau i gynnig y cynllun 30 awr.
- Pryderon o ran cynaliadwyedd yn y dyfodol
- Rydym yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff cymwysedig sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y sector. Mae staff yn ei chael hi'n anodd gweithio'n llawn amser ac yn gweld bod gweithio'n rhan amser yn rhoi mwy o gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Mae'n mynd yn anoddach cadw ein ffioedd ar lefel sy'n fforddiadwy i'r rhieni.

- Fel darparwr gofal plant cyfrwng Cymraeg, rydym yn ymwybodol bod problem enfawr wrth geisio penodi staff sy'n siarad Cymraeg. Nid oes diben ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg os nad oes staff cymwys sy'n siarad Cymraeg ar gael. Mae angen ymgyrch i annog disgyblion cyfrwng Cymraeg i ystyried gyrfu yn y maes gofal plant. Buaswn yn hapus i dywys grwpiau o gwmpas ein Meithrinfa ac ateb eu cwestiynau cyn iddynt benderfynu ar eu cyrsiau ôl-16.

Buddiannau sy'n gysylltiedig â gofal plant i weithwyr

Un cyflogwr yn unig sydd ddim yn cynnig unrhyw fuddiant sy'n ymwneud â gofal plant i'w weithwyr ar hyn o bryd.

Mae'r prif fathau o fuddiannau sy'n gysylltiedig â gofal plant i weithwyr yn cynnwys;

- Gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant (yn ardaloedd Llantarnam 3, Blaenafon 3, Y Dafarn Newydd 4 a Chwibrân Uchaf 1)
- Gwybodaeth am Gredydau Treth (yn ardaloedd Llantarnam 3, Blaenafon 3, Y Dafarn Newydd 4 a Phont-y-pŵl)
- Meithrinfa ar y safle (yn ardaloedd Llantarnam 3, Blaenafon 3, Y Dafarn Newydd 4 a Phont-y-pŵl)
- Talebau gofal plant (yn ardaloedd Llantarnam 3, Y Dafarn Newydd 4 a Phont-y-pŵl)

Dywedodd cyflogwyr hefyd eu bod wedi darparu'r buddion canlynol yn y gorffennol, ond nad ydynt bellach

- Creche ar y safle
- Cynllun chwarae yn ystod gwyliau ar y safle
- Cymorth ariannol tuag at ofal plant
- Clwb ar ôl ysgol ar y safle

Er bod llawer o weithwyr wedi nodi buddion sy'n gysylltiedig â gofal plant, mae'r nifer sy'n manteisio arnynt yn parhau i fod yn gymharol isel neu ganolig, gydag un cyflogwr yn unig yn nodi bod nifer uchel yn manteisio ar dalebau gofal plant, gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant a chredydau treth yn ardal Y Dafarn Newydd 4.

Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Mae 86% o'r cyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg yn gwybod am y Cynnig Gofal Plant i Gymru ac yn credu bod y Cynnig wedi helpu teuluoedd di-waith sydd â phlant 3-4 oed i gael neu gynyddu eu cyflogaeth.

Roedd y sylwadau'n cynnwys llai o bwysau ar neiniau a theidiau i ddarparu gofal, ac er bod y Cynnig yn helpu rhieni sy'n gweithio, nid yw un cyflogwr yn siŵr a yw teuluoedd di-waith wedi dod o hyd i waith oherwydd na allant fanteisio arno i ddechrau. Awgrymir hefyd bod teuluoedd sy'n dewis peidio â gweithio yn treulio amser gyda'u plant, ac felly nid ydynt angen y gofal plant.

Holwyd i bob cyflogwr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach am ofal plant neu sut y gall Torfaen wella gofal plant. Un cyflogwr yn unig a ymatebodd i'r cwestiwn hwn sydd wedi'i grynhoi isod;

- Yr angen i gynyddu faint o arian a delir i Feithrinfeydd yn unol â'r codiad cyflog blynyddol i staff. Mae meithrinfeydd yn talu 6.5% yn fwy mewn costau staff y flwyddyn ond nid yw'r swm y maent yn ei dderbyn gan awdurdodau lleol yn cynyddu'n gymesur.

Gwendidau

- Cyfradd ymateb isel. Ni ellir ystyried yr wybodaeth a gafwyd fel gwir adlewyrchiad o'r holl gyflogwyr yn Nhorfaen a dylid ei thrin fel gwybodaeth nad yw'n arwyddocaol yn ystadegol.
- Mae 86% o fusnesau yn ymwybodol o wasanaethau gofal plant, felly ni ellir ystyried gwybodaeth am y sector a'r buddion sy'n gysylltiedig â gofal plant yn ystadegol arwyddocaol o ran ymatebion holl gyflogwyr Torfaen.

18.4 Ymgynghori â Thimau Cyflogadwyedd

Methodoleg

Ymgynghorodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen â'r Ganolfan Byd Gwaith, Timau Cyflogadwyedd Torfaen a Chymunedau am Waith a Mwy i ganfod unrhyw rwystrau o ran gofal plant ymhlith y rheiny sy'n chwilio am waith.

Anfonwyd cwestiynau electronig at bob un ohonynt (Atodiad 5) a dychwelwyd mwyafrif yr ymatebion drwy Anogwyr Gwaith. Er iddo ymgeisio droeon, ni allai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gael ymateb cyffredinol gan y Ganolfan Byd Gwaith, dychwelwyd ymateb drwy'r tîm Partneriaeth. Derbyniwyd cyfanswm o 7 ymateb, felly ni ellir cadarnhau bod hyn yn arwyddocaol o farn pob tîm cyflogadwyedd yn Nhorfaen. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen sydd wedi coladu'r dadansoddiad canlynol ac wedi adrodd amdano.

Crynodeb o'r ymgynghoriad gyda'r Ganolfan Byd Gwaith, Tîm Cyflogadwyedd Torfaen a Chymunedau am Waith a Mwy

Ydych chi'n meddwl bod digon o ofal plant yn Nhorfaen i ddiwallu anghenion;

Rhieni sy'n gweithio Oes 1 (14%)

Nac oes 2 (29%)

Ansicr 4 (57%)

Roedd 57% o'r timau cyflogadwyedd a ymatebodd i'r arolwg yn ansicr a oes digon o ofal plant yn Nhorfaen, a chasglwyd y sylwadau canlynol;

- Wrth gefnogi cyfranogwyr i fyd gwaith, rwyf wedi gallu dod o hyd i ddigon o ofal plant.
- Cefais drafferth yn ddiweddar i ddod o hyd i Warchodwr Plant neu unrhyw ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal gyfagos i Ysgol Cwmffrwoer. Mae nifer cyfyngedig o warchodwyr plant neu ddarparwyr gofal plant sy'n cefnogi mamau sy'n gorfod gweithio ar benwythnosau/gyda'r nos ac yn bendant mae bwlch enfawr yn y farchnad ar gyfer oriau anghymdeithasol i famau sy'n gorfod gweithio shifftiau. Ond ansicr a fydd hyn byth yn cael ei ddatrys neu beth yw'r polisi ar gyfer plant sy'n cysgu mewn eiddo Gwarchodwyr Plant
- Mae lleoliadau meithrin da a chyllid ar gael ond mae angen Gwarchodwyr Plant a chymorth cofleidiol ar gyfer meithrinfeydd mewn ysgolion – neu oriau anghymdeithasol.
- Rwyf wedi cael gwybodaeth gymysg gan gyfranogwyr ynglŷn â hyn, mae'r rhan fwyaf yn dweud ei fod yn anfforddiadwy ac mae eraill yn benodol iawn o ran y gofal plant y maent yn ymddiried ynddo ac yn credu sydd orau i'w plant.

- Mae'n ymddangos bod digon ar gyfer y rhai sy'n gweithio oriau ysgol neu oriau swyddfa ond i'r rhai a hoffai fynd i Swyddi Gofal - nid oes darpariaeth sy'n dechrau'n ddigon cynnar.
- Diffyg gofal plant ar gyfer boreau cynnar, gyda'r nos a phenwythnosau

Rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi Oes 2 (29%) Nac oes 2 (29%) Ansicr 3 (43%)

- Pan fyddaf wedi cefnogi cyfranogwyr i fyd gwaith, rwyf wedi gallu dod o hyd i ddigon o ofal plant.
- Fel yr uchod, weithiau mae'n anodd dod o hyd i ddarpariaeth ad hoc gan fod capasiti Gwarchodwyr Plant/darparwyr yn llawn yn barod ac nid ydynt yn gallu cefnogi gyda hanner diwrnod o hyfforddiant neu ddim ond dau ddiwrnod o gymorth.
- Mae lleoliadau meithrin da a chyllid ar gael ond mae angen Gwarchodwyr Plant a chymorth cofleidiol ar gyfer meithrinfeydd mewn ysgolion – neu oriau anghymdeithasol.
- Rwy'n seilio hyn o'r cyfnod cyn y cyfnod clo a covid-19 ac mae tîm Cyflogadwyedd Torfaen ar adegau wedi'i chael yn anodd dod o hyd i leoliad meithrin ar gyfer un neu sawl diwrnod o ofal plant ar hap er mwyn i'r cyfranogwr allu cael mynediad at yr hyfforddiant. Weithiau mae'r darparwr gofal plant yn llawn ac ni all ddarparu lleoliad tymor byr i blentyn. Eto, mae rhai rhieni yn benodol o ran lleoliad oherwydd cludiant yn ogystal ag ymddiried mewn ychydig iawn o ddarparwyr gofal plant.
- I'r rheini sy'n hyfforddi mae yna gymorth. Eto i'r rhai sydd angen gweithio mwy o oriau anghymdeithasol, gall darpariaeth gofal plant fod yn broblem
- Yn aml nid yw darparwyr gofal plant yn teimlo y gallant ystyried lleoliadau gofal plant tymor byr oherwydd yr effaith ar eu cymarebau

Aelwydydd di-waith Oes 3 (43%) Nac oes 1 (14%) Ansicr 3 (43%)

- Buaswn yn dychmygu na fyddai angen unrhyw ofal plant ar aelwydydd di-waith gan y byddai rhieni wrth law i ofalu am eu plentyn eu hunain gan fod ganddynt y gallu a'r amser i wneud hynny.
- Mae lleoliadau meithrin da a chyllid ar gael ond mae angen Gwarchodwyr Plant a chymorth cofleidiol ar gyfer meithrinfeydd mewn ysgolion – neu oriau anghymdeithasol.
- Ydw, credaf fod y ddarpariaeth bresennol ar gyfer plant 2 oed a hŷn yn ddigon
- Gall costau gofal plant mawr, ymlaen llaw atal rhieni di-waith rhag defnyddio gofal plant

Teuluoedd ar Incwm Isel Oes 2 (29%) Nac Oes 2 (29%) Ansicr 3 (43%)

- Mae'r cyllid gofal plant i gefnogi pobl i ddechrau ym myd gwaith yn ymddangos braidd yn llym gyda disgwyl i deuluoedd ddod o hyd i gost y mis cyntaf ymlaen llaw. Nid yw'n ymddangos yn realistig nac yn ymarferol ac mae'n atal teuluoedd ar incwm isel rhag dechrau gweithio gan eu bod ar ei hôl yn syth ac weithiau mae'r taliad cychwynnol cyntaf yn fygythiol a modd o fynd i ddyled.
- Mae lleoliadau meithrin da a chyllid ar gael ond mae angen Gwarchodwyr Plant a chymorth cofleidiol ar gyfer meithrinfeydd mewn ysgolion – neu oriau anghymdeithasol.
- I'r rhai ar incwm isel mae yna ddarpariaeth a chefnogaeth gyda chostau
- Gall costau gofal plant mawr, ymlaen llaw atal rhieni di-waith rhag defnyddio gofal plant

Rhieni sengl Oes 2(29%) Nac oes 2 (29%) Ansicr 3 (43%)

- Fel y nodwyd yn y ddau flwch sylwadau uchod, mae'r un materion yn dod i'r amlwg.
- Cynnig gofal plant da i rieni sengl yn ogystal â pharau sy'n gweithio – ond eto mae'r opsiynau Gwarchodwyr Plant yn gyfyngedig
- Mae'n dibynnu ar sefyllfa'r rhiant ac a yw'n gallu fforddio hyn, y rheswm pam eu bod yn rhiant sengl – efallai bod angen cymorth gan gymorth i fenywod – yn yr achos hwn, weithiau nid yw gofal plant yn opsiwn.
- Gall costau gofal plant mawr, ymlaen llaw atal rhieni di-waith rhag defnyddio gofal plant

Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig Oes 1 (14%) Nac oes 1 (14%) Ansicr 5 (71%)

- Nid wyf eto wedi darparu cefnogaeth i deuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd angen cymorth gyda gofal plant oherwydd y ddemograffeg – rwy'n cefnogi'r rhai yng Ngogledd y Fwrdeistref.
- Nid wyf erioed wedi gorfod cefnogi teulu/plentyn o leiafrifoedd ethnig.
- Fel y nodwyd yn y ddau flwch sylwadau uchod, mae'r un materion yn amlwg.
- Nid wyf wedi dod ar draws unrhyw broblemau gyda hyn fy hun
- Gall costau gofal plant mawr, ymlaen llaw atal rhieni di-waith rhag defnyddio gofal plant

Teuluoedd â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd. Oes 1 (14%) Nac oes 1 (14%)

Ansicr 5 (71%)

- Nid wyf eto wedi darparu cefnogaeth i deuluoedd sydd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, sydd angen cymorth gofal plant.
- Nid wyf wedi darparu cefnogaeth i blentyn gydag ADY neu anabledd.
- Daw ffydd i mewn i hyn, a hefyd a fydd y plentyn yn ymgartrefu yn y lleoliad gofal plant. Rwyf wedi cael ychydig o rieni sydd wedi nodi mai hwn yw eu rhwystr mwyaf i ddod o hyd i rywun sy'n gallu rheoli anghenion eu plentyn. Gall euogrwydd rhiant ddod i mewn i hyn hefyd ynglŷn â gadael eu plentyn gyda dieithryn nad yw'n gwybod yn iawn beth yw anghenion eu plentyn ac a fyddai eu plentyn yn cael yr un safon o ofal ag y byddai gyda'r rhiant.
- Crownbridge ac Ysgol Gyfun Fairwater yw'r unig rhai yr wyf yn ymwybodol ohonynt ac nid wyf yn sicr a yw'r ddarpariaeth hon yn ddigon i Dorfaen
- gall hyn yn aml fod yn anodd cael hyd iddo

Cyfrwng Cymraeg Oes 3 (43%)

Nac oes

Ansicr 4 (57%)

- Nid wyf eto wedi darparu cefnogaeth i deuluoedd cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion gofal plant.
- Fel yr uchod
- Dewis da yn Nhorfaen
- Ansicr gan nad ydw i erioed wedi cefnogi unrhyw deuluoedd cyfrwng Cymraeg.
- Mae hyn wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ond nid oedd fy merch yn gallu dechrau yn nhymor y Pasg oherwydd nad oedd digon o ddarpariaeth feithrin ar gael. Nid wyf yn siŵr a yw hyn wedi gwella

Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Mae pob tîm cyflogadwyedd a ymatebodd i'r arolwg yn ymwybodol o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru. Fe wnaeth un aelod dynnu sylw hefyd at y ffaith ei fod wedi derbyn hyfforddiant ar y Cynnig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae 86% o'r holl ymatebwyr yn credu bod y Cynnig wedi helpu teuluoedd di-waith gyda phlant 3 – 4 oed i gael gwaith. Ymhlith y sylwadau cafwyd;

- Ydw, rwyf wedi cael profiad o gefnogi cyfranogwyr sydd wedi elwa ar y Cynnig Gofal Plant i Gymru sydd â phlant yn yr ystod oedran honno.
- Fodd bynnag, rwyf wedi tystio i un rhiant sengl a aeth i mewn i'r gwaith ac roedd problem lle nad oedd y cyflogwr wedi cwblhau'r gwaith papur yn gywir neu o fewn yr amserlen gywir ac roedd gan y fam bryd hynny ddyled o £500.00 pan nad oedd yn ymwybodol o hyn o gwbl, ac roedd hi'n meddwl bod y gefnogaeth wedi ei drefnu. Hefyd, unwaith eto gall mater o daliad mis cyntaf fod yn broblem.
- Rwyf wedi cefnogi 2 riant unigol di-waith i ddechrau gweithio a gwneud cais am y cynnig gofal plant
- Mae wedi rhoi'r seibiant sydd ei angen ar deuluoedd i fynd ati i gael cyfleoedd gwaith. Fodd bynnag, yn fy rôl bresennol rwyf wedi cyfarfod â rhai teuluoedd sy'n defnyddio hyn fel seibiant o fywyd bob dydd rhiant prysur.
- Gall y cyfnod o ddeg diwrnod ar gadarnhau cymhwysedd yn dilyn y cais achosi problemau pan fydd rhiant yn dechrau gweithio.

Cynllun Gofal Plant Di-dreth

Roedd Timau Cyflogadwyedd wedi'u rhannu o ran eu gwybodaeth am Ofal Plant Di-dreth gan fod 43% yn gwybod am y cynllun ac nid oedd 43% yn gwybod. Ymhlith y sylwadau cafwyd;

- Na, nid oeddwn yn ymwybodol o Ofal Plant Di-dreth. Rydw i wedi chwilio am hyn ar Google a byddaf yn neilltuo peth amser i ddysgu mwy ac ymgyswrtio ag ef.
- Newydd ddefnyddio Google i ddarllen am hyn, gan fy mod siŵr o fod wedi anghofio amdano, felly newydd ei ddwyn at fy sylw. Diolch
- Gwn am gynlluniau talebau gofal plant ond nid unrhyw beth arall
- Dysgais am hyn trwy fy ngwaith. Nid wyf yn siŵr a oes digon o wybodaeth am hyn ar gyfer pobl ddi-waith.

Rhwystro rhag defnyddio gofal plant

Gofynnwyd i bob tîm cyflogadwyedd beth oedd y prif rwystrau yn eu barn hwy rhag defnyddio gofal plant yn Nhorfaen. Roedd y rhesymau pennaf yn cynnwys;

- Nid yw'r rhieni rwy'n dod ar eu traws yn siŵr sut i gael y Cynnig Gofal Plant. Hefyd, maen nhw weithiau'n dweud nad ydyn nhw eto'n teimlo'n gyfforddus i adael eu plentyn.

- Cyfyngiadau'r darparwyr gofal plant mewn ardaloedd lleol, diffyg gallu'r darparwyr gofal plant i ddarparu llwybr mwy hygyrch gan nad ydynt bob amser yn codi o Ysgolion penodol, plant y tu allan i'w cylch gorchwyl. Mae'r taliad ymlaen llaw yn broblem enfawr. Hyblygrwydd o ran yr oriau, nid oes digon o warchodwyr plant sy'n cynnig cefnogaeth ar benwythnosau, gyda'r nos, dechrau'n gynnar, gwyliau banc ac ati
- Diffyg Gwarchodwyr Plant
- Pobl yn gallu fforddio'r gost ymlaen llaw, a Chanolfannau Gwaith ddim yn gynorthwyol o ran defnyddio'r CCH. Mae'n cymryd gormod o amser
- Cost, argaeledd a ffydd.
- I'r rhai sy'n ddi-waith, y prif rwystr yw talu ymlaen llaw cyn i chi ddechrau gweithio ac aros i gael ad-daliad. Rwy'n credu bod hyn yn digalonni llawer o bobl ac mae'n well ganddyn nhw aros nes bod y plant yn dechrau'r ysgol. Nid oes digon o wybodaeth iddynt am y cymorth ychwanegol sydd ar gael drwy brosiectau.
- Costau gofal plant ymlaen llaw, pryder o ran gadael plant

Effaith Covid 19

Gofynnwyd i dimau cyflogadwyedd a oedd rhieni wedi codi unrhyw bryderon wrth ddefnyddio gofal plant/gwaith yn ystod y pandemig parhaus. Crynhowyd yr ymatebion isod;

- Mae rhai pobl yn dal i bryderu am y risg o ddal Covid.
- Os na all plentyn ddefnyddio gofal plant oherwydd salwch, y rhiant sy'n cael trafferth cael amser i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am y plentyn.
- Roedd gofal plant yn broblem enfawr i bawb yn ystod y pandemig. Bu'n rhaid i lawer o bobl roi'r gorau i weithio gan fod yn rhaid iddynt aros adref gyda'r plant. Ychydig iawn oedd yn gymwys ar gyfer darpariaeth y gweithiwr rheng flaen.
- Mae'r gallu i gynnal swydd os na all plentyn/plant fynychu darpariaeth gofal plant oherwydd symptomau C19 yn broblem

Argaeledd, ystod, ac awgrymiadau i wella gofal plant

Mae Ffigur 301 yn manylu ar sut y mae timau cyflogadwyedd a ymatebodd i'r arolwg yn sgorio gofal plant yn Nhorfaen.

Ffigur 301 Sgorio'r ddarpariaeth gofal plant yn Nhorfaen, yn ôl timau cyflogadwyedd

	Gwael lawn	Gwael	Boddhaol	Da	Rhagorol	Ddim yn gwybod
Ansawdd y Ddarpariaeth	-	-	-	(43%)	(43%)	(14%)
Y dewis o ddarparwyr	-	(14%)	(14%)	(57%)	-	(14%)
Nifer y Lleoedd	-	-	(14%)	(29%)	(29%)	(29%)
Fforddiadwyedd	-	(29%)	(29%)	(29%)	-	(14%)
Hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r sesiynau	(14%)	(14%)	(29%)	-	(14%)	(39%)
Addasrwydd o ran amserau agor	(14%)	(14%)	(43%)	-	(29%)	-
Lleoliad a hygyrchedd y gofal plant	(14%)	-	(14%)	(43%)	(29%)	(1%)
Darpariaeth Ddwyeithog/Gymraeg	-	-	1 (14%)	-	1 (14%)	4 (57%)

*Sylwch na all lefelau isel o ymatebwyr gadarnhau'n ystadegol mai awgrymiadau gwella yw'r rhain ar gyfer Torfaen

Mae'n galonogol bod 86% o dimau cyflogadwyedd yn credu bod ansawdd gofal plant yn Nhorfaen naill ai'n dda neu'n rhagorol. Mae nodweddion eraill sydd â sgôr uwch yn Nhorfaen yn cynnwys:

- Y dewis o ddarparwyr
- Lleoliad a Hygyrchedd gofal plant
- Nifer y lleoedd sydd ar gael

Mae'r hyn a nodir o ran gwella gofal plant yn cynnwys:

- Gofal plant fforddiadwy
- Hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r sesiynau

- Addasrwydd amserau agor

Pa welliannau, os o gwbl, ellir eu gwneud i Ofal Plant yn Nhorfaen?

- Camu'n haws rhwng y gwaith papur sy'n cael ei gyflwyno i Flaenau Gwent (ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru) a chydabod gwaith papur gyda chadarnhad a chyfnod pan fydd y cleient yn cael gwybod pryd y byddai penderfyniad yn cael ei wneud neu, cael amserlen/terfyn amser. Mae hyn weithiau'n broblem pan fydd pobl yn cyflwyno'r cais am arian ac mae teuluoedd wedi dweud eu bod yn cael trafferth cysylltu neu wybod a yw'r broses yn mynd rhagddi. Ansicr, ar yr hyn y gellir ei wneud yn gyffredinol i wella gofal plant ar wahân i ddarparu oriau sifft, penwythnosau, gwyliau banc a chyfleoedd i aros dros nos. Cynyddu nifer y darparwyr gofal plant/Gwarchodwyr Plant hefyd.
- Gwarchodwyr Plant
- Gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy i bawb
- Darparu ar gyfer y rhai sydd eisiau gweithio yn y maes Gofal. Dechrau'n gynnar a gorffen yn hwyr.
- Mwy o leoliadau sy'n cynnig gofal plant hyblyg i weithwyr shifft a gweithwyr y mae eu horiau'n amrywio

Defnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Gofynnwyd i dimau cyflogadwyedd a ydynt yn defnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gael hyd i opsiynau gofal plant ar gyfer eu cleientiaid. Ymhlith y sylwadau cafwyd;

- Bob amser, mae hwn yn adnodd gwerthfawr ac mae staff yn anhygoel ac o hyd yn barod i helpu, pan fydd yna anhawster o ran dod o hyd i Warchodwr Plant a/neu ddarpariaeth addas, mae staff bob amser wrth law i gysylltu â Gwarchodwyr Plant ac anfon e-byst neu i gynorthwyo.
- Bob amser yn gymwynasgar a phrydlon iawn
- Rwyf wedi gwneud ambell waith yn y gorffennol, ond nid oes gwir angen gwneud hynny nawr.
- Rwyf yn barod iawn i ddefnyddio'r GGiD – fel arfer rwy'n rhoi eich rhif cyswllt i'r cyfranogwr ei ffonio a thrafod hyn ymhellach gan fod ganddynt lawer o gwestiynau i'w trafod am eu hanghenion gofal plant ar y pryd.
- Maent wedi bod yn gynorthwyol iawn yn fy mhrofiad i
- Sicrheir bod pob hyfforddwr gwaith yn ymwybodol o wasanaethau'r GGiD wrth gefnogi eu cwsmeriaid i gael hyd i ofal plant addas yn lleol

18.5 Ymgynghori â Sefydliadau Ambarél

Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r canfyddiadau o'r ymgynghoriad â Mudiadau Gofal Plant Ambarél Cenedlaethol sydd wedi'u lleoli yn Nhorfaen.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ceisio ymgynghori â mudiadau ambarél cenedlaethol i gasglu barn a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol ynghylch gofal plant a sut y gellir mynd ati i wella gofal plant yn Nhorfaen. Yn fwy penodol, er mwyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen geisio barn mudiadau ambarél ar ofal plant, ansawdd a hygyrchedd gofal plant a fforddiadwyedd gofal plant.

Methodoleg:

Roedd y pum mudiad gofal plant ambarél cenedlaethol yr ymgynghorwyd â hwy trwy e-bost yn ystod mis Tachwedd 2021 yn cynnwys:

- Blynyddoedd Cynnar Cymru Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru (WPPA) gynt
- Pacey Cymru
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCCKC)
- Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol (NDNA)
- Mudiad Meithrin (MM)

Anfonwyd holiadur electronig (Atodiad 6) at bob mudiad ambarél ar ran Tîm y Blynyddoedd Cynnar.

Tynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar Fudiadau Ambarél sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor ar hyn o bryd. Mae rhai o'r rhanddeiliaid yn gweithio ar draws yr awdurdod a thu hwnt a theimlai rai yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallent ei gyfrannu, ac felly roedd rhai o'r ymatebion wedi darparu mwy o wybodaeth nag eraill. Mae'r dadansoddiad canlynol yn seiliedig ar ymatebion 5 mudiad ambarél a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Canlyniadau'r Ymgynghoriad – Y Farchnad Gofal Plant

Gofynnwyd i fudiadau ambarél sgorio'r farchnad gofal plant ar hyn o bryd, mewn perthynas â nifer o feysydd gan gynnwys; ansawdd y ddarpariaeth, amrediad y ddarpariaeth, nifer o leoedd, fforddiadwyedd, hyblygrwydd, amserau agor, lleoliad a darpariaeth Ddwyieithog/Gymraeg.

Gofynnwyd i randdeiliaid ddisgrifio'r hyn yr oedden nhw'n ei feddwl am y farchnad gofal plant ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gan eu bod yn cefnogi mathau penodol o ofal plant teimlwyd na fyddai'n briodol cynnig sylwadau gan nad yw hyn yn dod o fewn eu cylch gwaith penodol o ran cymorth. Felly, mae Ffigur 302 yn dangos crynodeb o'r farn am y farchnad gofal plant.

Ffigur 302 Sgoriau'r farchnad gofal plant

	Rhanddeiliad 1	Rhanddeiliad 2	Rhanddeiliad 3	Rhanddeiliad 4	Rhanddeiliad 5	Cyfansymiau
Ansawdd y Ddarpariaeth	Ddim yn gwybod	Dim sylw	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	80% ddim yn gwybod
Y dewis o ddarparwyr	Ddim yn gwybod	Dim sylw	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	80% ddim yn gwybod
Nifer y Lleoedd	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Gwael	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	80% ddim yn gwybod 20% gwael
Fforddiadwyedd	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	100% ddim yn gwybod
Hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r sesiynau	Ddim yn gwybod	Dim sylw	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	80% ddim yn gwybod
Addasrwydd o ran amserau agor	Ddim yn gwybod	Dim sylw	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	80% ddim yn gwybod
Lleoliad a hygyrchedd gofal plant	Ddim yn gwybod	Dim sylw	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	80% ddim yn gwybod
Darpariaeth Ddwyieithog/Gym raeg	Ddim yn gwybod	Dim sylw	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod	80% ddim yn gwybod

Gofynnwyd i randdeiliaid ddisgrifio'r hyn yr oedden nhw'n ei feddwl am y farchnad gofal plant ar hyn o bryd. Mae'r sylwadau wedi eu crynhoi.

Cyfeiriodd un ymatebwr fod partneriaid CWLWM sy'n cefnogi meysydd eraill o ofal plant (e.e. y ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar a Gwarchodwyr Plant) mewn sefyllfa well i wneud sylwadau ar ddigonolrwydd, ansawdd a fforddiadwyedd y mathau hyn o ofal plant yn Nhorfaen.

Fodd bynnag, o ran eu gwybodaeth am y cyfleusterau gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn Nhorfaen dywedasant;

Mae angen gofal plant cofrestredig, cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant oed ysgol. Ar hyn o bryd mae 4 lleoliad cyfrwng Cymraeg y tu allan i oriau ysgol yn y sir, gyda 2 o'r rhain wedi'u cofrestru a 2 heb eu cofrestru. Cefnogi nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru (a gallu teuluoedd i ddewis gofal plant yn eu dewis iaith) gan amlygu maes sydd angen twf. Awgrymwyd y gall cael gofal plant cofrestredig ar safle ysgol fod yn ffactor yn newisiadau rhieni (e.e. wrth ddewis addysg cyfrwng Cymraeg). Lle mae ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu, dylid ystyried gofal plant ar gyfer pob oedran (blynnyddoedd cynnar ac oedran ysgol) o'r cychwyn cyntaf o ran dyluniad adeiladau ac mewn cytundebau rhentu teg a hirdymor.

Fe wnaeth arolwg diweddar a gwblhawyd gan un cyfranogwr ynghylch cynaliadwyedd y ddarpariaeth bresennol, yn enwedig wrth i rieni barhau i weithio gartref.

Mae angen archwilio a oes galw am ofal plant mewn ysgolion nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd gan ddarpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Gall rhieni/gofalwyr fod yn defnyddio opsiynau gofal plant anffurfiol/heb ei reoleiddio ar hyn o bryd os nad oes gofal plant cofrestredig ar gael.

Nid ydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda rhieni ac nid ydym yn casglu'r wybodaeth y gofynnir amdani uchod

Dyweddodd un ymatebwr nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i drafod ansawdd a fforddiadwyedd yr holl fathau o ofal plant sydd ar gael yn Nhorfaen. Gallwn nodi, oherwydd natur ein gwaith, nad oes gan y sir ddigon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ein gweledigaeth yw y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i chwarae, dysgu a thyfu trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, lle bynnag mae plant bach, yna fe ddylai Mudiad Meithrin (ac felly'r Gymraeg) hefyd fod yn bresennol.

Mae angen mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sir gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg i wneud y ddarpariaeth yn gyfleus i deuluoedd ddewis yn gyfartal. Ymhlith y sylwadau cafwyd;

Mae Covid 19 a'r mesurau amddiffynnol a gymerwyd gan feithrinfeydd wedi arwain at ddiffyg incwm sylweddol i lawer o feithrinfeydd ac wedi creu ansicrwydd ynghylch y dyfodol. Mae llawer o leoliadau yn wynebu problemau cynaliadwyedd a fydd yn effeithio ar y lleoedd gofal plant fydd ar gael yn y dyfodol.

Mae recriwtio, yn enwedig staff cymwys, yn broblem fawr i'r sector. Bydd costau staffio uwch, heb os, yn effeithio ar fforddiadwyedd gofal plant i rieni.

Mae pryder y gallai lleoliadau newydd sy'n agor ar safleoedd ysgol, beryglu disodli'r lleoedd gofal plant presennol mewn meithrinfeydd, a bydd hyn yn y pen draw yn arwain at feithrinfeydd yn dod yn anghynaliadwy neu'n faich ariannol mwy ar deuluoedd plant iau/heb eu hariannu.

Roedd un ymatebwr yn cydnabod nad oes ganddo wybodaeth leol fanwl am y farchnad gofal plant gyfan yn Nhorfaen. Fodd bynnag, mae'n bryderus ynghylch y gostyngiad cyffredinol yn nifer y Gwarchodwyr Plant ledled Cymru ac mae wedi adrodd hyn am y pum mlynedd diwethaf. Yn Nhorfaen maent yn credu bod 7 achos o ddadgofrestru wedi bod yn y chwe mis o Ebrill i Fedi 21. Mae hefyd yn bryderus am y nifer isel o gofrestrïadau newydd, 0 yn ystod yr un cyfnod. O Ebrill 21, mae'r sefydliad ambarél wedi bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa a dewis o ran gofal plant i deuluoedd er mwyn cefnogi cynaliadwyedd, niferoedd Gwarchodwyr Plant a'r dewis gofal plant sydd ar gael i rieni.

Awgrymiadau penodol ar gyfer gwella'r ffordd y gallai gofal plant fodloni anghenion y grwpiau hyn yn well.

Gwelliannau i Deuluoedd sy'n Gweithio

Angen sicrhau bod digon o gyfleoedd gofal plant cofrestredig o safon ar gael i bob oed (blynyddoedd cynnar a chyn-ysgol, a gofal sydd ar gael o amgylch y diwrnod ysgol i blant hŷn) ac yn yr iaith o ddewis y plant (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog – ehangu cyfrwng Cymraeg yn arbennig i adlewyrchu'r bwlch o 11% yn y ddarpariaeth a nodwyd gan Arad) i ddiwallu anghenion rhieni a phlant sy'n gweithio.

Ymestyn yr ystod oedran y gall plant gael lle gofal plant a ariennir (e.e. Y Cynnig Gofal Plant i Gymru) – gall costau gofal plant gyfrannu at y tlodi y mae rhai teuluoedd sy'n gweithio yn ei wynebu, ac nid yw anghenion gofal plant wedi'u cyfyngu i'r ystod oedran 3-4. Mae Gofal Plant Di-dreth (sydd angen ei hyrwyddo'n well ynddo'i hun i sicrhau bod y teuluoedd hynny sy'n gymwys yn ei ddefnyddio) yn cael effaith gadarnhaol ar fforddiadwyedd gofal plant, ond gall y cydbwysedd sy'n weddill greu pwysau ariannol ar deuluoedd sy'n gweithio ac atal rhieni/gofalwyr rhag cynyddu eu horiau gwaith, neu gyfleoedd ar gyfer dilyniant yn eu gyrfa.

Yn dilyn Covid-19, mae hefyd yn hanfodol bod y ddarpariaethau gofal plant sy'n parhau ar agor yn cael eu cefnogi i barhau i gynnig gwasanaethau i deuluoedd lleol, a bod digon o gyllid a chymorth i beidio â chodi ffioedd yn ddiangen (a fyddai'n effeithio'n negyddol ar deuluoedd). – mae hyn yn cynnwys cynnal ethos sy'n canolbwyntio ar y gymuned pan fydd ysgolion/adeiladau cymunedol/awdurdodau lleol yn ystyried y rhentu a godir ar ddarparwyr gofal plant.

Er mwyn parhau i alluogi teuluoedd i fod yn economaidd weithgar, mae angen sicrhau bod yna ddigon o ofal plant fforddiadwy ac o safon ym mhob cymuned sydd angen ei ddefnyddio. Mae pob cymuned yn wahanol, ac mae dewis o leoliadau gofal plant sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau hyn yn cefnogi cydlyniant cymunedol (math o wasanaeth, math o iaith, math o reolaeth). Mae nifer y Lleoliadau gwirfoddol dan arweiniad y gymuned wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn, gan effeithio'n arbennig ar ardaloedd gwledig/dan anfantais (lle mae llai o ofal plant ar gael yn barod), gan effeithio'n anghymesur ar deuluoedd incwm isel/gwledig o ran y gallu i ddechrau/aros a symud ymlaen ym myd gwaith (lle mae darpariaeth a reolir yn breifat yn disodli'r lleoliadau hyn, yn aml bydd angen ffioedd uwch i dalu costau).

Gall hygyrchedd a chostau gofal yn ystod gwyliau ysgol yn arbennig, fod yn her i rieni/gofalwyr sy'n gweithio.

Gall mentrau a rhaglenni eraill a ddefnyddir fel gofal plant heb ei reoleiddio fel gwerylloedd chwaraeon, SHEP, Rhaglen Gwyliau Playworks, effeithio ar hyfywedd tymor byr a chynaliadwyedd hirdymor lleoliadau sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn enwedig y rhai sy'n cynnig gofal plant yn ystod y gwyliau, oni bai bod gwasanaethau'n cydweithio wrth gynllunio, ac oni bai bod gofal plant cofrestredig yn cael ei ystyried ar lefel strategol.

Mae angen mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sir gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg.

Mae angen Grŵp Chwarae cyfrwng Cymraeg ymhob ardal i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfleus i deuluoedd ddewis yn gyfartal.

Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn wych i deuluoedd sy'n gweithio 16 awr ond os yw rhiant yn gweithio llai nag 16 awr nid yw'n bosibl cael yr help. Mae hyn yn rhwystredig i rieni sydd mewn swyddi lle nad yw'n bosibl gweithio 16 awr.

Sicrhau bod digon o leoedd mewn lleoliadau Gofal Dydd Llawn gan fod y rhain yn diwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio, yn well, a gwneud yn siŵr bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei gyfleu'n effeithiol

Dywedodd un ymatebwr y gall Gwarchodwyr Plant fod mewn sefyllfa dda i ddarparu gofal plant hyblyg o safon i deuluoedd sy'n gweithio oriau annodweddiadol, shifftiau, neu hyd yn oed ddarparu gofal dros nos. Gall Gwarchodwyr Plant ofalu am blant o enedigaeth hyd at 14 oed (neu 16 os oes gan blant anghenion dysgu ychwanegol), yn ogystal â darparu gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal yn ystod y gwyliau, y Cynnig Gofal Plant a darpariaeth Dechrau'n Deg – yn enwedig mewn ardaloedd lle gallai'r galw fod yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael. Gall yr ystod oedran hon a'r mathau o wasanaethau a gynigir o bosibl ddiwallu

anghenion gofal teulu cyfan. Maen nhw hefyd yn credu y gallai Nanis sydd wedi'u cymeradwyo fod yn opsiwn i gefnogi rhai teuluoedd sy'n gweithio gan fod rhieni'n dal i allu cael mynediad at ofal plant Di-dreth.

Rhieni sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant

Archwiliad (gan LIC) i ehangu cynlluniau cymorth ariannol presennol o ran cymhwyster i gynnwys rhieni/gofalwyr sy'n chwilio am waith. Hefyd, archwilio'r ehangiad yn ystodau oedran y plant sy'n gallu defnyddio gofal plant wedi'i ariannu (e.e. y Cynnig Gofal Plant) – nid yw anghenion gofal plant yn dechrau ac yn gorffen o fewn yr ystod oedran 3-4 a gallai byrder y cymorth presennol gyfyngu ar gyfleoedd gwaith i deuluoedd. Gall costau gofal plant oedran ysgol barhau i fod yn rhwystr i rieni/gofalwyr gynyddu oriau gwaith / symud ymlaen mewn gyrfaoedd / dechrau gweithio.

Bydd teuluoedd incwm isel yn gallu cael cymorth i gael gofal plant am ddim os nad ydynt yn byw yn ardal Dechrau'n Deg.

Darparu cymorth ariannol gyda chostau gofal plant am gyfnod cychwynnol pan fydd rhiant yn dechrau cyflogaeth.

Dyweddodd un ymatebwr ei fod yn gweithio mewn partneriaeth â JCP, PaCE, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill i greu diddordeb a chynyddu'r recriwtio i ddod yn Warchodwr Plant, sydd nid yn unig yn darparu opsiynau gofal plant ehangach i deuluoedd yn eu hardal leol ond yn cefnogi pobl yn ôl i fyd gwaith. Maent hefyd wedi cynnal nifer o sesiynau i gyfranogwyr o Dorfaen. Roedd y rhain yn cynnwys;

Cynnal 1 sesiwn wybodaeth i ddysgwyr Childcare Works ym mis Awst 2021. Fe wnaeth 8 myfyriwr gofal plant gymryd rhan.

Cynnal 1 sesiwn ymwybyddiaeth staff ar gyfer Cymunedau am Waith ym mis Hydref 2021 – fe wnaeth 12 mentor gymryd rhan

Aelwydydd di-waith

Sicrhau bod yr holl gymorth ariannol sydd ar gael yn cael ei gyfleu'n effeithiol, yn enwedig o ran Dechrau'n Deg

Teuluoedd ar incwm isel

Mae gweithwyr ar gyflog is yn aml yn gweithio patrymau sifft annodweddiadol, ac felly gall diffyg gofal plant cofrestredig yn ystod yr oriau hyn beri i'r sefyllfa barhau. Mae angen gweithio i ddatblygu, cynnal a hyrwyddo darpariaeth gofal plant sy'n cynnig oriau annodweddiadol.

Bydd cefnogi camau i ddatblygu gofal plant cofrestredig, ac annog cofrestru gofal plant sydd eisoes yn bodoli, hefyd yn cefnogi teuluoedd ar incwm isel trwy sicrhau eu bod yn gallu elwa ar gynlluniau cymorth ariannol (e.e. Gofal Plant Di-dreth/y Cynnig Gofal Plant) lle bo'n gymwys (gyda'r angen hefyd i hyrwyddo cynlluniau cymorth i sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol eu bod ar gael)

Ymchwilio i ehangu cynlluniau cymorth ariannol presennol o ran cymhwysedd ac ystod oedran i sicrhau y gellir cael effaith hirdymor ar gynifer o deuluoedd â phosibl (gweler y nodiadau ychwanegol isod ar y pwynt hwn). Mae rhai cynlluniau presennol yn dibynnu ar feini prawf cymhwysedd penodol (e.e. Dechrau'n Deg sy'n defnyddio cod post i bennu cymhwysedd) sydd felly'n eithrio rhai teuluoedd ar incwm isel a fyddai'n elwa o gyfleoedd o'r fath.

Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn wych i deuluoedd sy'n gweithio 16 awr ond os yw rhiant yn gweithio llai nag 16 awr nid yw'n bosibl cael yr help. Mae hyn yn rhwystredig i rieni sydd mewn swyddi lle nad yw'n bosibl gweithio 16 awr.

Sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hysbysu'n llawn am y mathau o ofal plant a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a chyfathrebu'n effeithiol am y cymorth ariannol sydd ar gael.

Bydd teuluoedd incwm isel yn gallu cael cymorth i gael gofal plant am ddim os nad ydynt yn byw yn ardal Dechrau'n Deg.

Mae un ymatebwr o'r farn y dylai'r Awdurdod Lleol ystyried cyfleoedd i leoliadau gwarchod plant gael mynediad at gyllid ar gyfer Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar os ydynt yn bodloni meini prawf diffiniedig. Maent o'r farn y byddai hyn yn sicrhau cyfleoedd cyfartal ar draws y sector, gan gefnogi cynaliadwyedd lleoliadau gwarchod plant ac ystyried dewis rhieni. Gallai hyn hefyd gefnogi gwell deilliannau i blant trwy ddarparu parhad yn y gofal sy'n bodloni anghenion plant mewn perthynas â llesiant. Maent hefyd yn deall y goblygiadau o ran y gost o ddefnyddio Gwarchodwyr Plant i ddarparu gwasanaethau wedi'u hariannu ond credant y dylai'r deilliannau i blant fod yn ganolog i unrhyw benderfyniadau a wneir.

Rhieni sengl

Mae'n hysbys y gall bywyd teuluol hefyd fod yn heriol i deuluoedd un rhiant, hyd yn oed cyn y pandemig Covid-19. Mae rhieni sengl hefyd yn debygol o ddisgyn i'r categori teuluoedd incwm isel.

Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan un cyfranogwr, cafwyd yr adborth a ganlyn.

'Roedd gweithio i'r GIG fel rhiant sengl wedi golygu newid mawr i'n trefn arferol, rwyf wedi gorfod mynd â nhw gyda mi i bobman, waeth pa mor fawr yw'r ffactorau risg.'

'Mae'r ffaith nad oedd clybiau ysgol ar agor pan aeth ysgolion yn ôl wedi bod yn hunllef fel gweithiwr gofal iechyd. Mae'n rhaid i mi ddechrau gweithio'n gynnar ac mae wedi bod yn rhan anodd o'r flwyddyn ddiwethaf i drefnu i rywun ei chael hi am awr nes bod yr ysgol wedi agor am 8.50 Â minnau'n rhiant sengl roedd hyn yn anodd iawn, mae'n golygu bod rhai aelodau o fy nheulu wedi gorfod cymryd oriau gwyliau bob wythnos gan ei fod yn effeithio ar eu gwaith hefyd .. lle nad oeddem mewn gwirionedd i fod yn cymysgu â chartrefi eraill hefyd doedd gen i ddim dewis'

Yn dilyn Covid-19, mae hefyd yn hanfodol bod y darpariaethau gofal plant sy'n parhau ar agor yn cael eu cefnogi i barhau i gynnig gwasanaethau i deuluoedd lleol, a bod digon o gyllid a chymorth i atal codi ffioedd yn ddiangen (a fyddai'n effeithio'n negyddol ar deuluoedd).

Dyweddod un ymatebwr fod dod yn Warchodwr Plant yn gyfle i ddarparu incwm a gwaith, wrth ddiwallu anghenion gofal plant y teulu ac eraill yn eu cymuned. Ar hyn o bryd maent yn gweithio mewn partneriaeth â JCP, PaCE, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill i gynyddu recriwtio i ddod yn Warchodwr Plant. Mae eu canllaw ar gael mewn copi print ac ar-lein i hyrwyddo Gwarchodwyr Plant fel opsiwn gofal plant nad yw o bosibl yn gyfarwydd i rieni sengl, teuluoedd incwm isel a theuluoedd di-waith.

Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig

Dyweddod un ymatebwr ei bod yn hanfodol bod lleoliadau gofal plant yn cael y gefnogaeth i ddeall a mynd i'r afael â'r Ddeddf Cydraddoldeb Hiliol, o ran arferion recriwtio (sichrau bod y gweithlu'n adlewyrchu amrywiaeth pob cymuned), marchnata (sichrau ei bod yn amlwg bod y lleoliad yn estyn croeso i bob teulu) ac o ran ymarfer – lle mae cyfranogiad grwpiau penodol yn is o ran defnyddio gofal plant, mae'n bwysig ein bod yn canfod pam mae hyn ar lefel leol a chenedlaethol, a gweithio i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau neu rwystrau canfyddedig, a chefnogi lleoliadau i ddarparu gofal sy'n diwallu anghenion pob grŵp yn eu cymunedau.

Y gobaith yw y bydd ADGP yr ALI yn darparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i fyfyrion arni, a yw'r grwpiau hyn yn gallu cael eu cynnwys yn y grwpiau ymchwil a chasglu data/ffocws.

Mae angen hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae i sichrau eu bod yn deall yr heriau y gellir eu hwynebu a sut y gallant fynd ati yn y ffordd orau i gefnogi pob plentyn y maent yn gofalu amdanynt.

Dyweddod un cyfranogwr fod ei sefydliad ambarél wedi bod yn flaenllaw o ran cynnig hyfforddiant mewn ymateb i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Llywodraeth Cymru dros y 18 mis diwethaf. Gan gydnabod yr effaith sylweddol y mae ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn ei chael ar ganfyddiadau a dealltwriaeth plant o'r byd, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi cynnal

cyfres o weithdai i'n helpu ni i gyd i ddeall y trawsnewid o fod yn anhiliol i wrth-hiliaeth, ac i ddeall yr hyn y gallwn ni i gyd ei wneud yn ymarferol i gyfrannu at Gymru wrth-hiliol, boed yn unigolion, addysgwyr, darparwyr gofal plant, a sefydliadau.

Mae'n bwysig bod cyfathrebu clir, er mwyn i bawb ddeall bod croeso iddynt fynychu Cylchoedd Meithrin a fydd yn sicrhau bod y gweithgareddau'n darparu cyfleoedd cyfartal i bob unigolyn beth bynnag eu rhyw, iaith neu anghenion ychwanegol.

Sicrhau cyfathrebu effeithiol mewn gwahanol ieithoedd ac ar draws gwahanol gymunedau.

Mae un ymatebwr yn croesawu'r cyfle i hyrwyddo'r potensial o ddod yn Warchodwr Plant i deuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae eu canllaw ar gael mewn copi print ac ar-lein i hyrwyddo Gwarchodwyr Plant fel opsiwn gofal plant nad yw o bosibl yn gyfarwydd i deuluoedd o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.

Teuluoedd â phlant sydd ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd

Sicrhau bod cyllid ar gael a chymorth i ddatblygu a chynnal darpariaeth i blant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â chyllid a chymorth i sicrhau bod yr holl ddarpariaeth gofal plant yn gallu bod yn gynhwysol a hygyrch (e.e. cyllid ar gyfer cymorth un i un / hyfforddiant ychwanegol i staff).

Hysbysebu'n eang bod teuluoedd yn deall eu bod yn cael pob cyfle i fynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Sicrhau bod teuluoedd yn cael gwybodaeth lawn am eu dewisiadau. Dealltwriaeth lawn a hyfforddiant yn y systemau ADY newydd a'u gofynion ar gyfer darparwyr.

Dywedodd un cyfranogwr nad yw'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd ond yn darparu cymorth i leoliadau i roi'r Ddeddf a'r Cod newydd ar waith

Nododd un ymatebwr ei fod yn croesawu'r system ADY yng Nghymru, sy'n cynnwys darpariaeth i blant o dan oedran ysgol a phob darparwr gofal plant i gael mynediad at wybodaeth gynnar, cyngor ac arweiniad trwy dîm ADY Blynnyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol. Byddent yn croesawu'r cyfle i ddarganfod mwy am sut mae'r cyfnod pontio hwn yn dod yn ei flaen yn lleol ar gyfer Gwarchodwyr Plant.

Yn ogystal, maent hefyd yn credu y gallai Nanis sydd wedi'u cymeradwyo fod yn opsiwn i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio, yn enwedig y teuluoedd hynny â phlant ag anableddau, gan y byddent yn gofalu am blant yn eu cartref eu hunain, a gall rhieni barhau i gael yr elfen Ddi-dreth a thalebau gofal plant cyflogwyr. Gallai hyn sicrhau cyfleoedd cyfartal ar draws y sector ac ystyried dewis rhieni. Gallai hyn hefyd gefnogi gwell deilliannau i blant trwy ddarparu parhad yn y gofal sy'n bodloni anghenion plant mewn

perthynas â llesiant. Mae un ymatebwr yn credu y dylai'r canlyniadau i blant fod wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a wneir, a byddent yn croesawu'r cyfle i weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol i drafod modelau posibl o weithio gyda nanis i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd.

Teuluoedd sy'n siarad Cymraeg

Nododd un ymatebwr fod ei fudiant ambarél yn gweithio gyda'r holl aelodau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hymwreiddio mewn arferion bob dydd yn y lleoliad. Mae eu gwefan hefyd yn cynnwys adnoddau ac offer y gellir eu llwytho i lawr sydd wedi'u cynllunio i gefnogi staff i weithredu'r Gymraeg yn eu lleoliad.

Dywedodd un ymatebwr fod angen cyfathrebu effeithiol i hyrwyddo lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a manteision defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Dywedodd un ymatebwr ei fod yn parhau i hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol a datblygu'r Gymraeg mewn lleoliadau Gwarchodwyr Plant trwy gynllun Camau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a thrwy eu hystod o adnoddau a chefnogaeth unigol gan ein Cydlynnydd Iaith Gymraeg. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth i ddarparwyr ar eu gwefan.

Effaith Covid

Gofynnwyd i randdeiliaid a oeddent yn ymwybodol o unrhyw broblemau a gafodd darparwyr gofal plant gyda'r canlynol yn ystod y pandemig. Mae Ffigur 303 yn dangos crynodeb o'r ymatebion gan y 4 rhanddeiliaid

Ffigur 303

Effaith Covid	Oedd, llawer	Oedd, ychydig	Na	Ddim yn gwybod	Cyfansymiau
Nifer y plant sy'n mynychu lleoliadau	<input checked="" type="checkbox"/> 2	<input type="checkbox"/> 2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 1	25% Oedd, llawer, 50% Oedd, ychydig, 25% Ddim yn gwybod
Diogelwch ariannol y busnes	<input checked="" type="checkbox"/> 4	<input type="checkbox"/> 2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	100% Oedd, llawer
Lles staff	<input type="checkbox"/> 3	<input checked="" type="checkbox"/> 2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	50% Oedd, llawer, 50% Oedd, ychydig
Cadw'r gweithlu	<input checked="" type="checkbox"/> 4	<input type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	100% Oedd, llawer
Recriwtio'r gweithlu	<input checked="" type="checkbox"/> 5	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	100% Oedd, llawer
Gweithrediad y gwsanaethau	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> 4	<input type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/>	75% Oedd, ychydig, 25% Na
Cyfathrebu â theluoedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> 3	<input type="checkbox"/> 2	75% Na 25% ddim yn gwybod

Cyfathrebu gyda'r Awdurdod Lleol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/> 1	<input checked="" type="checkbox"/> 3	25% Oedd, ychydig, 25% na, 50% Ddim yn gwybod
Cyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 2	<input checked="" type="checkbox"/> 3	50% Na 50% ddim yn gwybod
Costau parhaus yn gysylltiedig â Covid-19	<input type="checkbox"/> 3	<input checked="" type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 1	75% Oedd, llawer, 25% Oedd, ychydig

Roedd sylwadau pellach gan ymatebwyr yn cynnwys:

- Mae cadw a recriwtio staff wedi bod yn broblem benodol ledled Cymru gyda llawer yn gadael y sector am swyddi sy'n talu'n well. Nid yw myfyrwyr wedi gallu cwblhau eu hyfforddiant, ac mae hyn hefyd wedi cael effaith ar nifer y staff hyfforddedig sydd ar gael.
- Mae wedi bod yn anodd i bawb ond gwelwn yr effaith ar niferoedd yn y Cylchoedd meithrin o fethu cyfarfod rhieni mewn sesiynau fel Ti a Fi a rhoi gwybodaeth i deuluoedd am gylchoedd meithrin ac addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae angen diweddarau gwybodaeth ar wefan y sir a dogfennau Dechrau'n Deg i'w gwneud yn glir bod gan bob plentyn yr hawl i ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Egluro beth yw Cylch Meithrin.
- Mae problem enfawr o ran recriwtio staff sy'n gymwys ac yn hyfedr yn y Gymraeg. Mae angen ymgyrch i ddenu mwy o bobl i'r sector.
- Dywedodd un ymatebwr, yn ystod astudiaeth ddiweddar, fod angen gwybodaeth, cyngor ac arweiniad penodol gan Lywodraeth Cymru i warchodwyr plant.

- Mewn astudiaeth ddiweddar, ymatebodd 78% o warchodwyr plant yn Nhorfaen fod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n berthnasol/penodol i'w hardal ALI yn werthfawr.
- Dywedodd un ymatebwr, er nad oes ganddo dystiolaeth neu wybodaeth benodol bod y pandemig wedi effeithio ar gyfathrebu â theuluoedd, ei fod wedi datblygu templed Cytundeb Rhiant i gefnogi cyfathrebu â theuluoedd, ac mae ganddo enghreifftiau o ba mor dda y gwnaeth Gwarchodwyr Plant addasu i gyfathrebu'n effeithiol.
- Cydnabu un ymatebwr, er nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth fanwl am les y staff, ei fod yn ymwybodol bod llawer o warchodwyr plant yn ofidus ac yn bryderus trwy gydol y pandemig, a hynny am ystod o faterion.
- Dywedodd 56% o warchodwyr plant mewn astudiaeth ddiweddar eu bod yn hyderus y byddant yn fregus am 12 mis neu fwy
- Dywedodd 76% o warchodwyr plant mewn astudiaeth ddiweddar eu bod yn dawelach nag o'r blaen
- Dywedodd un ymatebwr y cydnabuwyd bod grantiau pellach a chymorth ariannol ar gael i'r sector i gydnabod effaith ariannol barhaus Covid-19.
- Rhoddwyd cydnabyddiaeth gan un ymatebwr i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, a phartneriaid am geisio deall ac ymateb i anghenion y sector a gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu arweiniad clir, gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth ariannol i'r sector. Amlygwyd bod Torfaen wedi sefydlu panel grantiau gyda phartneriaid a oedd yn hwyluso ymagwedd bartneriaeth at gymorth grant lleol gan gynnwys y grantiau cyfalaf bach er budd y sector. Croesawodd un ymatebwr y cyfle i barhau i weithio mewn partneriaeth.
- Nododd un ymatebwr ei fod wedi bod yn gyfnod heriol i'r sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar sy'n debygol o fod wedi effeithio ar eu llesiant. Mae ymholiadau cyffredinol a phryderon a godwyd wedi cynnwys; pryderon ariannol a chynaliadwyedd, cael gwybod y diweddaraf a bodloni'r canllawiau cyfredol/newydd. Mae ymholiadau a phryderon cyffredinol eraill a godwyd gan warchodwyr plant wedi ymwneud ag amddiffyn eu hunain, eu teulu ac aelodau'r cartref, yn ogystal â'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw, rhag y firws. Er mwyn cefnogi Gwarchodwyr Plant sefydlodd un rhanddeiliad fforwm Gwarchodwyr Plant misol trwy weminar er mwyn hwyluso cefnogaeth cymheiriaid a cheisio mynd i'r afael ag arwahanrwydd. Cynigiwyd hyfforddiant 'Rwy'n bwysig hefyd' o ganol Holistic Steps i gefnogi Gwarchodwyr Plant gyda'r cyfle i ganolbwyntio ar eu lles eu hunain.

Pryderon o ran y dyfodol

Mae Ffigur 304 yn dangos crynodeb o ymatebion i rhanddeiliaid sydd yn pryderu am y farchnad gofal plant yn y 18 mis nesaf. Maent yn cynnwys:

Ffigur 304

	Ydw, llawer	Ydw, ychydig	Nac Ydw	Ddim yn gwybod	Cyfansymiau
Nifer y plant sy'n mynychu lleoliadau	<input checked="" type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 3	20% ydw, llawer, 20% ydw, ychydig, 60% Ddim yn gwybod
Diogelwch ariannol y busnes	<input checked="" type="checkbox"/> 3	<input type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 1	60% ydw, llawer, 20% ydw, ychydig, 20% Ddim yn gwybod
Lles staff	<input checked="" type="checkbox"/> 3	<input type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 1	60% ydw, llawer, 22% ydw, ychydig, 20% Ddim yn gwybod
Cadw'r gweithlu	<input checked="" type="checkbox"/> 5	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	100% ydw, llawer
Recriwtio'r gweithlu	<input checked="" type="checkbox"/> 5	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	100% ydw, llawer
Gweithrediad y gwasanaethau	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> 2	<input type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/> 1	40% ydw, ychydig, 20% na, 20% Ddim yn gwybod 20% dim sylw

Cyfathrebu â theuluoedd	<input type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> 2	<input type="checkbox"/> 2	20% ydw, ychydig, 40% na, 40% Ddim yn gwybod
Cyfathrebu gyda'r Awdurdod Lleol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> 3	<input type="checkbox"/> 2	60% Na 40% ddim yn gwybod
Cyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> 3	<input type="checkbox"/> 2	60% Na 40% ddim yn gwybod
Costau parhaus yn gysylltiedig â Covid-19	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> 3	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 2	60% ydw, ychydig, 40% ddim yn gwybod

Sylwadau Pellach

- Cadw a recriwtio staff â chymwysterau addas yw'r her fwyaf ar hyn o bryd, gyda'r potensial i arwain at gau, llai o ddeiliadaeth neu ddadgofrestru.
- Nododd un ymatebwr fod gweithio o gartref yn effeithio'n aruthrol ar ddarpariaeth gofal plant oedran ysgol ac efallai mai dyma'r achos hyd y gellir ei ragweld. Ystyriwyd bod angen negeseuon clir ynghylch manteision parhau i ddefnyddio gofal plant hyd yn oed pan fydd angen Gweithio Gartref o ran canlyniadau i blant a gwerth profiadau chwarae o safon.
- Mae lles staff wedi bod yn broblem gynyddol ac mae angen cefnogi rheolwyr a rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gefnogi eu staff yn ogystal â'r angen i fynd i'r afael â'u hanghenion eu hunain.
- Mae llawer o ddryswch ynghylch lefel y glanhau a'r defnydd o beiriannau niwl, peiriannau puro aer, golchi dwylo ac ati. Er nad yw'r canllawiau wedi newid mae angen eu hatgoffa o arfer da a byddai rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol yn y maes hwn yn dda.
- Gyda chostau rhedeg lleoliad yn cynyddu drwy'r amser mae'n anodd gweld sut mae'r sector yn mynd i oroesi'r costau hyn heb eu trosglwyddo i rieni. Mae'r Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg yn galw am godi ffioedd y pen.
- Mae angen ymgyrch i ddenu mwy o bobl i'r sector.
- Roedd un ymatebwr yn cydnabod nad oedd ganddo'r wybodaeth leol fanwl am y farchnad gofal plant gyfan yn Nhorfaen ond yn fwy diweddar mae ymholiadau cyffredinol gan warchodwyr plant ledled Cymru wedi cynnwys pryderon mewn perthynas â chynaliadwyedd eu lleoliad pe bai achos yn codi yn y cartref sy'n golygu y byddai angen iddynt gau eu lleoliad. Mae'r pryderon a godwyd wedi cynnwys yr effaith ariannol uniongyrchol, yn ogystal â sut y byddai hyn yn effeithio ar y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw, a'u canfyddiad o ddibynadwyedd eu gwasanaeth. Adroddwyd hefyd bod costau tanwydd cynyddol a'r angen am awyru yn ystod misoedd y gaeaf yn ychwanegu at y pwysau ariannol ar y sector.
- Er mwyn cefnogi recriwtio Gwarchodwyr Plant ymhellach, yn unol â chyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod Hydref 2021 - Mawrth 2022, dywedodd yr ymatebwr eu bod yn gallu cynnig pecyn o hyfforddiant cyn-gofrestru â chymhorthdal a chymorth i ddarpar warchodwyr plant, nanis a chynorthwywyr Gwarchodwyr Plant yng Nghymru.
- Mae angen cyllid tymor hir sydd ar gael ar draws Cymru gyfan i gymryd camau i gefnogi recriwtio Gwarchodwyr Plant, cynyddu niferoedd a bodloni'r galw yn ddigonol.

Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Mae Ffigur 305 yn dangos crynodeb o ymatebion gan randdeiliaid y gofynnwyd iddynt a yw'r Cynnig Gofal Plant wedi effeithio ar wasanaethau gofal plant yn yr ardaloedd a ganlyn;

Ffigur 305

Y Cynnig Gofal Plant i Gymru	Cynyddu	Dim newid	Gostwng	Ddim yn gwybod	Cyfansymiau
Nifer y plant sy'n mynychu	<input checked="" type="checkbox"/> 3	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 2	60% cynyddu 40% ddim yn gwybod
Ansawdd y Ddarpariaeth	<input checked="" type="checkbox"/> 3	<input type="checkbox"/> 1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 1	60% Cynyddu, 20% Heb Newid 20% ddim yn gwybod
Cynaliadwyedd Ariannol	<input checked="" type="checkbox"/> 3	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/> 1	60% cynyddu 20% ddim yn gwybod 20% dim sylw
Nifer y lleoedd cofrestredig a gynigiwyd	<input type="checkbox"/> 2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> 3	40% cynyddu 60% ddim yn gwybod

Nifer y staff yn y gweithlu	<input type="checkbox"/> 2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> 3	40% cynyddu 60% ddim yn gwybod
-----------------------------	----------------------------	--------------------------	--------------------------	---------------------------------------	-----------------------------------

Ffigur 306

Ydych chi'n meddwl bod y Cynnig yn helpu rhieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 4 oed, i wella cyfleoedd gwaith?			
Ydw	Nac Ydw	Ansicr	Dim sylw
3			2

Mae Ffigur 307 yn dangos nifer y mudiadau ambarél sy'n credu bod Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi helpu teuluoedd di-waith.

Ffigur 307

Ydych chi'n credu bod y Cynnig yn helpu teuluoedd di waith gyda phlant 3 4 oed i gael gwaith.			
Ydw	Nac Ydw	Ansicr	Dim sylw
2	1	2	

Sylwadau eraill am y Cynnig;

- Dywedodd un cyfranogwr fod y Cynnig o fudd i deuluoedd sy'n bodloni'r meini prawf, fodd bynnag mae rhieni'n dal i fod angen gofal plant cyn cyflogaeth ac ar ôl cyflogaeth ac felly nid yw bob amser yn cael effaith hirdymor.
- Roedd un ymatebwr yn cydnabod nad oes ganddo'r wybodaeth leol fanwl am sut mae'r Cynnig Gofal Plant wedi effeithio ar wasanaethau gofal plant yn Nhorfaen, ond yn gyffredinol ledled Cymru mae'n deall bod Gwarchodwyr Plant wedi croesawu'r

Cynnig Gofal Plant a'r cyfleoedd y mae wedi'u darparu i wella cynaliadwyedd a sicrhau incwm ar gyfer y sector, yn ogystal â'r cyfle i wella ansawdd lleoliadau drwy'r cynllun grantiau cyfalaf bach.

- Dywedodd un ymatebwr y byddai adolygu'r pris o £4.50 yr awr yn cael ei groesawu gan fod hyn wedi bod yr un fath ers 2017, tra byddai lleoliadau fel arfer wedi cynyddu eu ffioedd yn ystod y cyfnod hwn. Mae pryderon hefyd am y cynnydd presennol mewn costau byw a chwyddiant.
- I rai efallai y byddai'r gwaith papur ychwanegol a'r gallu i gwblhau taenlenni a'u cyflwyno'n electronig hefyd wedi bod yn her.

18.6 Ymgynghori â Darparwyr Gofal Plant

Cyflwynna'r adroddiad hwn ddarganfyddiadau'r ymgynghoriad â darparwyr gofal plant a ddosbarthwyd at bob darparwr gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Torfaen.

Methodoleg

Cynlluniwyd holiadur i ddarparwyr gofal plant (Atodiad 7) gan y Tîm Gofal Plant er mwyn deall barn darparwyr yn well ynghylch y farchnad gofal plant leol ar hyn o bryd, y gwelliannau yr hoffent eu gweld, eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r gefnogaeth y gallent fod ei hangen. Anfonwyd yr holiadur at gyfanswm o 87 o ddarparwyr gofal plant sy'n cynnig 130 o wahanol ddarpariaethau gofal plant yn Nhorfaen (noder bod sawl darparwr gofal plant yn cyfnnig darpariaethau gofal plant niferus yn Nhorfaen, ac at ddiben yr adroddiad hwn anfonwyd un copi yn unig atynt).

Fe wnaeth 15 o ddarparwyr gofal plant ymateb i'r arolwg i ddarparwyr, cyfradd ymateb o 17%, yn 201 derbyniwyd 63 o ymatebion, cyfradd ymateb o 23%. Yn 2021 mae'r ymatebion wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

4 (27%)	Gwarchodwr Plant	6 (40%)	Meithrinfa Ddydd
5 (33%)	Grŵp chwarae/Cylch Meithrin	4 (27%)	Meithrin Cofleidiol
0 (0%)	Crèche	1 (7%)	Clwb Cyn Ysgol
1 (7%)	Clwb Brecwast	2 (13%)	Clwb Ar ôl Ysgol
3 (20%)	Clwb Gwyliau	0 (0%)	Cynllun chwarae Mynediad Caeedig

Sylwch na fydd y niferoedd uchod yn dod i 15 oherwydd gofynnwyd i ymatebwyr ddewis yr holl ddarpariaeth y maent yn ei darparu, gan olygu y gallai un ymatebwr ddewis sawl darpariaeth. Nodwyd bod y mwyafrif o feithrinfeydd dydd a grwpiau chwarae yn dweud eu bod yn gweithredu mwy nag un math o ddarpariaeth, fodd bynnag, nid oedd pob ymateb gan warchodwyr plant wedi nodi'r un peth, er bod y mwyafrif o warchodwyr plant yn Nhorfaen yn cynnig sawl darpariaeth.

Mae Ffigur 308 yn dangos, o gymharu ag ADGP 2017, bod cynnydd o 33% yn nifer y darparwyr sy'n disgrifio'u hunain fel 'Lleoliad cyfrwng Saesneg gyda pheth defnydd o'r Gymraeg'. Mae data hefyd yn awgrymu bod lleoliadau dwyieithog yn llai cyffredin oherwydd cynnydd o 13% yn nifer y lleoliadau sy'n disgrifio eu hunain fel 'cyfrwng Saesneg' a chynnydd o 17% mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.


Ffigur 308 Yr Iaith a ddefnyddir mewn lleoliadau

Iaith	2021		2017		% Newid 2021 o gymharu â 2017
	#	%	#	%	
Saesneg gyda pheth defnydd o'r Gymraeg	5	33%	42	67%	-33%
Saesneg a Chymraeg (y ddau)	1	7%	1	2%	5%
Saesneg	6	40%	17	27%	13%
Cymraeg	3	20%	2	3%	17%
Dwyieithog	0	0%	1	2%	-2%

Roedd 68% o leoliadau gofal plant a ymatebodd, o'r sector preifat, 20% yn wirfoddol, 7% awdurdod lleol a 7% ddim yn gwybod.

Mae Ffigur 309 yn dangos lleoliad ymatebwyr o ran ardaloedd AGEI Torfaen, ble mae ymatebwr wedi darparu manylion cod post y lleoliad gofal plant.

Ffigur 309



Ymatebwyr gofal plant fesul ardal AGEI
Aberyschan 5
Blaenafon 3
Brynwern
Coed Eva
Fairwater 4
Llantarnam 3
De Llanyrafon 1
Y Dafarn Newydd 4
Pontnewydd 1
Pontnewydd 3
Pont-y-pŵl
Dwy Loc 2
Cwmbrân Uchaf 1
Cwmbrân Uchaf 3
Waunfelin 1

Gallu'r darparwyr gofal plant i fodloni'r galw yn lleol am leoedd gofal plant.

O'r data, gall y mwyafrif o ddarparwyr gofal plant fodloni'r galw yn lleol o ran grwpiau oedran penodol, yn enwedig plant 2, 3 a 4 oed, yn amrywio o 73% - 86%, mae gostyngiad o 10% -18% o ADGP lawn 2017. Fodd bynnag, nododd 40% o leoliadau na allant fodloni'r galw ar gyfer y rhai dan 12 mis oed, cynnydd o 6.7%. Dywedodd 26% o leoliadau na allent fodloni'r galw o ran plant 2 oed, gyda 13% o leoliadau'n nodi na allent fodloni'r galw am 3 a 4 blynedd.

Mae gostyngiad o ran bodloni'r galw yn lleol ar gyfer plant 5-7, 8-11 a 12-14 oed, gydag 20% ar gyfartaledd, yn nodi y gallant fodloni'r galw, gostyngiad o 60%.

Dywedodd ychydig dros draean o'r darparwyr nad oedd yr ystodau oedran yn berthnasol iddynt, gyda'r rhai 12-14 oed yr uchaf – 80%, gyda phlant 8-11 oed – 53% a 5-7 oed – 46%. Y rhai llai na 12 mis ac 1 oed yn adrodd 33% yn y drefn honno nad yw'r ystod oedran yn berthnasol iddynt.

Canlyniadau'r Holiadur

Barn am y farchnad gofal plant leol

Barn gyffredinol ynghylch y farchnad gofal plant leol

Mae'r adran isod yn amlinellu sgôr ar gyfartaledd a roddwyd gan yr holl ymatebwyr o blith darparwyr gofal plant ynghylch gwahanol agweddau ar y farchnad gofal plant yn Nhorfaen. Rhoddwyd sgôr i bob agwedd fel a ganlyn: gwael iawn (1), gweddol wael (2), boddhaol (3), gweddol dda (4) a da iawn (5).

Rhoddodd yr ymatebwyr o blith darparwyr gofal plant y sgôr uchaf ar y cyfan i 'Ansawdd y ddarpariaeth', sgôr o 4.4 allan o gyfanswm o 5, sef 'gweddol dda', sydd wedi aros yr un fath ers data'r ADGP yn 2017.

Y sgôr ar gyfartaledd ar gyfer 'Ystod neu Ddewis o Ddarpariaeth' oedd 4.3 allan o gyfanswm o 5 a oedd yn sgorio rhwng gweddol dda, sydd wedi cynyddu 0.8 ers ADGP 2017.

Rhoddwyd sgôr o 3.9 ar gyfartaledd am 'Leoliad', cynnydd o 0.2, a rhoddwyd sgôr o 3.8 ar gyfartaledd i 'Addasrwydd' sef weddol dda, cynnydd o 0.1 ers ADGP 2017. Rhoddwyd sgôr o 3.7 ar gyfartaledd i 'Nifer y Lleoedd', cynnydd o 0.2 ers ADGP 2017.

Cafodd 'Fforddiadwyedd a Hyblygrwydd' sgôr ar y cyfan o 3.5 ar gyfartaledd, sef boddhaol, sydd wedi aros yr un fath ers ADGP 2017.

Rhoddwyd sgôr o 4 ar gyfartaledd i 'Nifer y Lleoedd' sef gweddol dda.

Roedd y sgôr isaf ar gyfartaledd am 'Ddarpariaeth Ddwyieithog/Gymraeg', a sgoriodd 2.8, sydd wedi gweld gostyngiad ers ADGP 2017, er bod y mwyafrif a ymatebodd (46%) i'r cwestiwn penodol hwn wedi nodi bod y ddarpariaeth 'Ddwyieithog/Gymraeg' rhwng 'boddhaol' a 'gweddol dda' gyda 13% yn dweud ei bod yn 'dda iawn', cynnydd o 7% ers ADGP 2017. Dywedodd 13.3% bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn wael iawn.

Barn ar fodloni anghenion gofal plant grwpiau penodol

Sgoriau cyffredinol y farchnad gofal plant ar hyn o bryd, ar gyfartaledd

Sgoriau ar gyfartaledd a roddwyd yn ôl darparwr gofal plant o ran pa mor dda mae'r farchnad gofal plant leol yn gallu bodloni anghenion wyth grŵp penodol o rieni/gofalwyr: *Ychwanegwyd tri grŵp arall er 2017:

- Darpariaeth ar gyfer teuluoedd ar incwm isel
- Darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabled;
- Darpariaeth ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio;
- Darpariaeth ar gyfer teuluoedd sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant;
- *Darpariaeth ar gyfer aelwydydd di-waith;
- Darpariaeth ar gyfer y rheiny sydd angen gofal plant dwyieithog/cyfrwng Cymraeg;
- *Darpariaeth ar gyfer rhieni sengl;
- * Darpariaeth ar gyfer teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifol ethnig

Rhoddyd sgôr ar gyfer pob grŵp, fel a ganlyn: gwael iawn (1), gweddol wael (2), boddhaol (3), gweddol dda (4) a da iawn (5).

Ar gyfartaledd, cafwyd boddhaol yn y mwyafrif o ganlyniadau:

Cafodd 'Darpariaeth ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio' y sgôr uchaf ar gyfartaledd o 3.9, cynnydd o 0.8 ers ADGP 2017.

Cafodd 'Darpariaeth ar gyfer rhieni sengl' sgôr o 3.7 ar gyfartaledd, ond ni ellir cymharu am mai grŵp newydd yw hwn.

Cafodd 'Darpariaeth ar gyfer teuluoedd sy'n chwilio am waith' sgôr o 3.5 ar gyfartaledd, cynnydd o 0.4 ers yr ADGP diwethaf.

Cafodd 'Darpariaeth ar gyfer teuluoedd ar incwm isel' a 'Darpariaeth ar gyfer teuluoedd o leiafrifoedd ethnig' sgôr o 3.4 ar gyfartaledd, cynnydd o 0.1.

Fodd bynnag, sgôr y 'ddarpariaeth ar gyfer aelwydydd di-waith' ar gyfartaledd oedd 2.7, eto roedd hwn yn grŵp newydd ac ni ellir cymharu.

Cafodd 'darpariaeth ar gyfer y rhai sydd angen gofal plant dwyieithog/Cymraeg' sgôr o 2.6 ar gyfartaledd, gweddol wael, gostyngiad o 0.2 er 2017.

O'r rhai a ymatebodd i'r grwpiau penodol, cawsom sylwadau pellach:

Teuluoedd ar incwm isel

- Ariannu - dyma'r prif rwystr
- Lleoedd â chymhorthdal gan yr ALL ar gyfer sesiynau cymdeithasol
- Mwy o gymorth i grwpiau oedran is 0 i 2 oed ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, ac ymestyn ardaloedd Dechrau'n Deg
- Gostwng yr oedran am 30 awr
- Mae angen ystyried ymestyn Cynllun Gofal Plant 30 Awr y Llywodraeth i gynnwys POB plentyn 3-4 oed.
- Ni ddylai rhieni ar incymau isel neu rieni sy'n dewis peidio â gweithio am gyfnod ar ôl cael plant, gael eu cosbi

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Ariannu gofal plant i deuluoedd sy'n gweithio, ar gyflogau isel, yn ogystal ag ymestyn y Cynnig Gofal Plant i bob plentyn 3 a 4 oed. Gostwng oedran i grwpiau plant y Cynnig Gofal Plant gynnwys plant 0 i 2, ac ymestyn ardaloedd Dechrau'n Deg Peidio â chosbi teuluoedd am ddewis peidio gweithio.

Teuluoedd â phlant sydd ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd

- Y gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar eu plentyn a'r cap ar nifer yr oriau y gellir ei ariannu - o ddifri?- mae 10 awr i rai teuluoedd yn golygu 1 diwrnod llawn yn unig, dim ond un diwrnod llawn yw 10 awr yn ystod gwyliau ysgol! Hefyd, os yw teuluoedd yn defnyddio'r Dafarn Newydd, maent yn colli 5 allan o'r 10. Mae angen mwy o gyllid ar gyfer cymorth un i un. Mae'n iawn cael person ar ben arall y ffôn mewn swyddfa os oes angen cymorth - nid yw'n helpu pan fydd anghenion plentyn yn tynnu aelod o staff allan o'r gymhareb. Mae lleoliadau'n ysgwyddo cost y cymorth hwn ac mae hyn yn creu effaith
- Hyfforddiant pellach a haws cael gafael ar gyllid 1-1 os oes angen, yn enwedig i blant dan 3 oed
- Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i blant sydd angen gofal 1:1
- Rhoi mwy o gymorth i'r meithrinfeydd hynny sy'n fodlon addasu i sicrhau bod ADY ar gael
- Oni ddylai pob grŵp nas cynhelir, gynnig polisi drws agored? Mae ein Hysgol Feithrin wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd anghyfyngedig i bob plentyn gael amrywiaeth o brofiadau blynyddoedd cynnar. Rydym hefyd wedi dileu unrhyw arfer sy'n

gwahaniaethu ar sail hil, anabledd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu statws cymdeithasol.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Cynyddu nifer yr oriau o gymorth ychwanegol y gellir eu hariannu, yn ystod y tymor a'r gwyliau. Darparu mwy o gymorth un i un, yn enwedig pan effeithir ar gymarebau. Darparu hyfforddiant pellach i staff cymorth, yn enwedig i'r rhai sy'n gofalu am blant dan 3 oed. Sicrhau bod gan bob lleoliad bolisi drws agored.

Teuluoedd sy'n Gweithio

- Weithiau mae rhieni sy'n gweithio angen amseroedd sifft a gofal plant ar y penwythnos. Nid wyf yn adnabod unrhyw un sy'n cynnig hyn
- Sicrhau bod y trothwy o ran cymhwysedd yn caniatáu i fwy o deuluoedd gael yr elfen gofal plant o fudd-daliadau. Cymhorthdal yn syth i'r lleoliad gofal plant ar gyfer treth teuluoedd sy'n gweithio. Dileu'r angen am dderbynebaw cyson ac ati ar gyfer Credyd Cynhwysol a chaniatáu i'r lleoliad eu hanfonebu'n uniongyrchol ac nid y teulu (yn golygu y byddwn yn cael yr arian a bydd gan deuluoedd, lai i boeni amdano) Cynyddu hyblygrwydd y gofal plant sydd ar gael er ein bod wedi edrych ar oblygiadau ariannol hyn ac nid yw'n opsiwn cynaliadwy i ni, er enghraifft ar benwythnosau, boreau cynharach a nosweithiau hwyrach
- Digonol gyda chymorth credyd cynhwysol, hawlio 80% o ffioedd yn ôl ond yn well os yw meithrinfeydd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol yn hytrach na gan rieni. Mae teuluoedd newydd yn ei chael hi'n anodd ariannu cost y mis ymlaen llaw
- Cael manteisio'n gynt ar y Cynnig Gofal Plant Cymorth am bris gostyngol i fwy nag un plentyn
- Gostwng yr oedran am 30 awr
- Gall teuluoedd sy'n gweithio fanteisio ar y Cynllun Gofal Plant ac felly maent mewn sefyllfa dda. Mae'r rhan fwyaf o grwpiau nas cynhelir sydd ar agor drwy'r dydd yn cynnig Clwb Brecwast a Chlwb Cinio

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Darparu gofal plant ar gyfer pobl sy'n gweithio shifftiau ac ar benwythnosau. Caniatáu i fwy o deuluoedd gael yr elfen gofal plant o fudd-daliadau. Dylai cymorthdaliadau Treth Gwaith fynd yn syth at y darparwyr gofal plant a dileu'r tystiolaeth o dderbynebau. Mae teuluoedd yn ei chael hi'n anodd ariannu cost y mis ymlaen llaw. Manteisio'n gynt ar y Cynnig Gofal Plant

Teuluoedd sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant;

- Yn aml gall y math hwn o ofal fod yn ysbeidiol neu'n anghyson gan ei gwneud yn anodd i ddarparwyr ddarparu ar fyr rybudd, neu gynllunio eu hincwm yn effeithiol. Byddai rhywfaint o help i deuluoedd yma i ymrwymo i le dros gyfnod o amser yn helpu o ran dod o hyd i leoedd sydd ar gael
- Mwy o gyllid sydd yn dod yn syth i'r lleoliad
- Digonol gyda chymorth credyd cynhwysol, hawlio 80% o ffioedd yn ôl ond yn well os yw meithrinfeydd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol yn hytrach na gan rieni. Mae teuluoedd newydd yn ei chael hi'n anodd ariannu cost y mis ymlaen llaw
- Mae cymorth da ar gael ond o bosibl allgymorth pellach fel bod mwy o deuluoedd yn gwybod bod y cymorth ar gael
- Defnyddio gofodau mewn ystafelloedd gwag a neuaddau ysgol i ddarparu crèche i blant tra bod rhieni yn derbyn hyfforddiant ar ôl 3.15
- Mae angen ystyried ymestyn Cynllun Gofal Plant 30 Awr y Llywodraeth i gynnwys POB plentyn 3-4 oed. Ni ddylai rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi, sy'n dewis peidio â gweithio am gyfnod ar ôl cael plant, gael eu cosbi

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Cymorth i deuluoedd i ymrwymo i le dros gyfnod o amser, yn hytrach nag yn ysbeidiol. Cynyddu'r cyllid, a hwnnw'n mynd yn syth i'r darparwr. Darparu mwy o allgymorth. Defnyddio ystafelloedd gwag mewn ysgolion i blant, tra bod hyfforddiant yn mynd rhagddo ar ôl ysgol. Ymestyn y gofal plant 30 awr i gynnwys pob plentyn 3 a 4 oed.

Aelwydydd di-waith

- Cyllid i alluogi plant i gael profiad o'r lleoliad heb yr angen i brofi bod y teulu'n fregus
- Lleoedd â chymorthdal gan yr ALI ar gyfer sesiynau cymdeithasol
- Ymestyn ystod oedran Dechrau'n Deg. Ariannu lleoedd i blant iau

- Mae angen ystyried ymestyn Cynllun Gofal Plant 30 Awr y Llywodraeth i gynnwys POB plentyn 3-4 oed. Oes, mae yna rai teuluoedd di-waith ond mae'n bwysig cofio bod gan riant yr hawl i ddewis peidio â gweithio pan mae'r plant yn fach oherwydd eu bod eisiau bod gyda nhw 24 awr y dydd. Ni ddylid cosbi'r rhain.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Ariannu gofal plant, heb orfod profi bod y teulu'n fregus. Rhoi cymhorthdal/ariannu lleoedd gofal plant i blant iau a phlant 3 a 4 oed, yn ogystal ag ymestyn ystod oedran Dechrau'n Deg. Peidio â chosbi rhieni os ydynt yn dewis aros gartref tra bod eu plentyn yn ifanc.

Y rheiny sydd angen gofal plant dwyieithog/cyfrwng Cymraeg.

- Rwy'n un o ddau rwy'n gwybod amdanynt sy'n darparu gwasanaeth dwyieithog. Mae fy narpariaeth yn cynnwys gofal plant i deuluoedd sy'n byw y tu allan i'r fwrdeistref
- Llawer ar gael
- Mae diffyg staff cymwys o safon, a bygythiad o ddatblygiad newydd yn Ysgol Panteg yn golygu nad oes unrhyw ddarparwyr lleol yn fodlon buddsoddi
- Hysbysebu amlwg
- Yn yr un modd â'r Gymraeg, darparu cyrsiau lle gall darparwyr gofal plant ddysgu ieithoedd sylfaenol eraill fel Pwyleg
- Mae gan ardal Pont-y-pŵl ystod eang o gyfleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg. Cynigir gofal plant cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i'r rhai sy'n gallu manteisio ar y cynllun Dechrau'n Deg, mae llawer o grwpiau nas cynhelir yn cynnig gofal dydd o ansawdd uchel i blant 3-4 oed ac wedi cofrestru gyda'r cynllun 30 awr. Mae disgwyl i gynlluniau newydd agor yn Ysgol Panteg ac Ysgol Gyfun Gwynllyw. Yr hyn sydd ei angen yw i Gyngor Torfaen drin POB un o'r darparwyr hyn yn deg, gan sicrhau bod pob rhiant yn cael manylion llawn POB darparwr cyfrwng Cymraeg a darparwr nas cynhelir.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Diffyg staff cymwys, gofal plant newydd ac felly nid yw darparwyr yn fodlon buddsoddi. Bod yr ALL yn trin darparwyr datblygiad newydd yn deg, gan sicrhau bod pob rhiant yn cael manylion cyfrwng Cymraeg.

Rhieni Sengl

- Mae cost bob amser yn mynd i fod yn ffactor o ran cynaliadwyedd i deuluoedd rhieni sengl. Hawdd meddwl amdanynt bob amser fel rhai sydd angen llawer o gymorth ariannol, lle y gallent o ddifri, fod angen rhwydweithiau cymorth
- Digonol gyda chymorth credyd cynhwysol, hawlio 80% o ffioedd yn ôl ond yn well os yw meithrinfeydd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol yn hytrach na gan rieni. Mae teuluoedd newydd yn ei chael hi'n anodd ariannu cost y mis ymlaen llaw
- Oni ddylai pob grŵp nas cynhelir, gynnig polisi drws agored? Mae ein Hysgol Feithrin wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd anghyfyngedig i bob plentyn gael amrywiaeth o brofiadau blynyddoedd cynnar. Rydym hefyd wedi dileu unrhyw arfer sy'n gwahaniaethu ar sail hil, anabledd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu statws cymdeithasol.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Efallai y bydd rhieni hefyd eisiau rhwydweithiau cymorth, yn ogystal â chymorth ariannol. I feithrinfeydd dderbyn Credit Cynhwysol yn uniongyrchol

Teuluoedd o leiafrifoedd ethnig

- Mynediad at gyfieithydd lle bo angen heb iddo fod yn fater o wneud "môr a mynydd" o'r peth; mwy o hyfforddiant amlddiwylliannol, mwy o arian ar gyfer adnoddau i leoliadau, cael aelod o staff sy'n gyfrifol am faterion amlddiwylliannol cael person y gellir "mynd ato" ar lefel ALI a all gefnogi
- Ni ddylai effeithio ond ychydig o blant dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n dewis mynychu ac ychydig iawn yn yr ardal hon. 2 blentyn yn unig sydd gennym yn y feithrinfa. Cael ei groesawu a'u werthfawrogi'n gyfartal
- Oni ddylai pob grŵp nas cynhelir, gynnig polisi drws agored? Mae ein Hysgol Feithrin wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd anghyfyngedig i bob plentyn gael amrywiaeth o brofiadau blynyddoedd cynnar. Rydym hefyd wedi dileu unrhyw arfer sy'n gwahaniaethu ar sail hil, anabledd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu statws cymdeithasol.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Mwy o gyfieithwyr ar gael a hyfforddiant amlddiwylliannol. Cael aelod o staff penodol yn gyfrifol am faterion amlddiwylliannol, yn ogystal â swyddog ALI. Efallai bod llai o blant o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn mynychu gofal plant.

Eich barn ar effaith Covid-19

Oherwydd y pandemig, gofynnodd yr Awdurdod Lleol i ddarparwyr am eu barn ar sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eu busnes o ran presenoldeb, cynaliadwyedd a'r gweithlu.

Rhoddwyd sgôr i bob grŵp, fel a ganlyn: na (1), do ychydig (2) a do llawer iawn (3)

O'r rheini a ymatebodd:

- Yr effaith uchaf a adroddwyd gan ddarparwyr a ddywedodd oedd bod y pandemig wedi effeithio ychydig ar 'Sefyllfa ariannol y busnes', gyda sgôr o 2.5 ar gyfartaledd, i'w ddilyn yn agos gan 'Nifer y plant sy'n mynychu eu lleoliad', sgôr o 2.4 ar gyfartaledd.
- Yn rhyfeddol, fe wnaeth 'Costau parhaus sy'n gysylltiedig â Covid-19' sgorio'n is o ran effeithio ychydig ar eu gwasanaeth, gyda sgôr o 2.2 ar gyfartaledd.
- Cafwyd ychydig o effaith ar 'Les staff' a 'Gweithredu gwasanaethau' gyda sgôr of 2.1 ar gyfartaledd.
- Roedd 'Cadw'r gweithlu', 'Recriwtio', 'Cyfathrebu â theuluoedd', 'Cyfathrebu â'r ALI' a 'Cyfathrebu â LIC i gyd yn syrthio i'r categori 'dim effaith' gyda sgôr o rhwng 1.4 ac 1.7 ar gyfartaledd.

Yn dilyn yr holiadur, gofynnodd yr Awdurdod Lleol hefyd i ddarparwyr roi sylwadau pellach ar sut yr effeithiodd y pandemig arnynt fel busnesau:

- Rwyf wedi colli rhai teuluoedd o ran cyfleoedd i weithio o gartref ac ati.
- Yn y dyddiau cynnar, roeddem yn cael gwybodaeth gan ein mudiadau ambarél yn llawer cyflymach na chan yr ALI a gwn ei fod yn teimlo ychydig fel nad oedd unrhyw gefnogaeth. Roedd hon yn sefyllfa "ar hyn o bryd". Er y gwerthfawrogir bod mwy o linellau cyfathrebu y mae angen mynd drwyddynt ar lefel ALI, teimlaf y gallai swyddog busnes gofal plant fod wedi bod yn aelod enwebedig o'r sefydliadau hyn i dderbyn yr un wybodaeth yr un pryd ag yr oeddem ni. Fe wnaethom dderbyn galwadau lles a chymorth CDP (PPE). Roedd yn teimlo ein bod yn cael ein gadael ar y rheng flaen i ffeindio'n ffordd, ond fe wnaethom a dyma ni. Gwerthfawrogir yn fawr hefyd fod hon yn sefyllfa newydd i bawb. Roedd y pryderon ynghylch "cyllid dwbl" a'r ffordd y cawsant eu cyfleu yn gwneud i ni deimlo bod yna "bobl yn yr ALI", a oedd yn meddwl mai ein bwriad oedd gwneud elw o'r sefyllfa.
- Straen, problemau gorbryder a rheoli staff yn ystod swigod. Cynnydd mewn PPE/costau glanhau. Hyfforddiant er ei fod ar-lein yn anodd os yw staff ar hyfforddiant i gynnal cymarebau gyda swigod, rheolwyr yn cwmpasu grwpiau sy'n cael effaith

gynyddol ar lwyth gwaith. Cydbwysedd gwaith/bywyd yn sero, oherwydd straen, peidio â mynd allan er mwyn diogelu'r feithrinfa. Iechyd meddwl staff, yn enwedig y rheini sy'n byw i ffwrdd o'u rhieni.

- Roedd angen rhoi mwy o ystyriaeth i les a phryder staff. Dylid bod wedi cydnabod eu hymrwymiad yn well i barhau â gweithrediad y lleoliad heb fawr ddim o amddiffyniad, os o gwbl. Roedd yn rhaid i Reolwyr ac Arweinwyr wneud penderfyniadau a chario pryderon y tîm, ond ychydig o gefnogaeth uniongyrchol a gawsant eu hunain.
- Y prif beth am y pandemig nawr yw nad oes neb yn profi ac mae plant yn dod i mewn gyda pheswch a thymheredd ac yn cael Calpol ac mae'n rhaid i ni esbonio pam mae'n rhaid i ni eu hanfon adref, nid oes rhaid iddynt brofi yna mae staff yn cael Covid a cholli arian yn hunanynysu.
- Yn ôl ym mis Mehefin 2020 bu oedi o ran hysbysebu'r ddarparwyr nas cynhelir o'r dyddiad y gallent ailagor, a dyddiadau diwedd tymor haf 2020. Collodd ein Hysgol Feithrin wythnos lawn o gyllid oherwydd i ni hysbysebu ' rhieni yn dweud ein bod yn aros ar agor am 5 wythnos yn unol â chyhoeddiad Kirsty Williams. Ychwanegodd y gwaith ychwanegol oherwydd rheolau COVID yn sylweddol at lwyth gwaith yr holl staff. RHAID cofio nad oes gan ddarparwyr y sector gwirfoddol nas cynhelir y gallu i gyflogi glanhawyr. Nid oes gennym staff wrth law i wneud gwaith papur yn ystod y dydd. Caiff hyn ei wneud yn wirfoddol gyda'r nos.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Ar adegau roedd sefydliadau ymbarél yn hysbysu lleoliadau yn gynt na'r ALI. Fe wnaeth rhai golli teuluoedd oherwydd gwaith. I rai, roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gadael i ffeindio'u ffordd eu hunain yn ystod Covid. Costau cynyddol ar gyfer glanhau a CDP. Roedd yn anodd rheoli hyfforddiant a chadw'r cymarebau. Roedd lles staff yn flaenllaw ym meddyliau rheolwyr. Os nad yw plant yn aros gartref, gallai staff golli incwm pe baent yn dal Covid.

Grantiau Cynaliadwyedd /Cyfalaf

Gofynnwyd i ddarparwyr 'Os ydych wedi derbyn unrhyw grantiau cynaliadwyedd/cyfalaf yn ystod y pandemig, a ydynt wedi bod yn effeithiol o ran gwella'

- O'r cyllid a dderbyniwyd sgôr 'Diogelwch y ddarpariaeth' ar gyfartaledd oedd 2.5, y sgôr uchaf i'w dilyn gan sgôr o 2.3 ar gyfartaledd ar gyfer 'Ansawdd y Ddarpariaeth' 2.3 a rhoddwyd sgôr o 2.2 ar gyfartaledd am 'Gynaliadwyedd ariannol'.
- O'r rhai a ddywedodd nad oedd y cyllid yn effeithiol o ran gwella, rhoddwyd sgôr o rhwng 1.1 ac 1.5 ar gyfartaledd i 'Ehangu'r Ddarpariaeth', Lles Staff a 'Chadw gweithwyr'.

Gofynnwyd i ddarparwyr gynnig mwy o sylwadau:

- Roeddem yn gwerthfawrogi'r grantiau i allu uwchraddio'r adeilad i fod yn fwy diogel o ran Covid, roedd hyn yn ei dro yn cefnogi lles staff
- Hebddynt hwy ni fyddem yn y sefyllfa yr ydym ni. Maent wedi bod yn achubiaeth ac wedi ein cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth a'r safle rhagorol yr ydym yn eu cynnig.
- Fe wnaeth y grantiau ein cynorthwyo i sicrhau bod gennym ddigon o seddi a manau chwarae i ni geisio cadw pellter cymdeithasol a gweithio gyda swigod o blant mewn amgylchedd mwy rheoledig heb effeithio ar y plant.
- Mae staff yn byw mewn ofn o ran cael prawf positif gan na allant fforddio cymryd amser i ffwrdd.
- Rydym yn hynod ddiolchgar i GGiD Torfaen am y cymorth ariannol rydym wedi'i dderbyn dros y 18 mis diwethaf. Rwy'n amau, heb yr arian hwn, na fyddai ein Meithrinfa dal i fod ar agor.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

O'r rhai a ymatebodd, roeddent yn ddiolchgar am y grantiau – aros ar agor, cefnogi staff, uwchraddio adeiladau/ardaloedd i fod yn ddiogel rhag Covid.

Gofynnwyd i ddarparwyr beth oedd eu pryderon pennaf am y busnes yn y 18 mis nesaf

- Dywedodd 60.0% o leoliadau mai 'Cynaliadwyedd ariannol' a 'Lles staff' oedd y pryderon mwyaf i'w busnes dros y deunaw mis nesaf.
- Teimlai 46.7 bod 'Costau parhaus sy'n gysylltiedig â Covid-19' hefyd yn peri pryder. Dilynwyd hyn yn agos gan 40.0% yn adrodd 'Nifer y plant yn mynychu' a 'Gweithrediad gwasanaethau'.
- Dywedodd traean o'r ymatebwyr fod 'Recriwtio gweithlu' yn peri pryder.

Barn am Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Dyma'r ADGP cyntaf sydd wedi rhoi cyfle i ddarparwyr rhoi gwybod i ni am yr effaith y mae'r Cynnig Gofal Plant wedi'i chael arnynt fel darparwyr gofal plant, yn ogystal â busnesau.

- Dywedwyd bod 'Nifer y plant sy'n mynychu' a 'Chynaliadwyedd ariannol' yn dangos yr effaith fwyaf ar fusnesau
- Nododd darparwyr 'Nifer y lleoedd cofrestredig a gynigiwyd' (80.0%) fel rhai nad oeddent wedi gweld unrhyw newid i'w busnes, ynghyd â 'Nifer y staff yn y gweithlu' (66.7%) fel rhai nad oedd wedi gweld unrhyw newid.
- Fe wnaeth 'Ansawdd y ddarpariaeth' ddangos (53.3%) bod cynnydd yn yr effaith a gafwyd ar eu darpariaeth, sef bod 46.7% wedi adrodd nad oeddynt wedi gweld unrhyw newid
- Ni ddangosodd 'Nifer y staff yn y gweithlu' unrhyw effaith (66.7%).

Gofynnwyd i ddarparwyr a oeddent yn meddwl bod y Cynnig yn helpu rhieni sy'n gweithio, sydd â phlant 3-4 oed, i wella cyfleoedd gwaith?

Dywedodd 93.3% 'Oedd', bod y Cynnig Gofal Plant yn helpu rhieni sy'n gweithio i wella'u cyfleoedd gwaith. Dywedodd neb 'Na' ac roedd 6.7% yn ansicr.

Gofynnwyd i ddarparwyr a oeddent yn credu bod y Cynnig yn helpu teuluoedd di-waith, gyda phlant 3 – 4 oed, i gael gwaith.

Roedd 53.3 yn meddwl ei fod yn helpu teuluoedd di-waith, dywedodd 6.7% 'Na' ac roedd 40% yn ansicr.

Gofynnwyd mwy i'r ymatebwyr am eu barn:

- Drwy'r pandemig rwyf wedi'i chael yn anodd siarad ag unrhyw un yn fy nhîm cynnig gofal plant lleol ac o ran datrys problemau talu ac ymholiadau.
- Gyda'r cynnydd mewn costau cyflogau ym mis Ebrill - ni fydd yn talu'r costau sylfaenol
- Rwyf wedi cael ychydig o blant drwy'r cynnig am fod rhieni wedi dychwelyd i weithio oherwydd bod y cynnig gofal plant yn eu cynorthwyo gyda'u ffioedd gofal plant

- Mae'r Cynnig yn rhoi cyfle gwych i deuluoedd sy'n gweithio, i gael incwm teilwng heb orfod gwario eu cyflog y maent wedi gofod gweithio'n galed amdano, ar eu gofynion Gofal Plant. Nid wyf yn deall pam fod y cynnig yn gyfyngedig yn ystod 6 wythnos o wyliau'r haf; mae'r mwyafrif o deuluoedd sy'n gweithio yn cael 4 wythnos i ffwrdd y flwyddyn ar gyfartaledd ond mae gwyliau'r haf yn 6 wythnos. Mae mantais y Cynnig yn diflannu pan fydd rhieni angen fwy o gymorth ychwanegol, ac mae hyn yn rhoi llawer o bwysau ar deuluoedd o ran yr hyn y gallant ei fforddio a'r cymorth teuluol sydd ar gael iddynt yn ystod y cyfnod hwn.
- Yn y tymor hir ydy, ond ni all rhieni gael swydd heb y gofal plant ac ni allant gael y gofal plant heb 3 mis o gyflog! Sefyllfa amhosib!!!
- Mae'r cynnig Gofal Plant yn bendant wedi helpu'r rhieni sy'n gweithio. Nid wyf yn siŵr faint o'r rhieni sydd wedi bod yn chwilio am waith sydd wedi gallu dod o hyd i swydd oherwydd gallant wneud cais am y cynllun Gofal Plant. Efallai y bydd y cynnig yn effeithio ar rai darparwyr nas cynhelir wrth i ddarparwyr newydd yn y sector statudol ddod i'r amlwg heb ymgynghori â ni yn y sector nas cynhelir. Mae angen cynnwys y sector nas cynhelir ym mhob trafodaeth os gwelwch yn dda ac mae angen hysbysebu POB darparwr sy'n cynnig 30 ar yr un lefel i gynnig dewis eang i rieni.
- Mae Rhieni sy'n Gweithio wedi croesawu'r cyllid ac mae wedi golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd rhieni'n talu ffioedd nawr ein bod yn cael ein talu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Anodd cyfathrebu â'r tîm CGP. Ni fydd y tâl yn talu costau sylfaenol wrth symud ymlaen. I rai rhieni mae hyn wedi golygu y gallant ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r gwyliau chwe wythnos yn rhoi pwysau ar rhai teuluoedd. I rai teuluoedd mae angen swydd arnynt i dderbyn cyllid CGP, ond ni allant fforddio'r gofal plant cyn cael swydd. Mae angen trin darparwyr yr un mor gyfartal â'r sector a gynhelir.

Mae darparwyr yn croesawu bod y cyllid yn cael ei dalu'n uniongyrchol iddynt.

Safbwyntiau am y Llwyfan Digidol a fydd yn disodli'r System Cynnig Gofal Plant bresennol.

Mae 93.3% yn ymwybodol o'r llwyfan digidol newydd a fydd yn disodli'r system CGP presennol, 6.7% yn unig oedd ddim yn ymwybodol.

Gofynnwyd i ddarparwyr a fyddai angen rhagor o gymorth arnynt i greu cyfrif ar gyfer y system hon, a dywedodd 33.3% ohonynt y byddent.

Sylwadau pellach gan y darparwyr ar y math o gymorth yr oedd ei angen arnynt:

- Nid ydym yn gwybod pa system sy'n mynd i gael ei rhoi ar waith, rwy'n delio â dwy fwrdeistref wahanol ar hyn o bryd felly rwy'n croesawu'r ffaith mai un system yr wyf yn gorfod ei chwblhau
- Hyfforddiant ar sut bydd y cyfan yn gweithio a fy rôl yn hyn o beth
- Sicrhau fy mod yn ei gyrchu'n gywir
- Rwyf wedi clywed am y platfform digidol ond nid wyf yn siŵr beth sydd angen i mi ei wneud!
- Yr hyn sydd ei angen arnoch chi yw mwy o amser! Rwy'n poeni bod y system newydd yn galw ar amser staff i weinyddu'r gwaith. Rydym eisoes yn gwirfoddoli ein hamser gyda'r nos i wneud gwaith gweinyddol diddiwedd. Gobeithio nad yw hyn yn wir

Cofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-dreth

Mae 73.3% o ddarparwyr wedi cofrestru ar gyfer y cynllun Gofal Plant Di-dreth, gyda 23.7% yn ansicr. 0 ymateb o ran pam nad oeddech wedi cofrestru.

Eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Roedd 100% yn disgwyl parhau i ddarparu gofal plant am 5 mlynedd neu fwy.

Mae gan 66.7% o ymatebwyr gynlluniau dros y 18 mis nesaf i godi ffioedd, yr ymateb uchaf.

Mae gan 33.3% gynlluniau dros y 18 mis nesaf i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a, dilynir hyn yn agos gan y ffaith nad oedd gan 53.3% gynlluniau ond roedd ganddynt ddiddordeb.

Nid oedd gan 73.3% gynlluniau dros y 18 mis nesaf i ehangu nifer y lleoedd, serch hynny, nid oedd gan 20% gynlluniau ond roedd ganddynt ddiddordeb.

Yr un data oedd hwn ar gyfer y rhai oedd â chynlluniau dros y 18 mis nesaf i ymestyn eu horiau agor, a chynlluniau dros y 18 mis nesaf i helpu i fodloni anghenion gweithwyr shifft neu'r rheini sy'n gweithio tu allan i oriau swyddfa arferol.

Mae gan 46.7% gynlluniau dros y 18 mis nesaf i ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg y maent yn eu cynnig, neu newid natur ieithyddol y cymorth yr ydych yn ei gynnig ar hyn o bryd. Serch hynny, mae gan 20% gynlluniau ar waith, nid oedd gan 33% gynlluniau ond roedd ganddynt ddiddordeb.

Rhoddodd darparwyr fanylion pellach am unrhyw gynlluniau oedd ganddynt ar gyfer y dyfodol:

- I ehangu fy ngwybodaeth a fy nealltwriaeth am y Gymraeg
- Rwy'n anelu i barhau fel yr wyf, gan gynnig lleoedd gwag pan fyddant ar gael i bawb, lle bo hynny'n ymarferol. Gan fy mod yn weithiwr unigol, nid yw bob amser yn ymarferol cynnig lleoedd i weithwyr sifft pan fyddwch eisoes yn gweithio 10 awr y dydd dros bum niwrnod yr wythnos. Hefyd, nid yw bob amser yn ymarferol i gynnig lleoedd i'r rhai ag anghenion ychwanegol pan fyddwch yn gweithio ar eich pen eich hun. Mae'n rhaid rhoi'r flaenoriaeth i ddiwallu anghenion POB plentyn sy'n mynychu'r lleoliad.
- Mae angen i ni weithio ar ein darpariaeth Gymraeg - yn enwedig cael gwybodaeth a pholisïau ayyb yn Gymraeg
- Mae dychwelyd i gau am 6pm ar ôl Covid yn fwy sefydlog, cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer plant 3 oed, oherwydd mwy o le nawr ein bod wedi adnewyddu ein hen adeilad. Gallwn gael hyd at 33 o blant mewn dwy ystafell fawr, fodd bynnag mae angen cynllun busnes i weld a yw'n hyfyw yn ariannol gyda chostau staffio uwch, a'r angen am ddarpariaeth gwaith chwarae ar gyfer staff Clwb Ar Ôl Ysgol.
- Parhau i ddatblygu ein cymorth ADY
- Ymchwilio i hyfforddiant iaith Gymraeg gyda Camau. Helo blod am wasanaeth cyfieithu Gymraeg rhad ac am ddim ar gyfer taflenni ayyb.
- Mae ein Ysgol Feithrin yn bwriadu parhau i ddarparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Gymraeg o safon uchel yn y gymuned am flynyddoedd lawer i ddod. Rheolau AGC sy'n pennu nifer y plant y gallwn eu derbyn. Nid ydym wedi codi ffioedd ers dros 4 blynedd felly byddwn yn edrych ar gynyddu'r ffi sesiynol £9 ar y cyd â'r Pwyllgor Rheoli. Rhywbryd yn y dyfodol bydd angen dechrau trafod yr angen i ddod o hyd i Arweinydd newydd i'r Cylch. Nid oes unrhyw gynlluniau i ymddeol ar hyn o bryd ond bydd angen dechrau cynllunio ar gyfer hyn er mwyn caniatáu cyfnod o hamdden a chydweithio. Mae Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl yn disgwyl i Gyngor Torfaen barhau i'w cefnogi fel darparwr cyfrwng Gymraeg nas cynhelir a sicrhau nad yw'r datblygiadau yn Ysgol Panteg ac Ysgol Gyfun Gwynllyw yn effeithio'n ormodol ar ein niferoedd.
- Oherwydd blwyddyn arall lle mae cynnydd mawr yn y cyflog byw, bydd angen i mi adolygu ffioedd
- Byddai'n hyfryd ehangu'r meithrin ond yna byddai angen mwy o staff arnaf. Pe bai arian yn caniatáu mae hyn yn rhywbeth y gallem ei ystyried yn y dyfodol. Rydym hefyd yn bwriadu cynyddu'r ffi atodol ddyddiol.
- Llenwi ein sesiynau prynhawn sydd wedi bod yn dawel iawn ers y pandemig

Crynodeb o'r canfyddiadau:

Datblygu a chynyddu'r Gymraeg. Edrych ar nifer y plant sy'n mynychu a gwneud cynllun ariannol o ran cynyddu'r ddarpariaeth, yn enwedig ar gyfer Clwb Ar Ôl Ysgol a'r cymwysterau gofynnol. I rai edrych ar godi ffioedd, tra i eraill edrych ar lenwi lleoedd gweigion.

Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant ddweud a oedd ganddynt ddiddordeb mewn ehangu eu gwasanaeth mewn ardal ddaearyddol wahanol yn Nhorfaen.

Ymatebodd 86.7% drwy ddweud nad oeddent yn meddwl y byddent yn ehangu, gyda 13.3% efallai yn ei ystyried. Ni wnaeth unrhyw ymatebwyr rhoi unrhyw fanylion pellach.

Er mwyn cyflawni eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gofynnwyd i ddarparwyr pa gymorth sydd ei angen arnynt.

Dyweddodd darparwyr bod angen llawer o gymorth gyda'r iaith Gymraeg (33.3%).

Dyweddodd darparwyr bod angen ychydig o gymorth arnynt i ddarparu gofal i blant ag ADY ond dyma'r sgôr uchaf yn y categori hwn sef 93.3%. Hyfforddiant staff oedd yr ail uchaf, gyda sgôr o 80%. Roedd cymorth/cyngor busnes (60%) a chymorth/cyngor o ran Arolygu/cofrestru (53%) ymhlith y pedwar uchaf.

Dyweddodd 46% 'Gweithio gyda'r awdurdod lleol' a 'Mwy o gyfranogiad mewn cynllunio darpariaeth gofal plant yn lleol'.

19 Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc

19.1 Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc mewn Gwersylloedd Chwerthin, Dysgu a Bod yn Actif

Methodoleg

Fe wnaeth Gwasanaeth Chwarae Torfaen ymgynghori â chyfanswm o 478 o blant a phobl ifanc mewn 15 gweryll Chwerthin, Dysgu a Bod yn Actif, ar draws y fwrdeistref, ar ran Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yn ystod haf 2021. Mae Ffigur 310 yn dangos y lleoliadau yn ôl ardal AGEI yn Nhorfaen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r plant a'r bobl ifanc fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i glywed eu barn am chwarae yn Nhorfaen. Paratodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd amrywiaeth o gwestiynau i'w hystyried ac i'w hymgorffori yn yr ymgynghoriad.

At ddibenion y dadansoddiad hwn, ychydig o gwestiynau'n unig sy'n briodol o ran defnyddio'r ADGP a byddant yn archwilio barn plant am y math o ddarpariaeth y maent yn ei mynychu, awgrymiadau ar gyfer gwella, a'r defnydd o ddarpariaeth arall. Sylwch fod y data a ddarparwyd yn caniatáu ychydig iawn o ddadansoddi neu ddadansoddi cyfyngedig.

Mae Ffigur 310 yn cynrychioli nifer y plant yr ymgynghorwyd â hwy ar draws yr ardaloedd

Ffigur 310. Nifer y plant yr ymgynghorwyd â hwy CBST

Clwb Chwarae	AGEI	Nifer y plant sy'n mynychu
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Ysgol Gynradd Gymunedol Blenheim Road	Fairwater (Torfaen) 2	77
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif	Abersychan 2	78

Ysgol Gynradd Gymunedol Garnteg		
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-y-garn	Sant Cadog a Phen-y-garn	57
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Croesyceiliog	Gogledd Croesyceiliog 2	32
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Ysgol Panteg	Panteg 4	21
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Coed Eva	Coed Eva	24
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Nant Celyn	Coed Eva	22
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Ysgol Treftadaeth Blaenafon	Blaenafon 2	25
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Ysgol Gynradd George Street	Brynwern	30
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands	Cwmbrân Uchaf 3	14
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif	Fairwater (Torfaen) 3	19

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Henllys		
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Ysgol Gynradd Dewi Sant	Pontnewydd 2	8
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam	Llantarnam 2	26
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Y Dafarn Newydd	Y Dafarn Newydd 2	35
Gwersyll Dysgu, Chwerthin a Bod yn Actif Dôl Werdd	Fairwater (Torfaen) 3	10

Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc

Ar sail yr ymateb o blith y plant a'r bobl ifanc a gymerodd rhan yn yr ymgynghoriad, nodwyd bod:

- 83% o'r holl blant yn hoffi mynychu'r ddarpariaeth (mae'r cyfraddau ymateb uchaf yn ardaloedd Abersychan 2, Fairwater 2 Pen-y-garn a Sant Cadog.
- Mae plant yn mwynhau gweithgareddau celf a chrefft a gemau chwaraeon fwyaf
- Roedd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn bennaf yn cynnwys yr angen am adnoddau ychwanegol, sesiynau pêl-droed a gweithgareddau grŵp
- Dywedodd y plant nad oeddent yn defnyddio unrhyw ddarpariaeth gofal plant arall yn ystod gwyliau'r ysgol
- Dywedodd y plant nad oeddent yn defnyddio gofal plant y tu allan i'r ysgol

Yn gyson gyda ADGP 2017, mae'n amlwg fod y plant a'r bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn mwynhau'r gwersylloedd actif gyda'u ffrindiau. Ceir sawl cyfeiriad at gymdeithasu a mwynhau gweithgareddau ar y cyd.

19.2 Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc sy'n mynychu darpariaethau gofal plant cofrestredig.

Methodoleg

Cynhaliodd y Swyddog Cyfranogiad plant a phobl ifanc ymgynghoriad gyda chyfanswm o 20 o blant rhwng 3 a 9 oed mewn dau ddarpariaeth gofal plant cofrestredig gwahanol, un yn y Gogledd ac un yn Ne'r fwrdeistref. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yn ystod Rhagfyr 2021. Roedd y lleoliadau'n cynnwys un feithrinfa ddydd ac un Clwb Ar Ôl Ysgol. Effeithiodd cyfyngiadau'r pandemig ar y gallu i gynnal ymgynghoriad ehangach oherwydd absenoldeb staff, absenoldeb plant neu gyfyngiadau cynyddol yn dod i rym.

Ar ôl cyrraedd y lleoliadau, cyflwynodd y staff y Swyddog Cyfranogiad i'r plant. Eglurodd mai pwrpas ei hymweliad oedd gwrandao ar yr hyn yr oeddent yn ei hoffi am eu lleoliad a'r hyn allai fod yn well yn eu barn hwy.

Rhodddwyd ddyfais recordio go-pro i'r plant a gofynnwyd iddynt ddangos i ni (gan ddefnyddio camera) yr eitemau a gweithgareddau penodol yr oedden nhw'n eu mwynhau neu ddim yn eu hoffi. Rhodddwyd cyfle hefyd i'r plant fynegi eu barn ar lafar. Ailadroddwyd y weithdrefn hon yn y ddau leoliad.

Crynodeb o'r ymgynghoriad â Phlant a Phobl Ifanc sy'n mynychu darpariaethau gofal plant cofrestredig.

Datgelodd y plant a fu'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, nifer o weithgareddau positif yr oedden nhw'n eu mwynhau wrth fynychu gofal plant. Roedd y gweithgareddau a oedd yn well gan y plant a'r bobl ifanc ymhob lleoliad yn cynnwys;

- Chwarae tu allan: roedd tag a chuddio yn boblogaidd iawn, yn ogystal ag eitemau chwarae corfforol fel sleidiau, cerrig sarn a fframiau dringo. Roedd creu den, beiciau a chadeiriau gwthio hefyd yn boblogaidd iawn.
- Dywedodd llawer o blant wrthym hefyd eu bod yn mwynhau goleuadau ac addurniadau fel melinau gwynt a rhubanau yn eu gofod awyr agored
- Roedd posau hefyd yn boblogaidd iawn
- Roedd Lego yn weithgaredd chwarae blaenllaw
- Roedd plant y ddau leoliad yn mwynhau gweithgareddau celf a chrefft ac eisiau mwy o hyn
- Roeddent yn hoff o wisgo i fyny
- Roedd darllen yn boblogaidd iawn yn y ddau leoliad ac roedd y plant yn hapus i ddangos eu corneli darllen ac amrywiaeth o lyfrau (a oedd â thema sy'n addas i'r adeg o'r flwyddyn)

- Mewn un ddarpariaeth roedd gweithgaredd coginio yn cael ei gynnal yn ystod yr ymweliad ac roedd y rhan fwyaf o'r plant a oedd yn bresennol yn cymryd rhan yn hyn
- Dywedodd y plant hŷn wrthym eu bod yn mwynhau chwarae gemau cardiau fel Uno lle gallant herio'u ffrindiau
- Dywedodd llawer o blant wrthym eu bod yn hoffi'r staff

O ran meysydd i'w gwella neu 'beth allai fod yn well', mynegodd plant yn y ddau leoliad, yr awydd i fod yn yr awyr agored yn amlach, ym mhob tywydd. Fe wnaeth darpariaeth y gogledd egluro hyn yn fwy manwl:

- Gwella'r lloches, efallai ei ymestyn fel y gallwn chwarae tu allan mewn tywydd gwael. Gwella'r ddaear oherwydd gall fynd yn llithrig.

Atodiadau

Atodiad 1



Parent survey CSA -
CYM.docx

Atodiad 2



CSA 2021 Schools
Questionnaire (1).doc

Atodiad 3



WESP Questionnaire
2021_welsh (1).docx

Atodiad 4



CSA Employers
CYM.pdf

Atodiad 5



Employabilty Teams
Questionnaire 21_WEI

Atodiad 6



Umbrella
Organisation Survey I

Atodiad 7



CSA 2021 Providers
CYM.pdf

Y Diweddraf am yr Ymgynghoriad Mehefin 2022

Cyhoeddwyd drafft o'r asesiad ar lein ar

<https://getinvolved.torfaen.gov.uk/childcare-provision-assessment>

<https://www.torfaen.gov.uk/ên/EducationLearning/Parental-Support/FamilyInformationService/Family-Information-Service.aspx>

<https://torfaenfis.org.uk/about/childcare-sufficiency-assessment> at ddiben ymgynghori â'r cyhoedd rhwng dydd Gwener 27 Mai – dydd Iau 23 Mehefin 2022.

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad yn eang ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol ar sianeli'r Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

www.facebook.com/torfaen

www.facebook.com/TorfaenFIS

www.twitter.com/TorfaenFIS

www.instagram.com/TorfaenFIS

Yn ogystal â hyn, dosbarthwyd yr ymgynghoriad mewn e-bost i rhanddeiliaid allweddol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniwyd llai na 5 ymateb gan y cyhoedd. Roedd y sylwadau'n cynnwys yr angen i hyrwyddo cymorth gyda chostau gofal plant i deuluoedd nad ydynt yn gymwys i gael cymorth drwy Gredyd Cynhwysol, a diffyg gofal plant yn ystod gwyliau'r haf. Adroddwyd hefyd bod diffyg darpariaeth mewn ysgol (clwb ar ôl ysgol a chynllun chwarae dros yr haf) yn peri problemau i rieni sy'n gweithio.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i fynd i'r afael a'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn unol ag argymhellion yr Adroddiad Dadansoddi'r Bylchau.